

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a  
Llesiant (Cymru)**

**Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

**Gorffennaf 2013**



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol  
[www.cynulliad.cymru.org](http://www.cynulliad.cymru.org)

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8041  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [PwyllgorIGC@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorIGC@cymru.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng  
cyn bellied ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun  
camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n  
berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a  
Llesiant (Cymru)**

**Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1**

Gorffennaf 2013



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

## **Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei chylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: iechyd corfforol, meddyliol a chyhoeddus pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol

### **Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**David Rees (Cadeirydd)**

Llafur Cymru  
Aberafa Llafur Cymru n



**Leighton Andrews**

Llafur Cymru  
Rhondda



**Rebecca Evans**

Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**William Graham**

Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Elin Jones**

Plaid Cymru  
Ceredigion



**Darren Millar**

Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin Clwyd



**Lynne Neagle**

Llafur Cymru  
Torfaen



**Gwyn R Price**

Llafur Cymru  
Islwyn



**Lindsay Whittle**

Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Kirsty Williams**

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Brycheiniog a Sir Faesyfed

Yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil, roedd yr Aelodau canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor hefyd.



**Mark Drakeford**

Llafur Cymru  
Gorllewin Caerdydd



**Vaughan Gething**

Llafur Cymru  
De Caerdydd a Phenarth



**Ken Skates**

Llafur Cymru  
De Clwyd

# Cynnwys

---

<b>Crynodeb o'r Argymhellion a'r Casgliadau .....</b>	<b>7</b>
Egwyddorion Cyffredinol .....	7
<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>25</b>
<b>1. Cefndir.....</b>	<b>27</b>
Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil .....	27
Memorandwm Esboniadol .....	27
Cymhwysedd a chydsyniad Ysgrifenyddion Gwladol y DU .....	28
<b>2. Egwyddorion Cyffredinol a'r Angen am Ddeddfwriaeth .....</b>	<b>30</b>
Egwyddorion Cyffredinol .....	30
<b>3. Materion Trosfwaol.....</b>	<b>31</b>
Egwyddorion Statudol.....	31
Diffiniadau .....	35
Anabledd .....	35
Oedolyn sy'n Wynebu Risg.....	38
Gofalwr .....	41
<b>4. Mynediad at Wasanaethau .....</b>	<b>43</b>
Dyletswyddau ynglŷn â Llesiant .....	43
Gwasanaethau ataliol .....	50
Asesiadau - oedolion, plant a gofalwyr .....	57
Gwrthod Asesiad .....	61
Hygludedd Asesiadau .....	65
Cymhwystra .....	69
Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn.....	78
Codi ffioedd .....	79
Trosglwyddo o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion .....	83
<b>5. Llais a rheolaeth y defnyddiwr.....</b>	<b>87</b>
Cyffredinol .....	87
Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy .....	89

Eiriolaeth Annibynnol .....	92
Taliadau Uniongyrchol.....	96
Darparwyr sy'n cael eu rheoli gan Ddefnyddwyr a'r Gymuned.....	102
Cydgynhyrchu .....	104
<b>6. Diogelu – oedolion a phlant .....</b>	<b>107</b>
Trosolwg .....	107
Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion .....	109
Byrddau Diogelu ac Amddiffyn.....	115
Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol .....	122
<b>7. Gwasanaethau i Blant yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal / yn cael eu lletya / plant wedi'u mabwysiadu .....</b>	<b>124</b>
“Sylw dyledus” i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn .....	124
Achos o blaid Deddfwriaeth ar Wahân.....	127
Adran 88: Pobl Ifanc sydd â'r hawlogaeth i gael cymorth o dan adrannau 89 i 96 .....	132
Plant Anabl.....	134
Dileu'r amddiffyniad ‘cosb resymol’ .....	138
Gwasanaethau Mabwysiadu .....	141
<b>8. Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol.....</b>	<b>145</b>
Codau ymarfer a fframwaith canlyniadau cenedlaethol .....	145
<b>9. Cydweithredu a Gweithio mewn Partneriaeth.....</b>	<b>150</b>
Cydweithredu a Gweithio mewn Partneriaeth.....	150
Rhwystrau rhag cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.....	158
Cydweithio a chyllidebau cyfun .....	161
<b>10. Cwynion a sylwadau.....</b>	<b>165</b>
<b>11. Goblygiadau Ariannol.....</b>	<b>169</b>
Cost lawn y Bil.....	169
Ariannu newid trawsnewidiol .....	172
Hyfforddiant.....	174

Y goblygiadau o ran adnoddau yn deillio o asesu a diwallu anghenion gofalwyr .....	176
<b>12. Is-ddeddfwriaeth .....</b>	<b>178</b>
<b>13. Diddymiadau.....</b>	<b>182</b>
<b>Atodiad A .....</b>	<b>187</b>
<b>Atodiad B.....</b>	<b>189</b>
<b>Atodiad C - Tystion.....</b>	<b>192</b>
<b>Atodiad D – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .....</b>	<b>196</b>



# Crynodeb o'r Argymhellion a'r Casgliadau

---

## *Egwyddorion Cyffredinol*

**Casgliad 1** Rydym yn nodi ac yn cytuno â barn tystion wrth iddynt groesawu egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod pryderon yn y dystiolaeth na chaiff amcanion polisi'r Bil efallai eu gwireddu yn ymarferol.

## *Egwyddorion Statudol*

**Argymhelliad 1.** Cytunwn â barn tystion y dylai egwyddorion statudol gael eu cynnwys ar wyneb y Bil. Credwn y byddai egwyddorion o'r fath yn help i ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau ddeall ethos y Bil. Er ein bod yn derbyn bod Codau Ymarfer yn bwysig, credwn y byddai egwyddorion statudol ar wyneb y Bil yn help i greu fframwaith cyflawni yn erbyn Codau Ymarfer.

Gofynasom i'n Cynghorydd Cyfreithiol Arbenigol am gyngor ynglŷn â drafftio egwyddorion statudol ac mae drafft a awgrymwyd wedi'i atodi yn Atodiad A. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried yr egwyddorion drafft hyn a'i bod naill ai'n cyflwyno gwelliant i'w gynnwys ar wyneb y Bil neu'n rhoi sylw iddynt wrth iddi gyflwyno ei chyfres ei hun o egwyddorion statudol.

## *Diffiniadau*

**Argymhelliad 2.** Rydym yn deall y rhesymau a amlinellwyd gan y Dirprwy Weinidog am ddefnyddio'r diffiniad o anabledd a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Nodwn farn y Dirprwy Weinidog mai cysyniad yw diffiniad y model cymdeithasol o anabledd ac rydym yn cwestiynu pa mor effeithiol y gellid ei fynegi mewn deddfwriaeth. Credwn felly fod perygl y gallai defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd arwain at lai o eglurder ynglŷn â mynediad at ofal a chymorth, ac na fyddai efallai yn trosi'n hawdd i ddarpariaeth gwasanaethau.

Nodwn hefyd gefnogaeth y Dirprwy Weinidog i egwyddorion y model cymdeithasol a'i hymrwymiad iddynt, ac rydym yn cwestiynu sut y caiff yr egwyddorion hyn eu gwireddu'n ymarferol heb gyfeiriad at y model yn y Bil.

Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried sut y byddai modd rhoi'r diffiniad cymdeithasol o anabledd ar waith yn ymarferol, er enghraifft drwy reoliadau neu godau ymarfer, er mwyn gosod yr egwyddorion hynny mewn cyd-destun a nodi sut y dylai gwasanaethau gael eu dylunio a'u cyflenwi fel eu bod yn eu hadlewyrchu.

**Argymhelliaid 3.** Rydym wedi ystyried barn tystion ac rydym yn cytuno bod y diffiniad presennol o 'oedolyn sy'n wynebu risg' yn rhy gul. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ystyried diffiniad amgen, megis yr un a ddefnyddiwyd yn adran 3 o'r *Adult Support and Protection (Scotland) Act 2007*, fel yr awgrymodd rhai tystion.

Nodwn hefyd bryderon a godwyd gan Age Cymru, y dylai'r diffiniad o 'oedolyn sy'n wynebu risg' ymdrin â mater rheoli drwy orfodi. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ehangu'r diffinaid i gynnwys mater rheoli drwy orfodi

### **Dyletswyddau ynglŷn â Llesiant**

**Casgliad 2** Rydym wedi ystyried y ddyletswydd hollgyffredinol ynglŷn â llesiant sydd wedi'i chynnwys yn y Bil, a pha un a yw natur y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau er ei rhoi ar waith yn cael eu diffinio'n ddigonol. Credwn fod y diffiniad yn darparu cysondeb i'r Bil hwn.

Mae'r cysyniad o lesiant yn treiddio drwy'r Bil cyfan ond nid ydym yn glir ynglŷn â sut y mae'r diffiniad hwn yn rhngweithio â dyletswyddau eraill yn y Bil, megis y gofyniad i benderfynu pwysy'n gymwys i gael gwasanaethau.

Nodwn ddatganiad y Dirprwy Weinidog ynglŷn â llesiant. Fodd bynnag, credwn fod angen mwy o eglurder o hyd ynglŷn â sut y caiff gwahanol elfennau llesiant eu cymhwys yn ymarferol, a chan bwy. Er enghraifft, rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai tystion y byddai modd dehongli bod y diffiniad, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn rhoi cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol i sicrhau llesiant economaidd unigolion. Credwn fod angen sicrwydd bod modd rhoi'r dyletswyddau ar waith yn ymarferol.

**Argymhelliaid 4** Bu inni drafod yn fanwl y diffiniad o 'lesiant' ac a ddylai'r diffiniad gael ei gynnwys ar wyneb y Bil. Roedd ein trafodaethau ar y mater hwn yn anodd, gan beri inni geisio cyngor gan ein cynghorydd cyfreithiol arbenigol ynglŷn â'r diffiniad o 'lesiant'. Mae nodyn cyngor cyfreithiol wedi'i atodi yn Atodiad B. Ar ôl ystyried y cyngor hwn roedd y mwyafrif o'r

pwylgor yn ffafrio Opsiwn A, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau 'ystyried' nifer o ffactorau wrth bwys o mesur llesiant unigolyn.

Rydym yn argymhell i bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried Opsiwn A yn y nodyn cyngor cyfreithiol sydd wedi'i atodi a, phe bai o blaidd derbyn yr opsiwn hwn, rydym yn argymhell ei bod yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol i adran 2(2).

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymhell y dylid darparu Cod Ymarfer law yn llaw ag unrhyw ddiffiniad o 'lesiant', yn nodi sut mae'r elfennau unigol sydd wedi'u rhestru yn y ddiffiniad o 'lesiant' yn rhyngweithio â'i gilydd ac â dyletswyddau eraill yn y Bil.

**Argymhelliad 6** Rydym yn cydnabod yr effaith fawr y gall tai ei chael ar lesiant, ac rydym wedi ystyried barn tystion a oedd yn galw am gynnwys tai yn y diffiniad o lesiant. Os bydd y Dirprwy Weinidog yn derbyn ein hargymhelliad i ddiwygio'r Bil yn unol â'r opsiwn yr ydym ni'n ei ffafrio, sef Opsiwn A, cai tai ei gwmpasu yn '(f) safon byw'. Fodd bynnag, os na chaiff ein hargymhelliad ei dderbyn, rydym yn argymhell y dylai'r diffiniad presennol o lesiant gyfeirio at dai addas a byw'n annibynnol.

### *Gwasanaethau ataliol*

**Argymhelliad 7** Rydym yn rhannu pryderon tystion fod y ddyletswydd ataliol ar wasanaethau iechyd yn wannach na'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol ac rydym yn argymhell y dylai'r dyletswyddau ar fyrrdau iechyd lleol i "roi sylw i bwysigrwydd cyflawni dibenion" gwasanaethau ataliol gael eu cryfhau fel eu bod yn cyfateb i'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol yn adran 6 (1).

**Argymhelliad 8** Nodwn yr angen am fwy o eglurder ynglŷn â'r hyn y mae gwasanaethau ataliol yn ei olygu ond ni chredwn ei bod yn ddymunol cynnwys diffiniad manwl o wasanaethau ataliol ar wyneb y Bil gan y gallai hynny gyfyngu ar hyblygrwydd ac arloesi lleol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y byddai canllawiau neu god(au) sy'n nodi ym mha ffyrdd y dylai'r dyletswyddau hyn gael eu cyflawni gan awdurdodau lleol a'u partneriaid, a'r berthynas rhwng hynny a dyletswyddau eraill, yn rhoi'r eglurder sy'n ofynnol.

**Argymhelliad 9** Rydym yn argymhell y dylai fod dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i gyhoeddi datganiad am wasanaethau ataliol a sut y mae modd cael mynediad atynt. Byddai hynny'n galluogi gweithwyr proffesiynol a

defnyddwyr gwasanaethau i ddeall cwmpas a phwrpas gwasanaethau o'r fath.

### ***Asesiadau -***

**Argymhelliad 10.** Rydym yn fodlon â bwriad y Dirprwy Weinidog i symleiddio'r broses asesu. Rydym yn bryderus y gallai fod dyblygu asesiadau a chredwn y dylai asesiadau gael eu cynnal gan y person mwyaf priodol, pa un a yw'r gwasanaethau hynny i gael eu cyflenwi gan y gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Ni ddylai fod unrhyw rwystrau deddfwriaethol rhag i asesiad gael ei gynnal gan y person priodol hwnnw, ac er bod rhaid i'r ddyletswydd i asesu fod yn glir, mae angen hyblygrwydd ynglŷn â chynnal asesiadau.

Rydym yn argymhell felly fod y Dirprwy Weinidog yn ystyried cylfwyno gwelliannau i adrannau 10 (1) ac 17 (5) (a) o'r Bil i hwyluso'r ffordd i ddirprwyo asesiadau i'r person mwyaf priodol. Ystyriasom hefyd adran 18 o'r Bil, sy'n nodi'r rheoliadau ar gynnal asesiadau anghenion ac yn amlinellu'r gofynion y gellir eu pennu. Rydym yn argymhell bod y rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac y dylai safon genedlaethol i asesiadau gael ei phennu yn y rheoliadau hyn.

**Argymhelliad 11.** Rydym wedi ystyried barn tystion sy'n galw am ddiffiniad o asesiad cymesur. Cytunwn â phryderon y grŵp y gallai hyn, os gadewir ef heb ei ddiffinio, olygu mynediad cyfyngedig at asesu priodol gan na fydd asesiadau o'r fath efallai bob amser yn nodi holl anghenion unigolyn. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried darparu mwy o eglurder parthed y diffiniad o 'asesiad cymesur' mewn rheoliadau, ac yn manylu ar sut y mae'n rhagweld y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.

### ***Gwrthod Asesiad***

**Argymhelliad 12.** Rydym yn fodlon yn gyffredinol â'r darpariaethau yn y Bil sy'n galluogi oedolion i wrthod asesiad er ein bod yn bryderus ynglŷn â sut y mae'r darpariaethau hyn yn delio ag achosion lle gallai oedolion gael eu gorfodi i wrthod asesiad, er enghraifft mewn achosion o gam-drin. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried y pryder hwn ymhellach.

**Casgliad 3,** Trafodasom adran 14 o'r Bil yn fanwl, a rhiant yn gwrthod asesiad anghenion i blentyn. Mynegwyd amrywiaeth barn, gyda rhai Aelodau'n galw am dynnu'r adran hon o'r Bil, er inni gytuno y byddai'n well

at ei gilydd cadw'r adran hon.

**Argymhelliaid 13.** Ystyriasom hefyd dystiolaeth Barnardo's Cymru y dylai adran 14 gynnwys y geiriau 'budd pennaf y plentyn'. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r ffordd y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a 'budd pennaf y plentyn' yn rhyngweithio ag Erthygl 8 o Gonfensiwn yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n ymdrin â'r hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol. Rydym yn argymhell felly y dylai'r adran hon o'r Bil gael ei rhoi ar waith er 'budd pennaf y plentyn' ond mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag Erthygl 8.

**Argymhelliaid 14.** Rydym yn argymhell y dylid newid yr amgylchiadau yn ACHOS 1 yn adran 14 (2), lle mae'r awdurdod lleol yn cadw'i ddyletswydd i gynnal asesiad, er bod hynny wedi cael ei wrthod, i roi'r cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i fod â '*rheswm i gredu*' yn hytrach nag '*amau*' bod y plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall. Rydym yn argymhell hefyd fod ACHOS 2 yn adran 13 (2) yn cael ei newid yn yr un modd.

### ***Hygludedd Asesiadau***

**Argymhelliaid 15.** Croesawn y darpariaethau yn adran 40 (2) o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod, y mae person cymwys yn symud iddo, i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth sydd wedi'u nodi yng nghynllun gofal presennol y person nes bydd yr awdurdod yn cwblhau'i adolygiad a'i asesiadau ei hun.

Er ein bod yn credu y bydd y ddarpariaeth hon yn help i sicrhau bod bylchau mewn gofal yn cael eu hosgoi, nodwn mai dim ond fel mesur dros dro y defnyddir hyn a'i fod yn golygu ailasesu neu adolygu gan yr awdurdod derbyn. Credwn hefyd fod angen i'r trosglwyddo gwybodaeth rhwng awdurdodau gael ei wneud mewn modd amserol ac rydym yn argymhell bod gwelliant i adran 40 (1) (b) yn cael ei ddwyn gerbron i adlewyrchu hyn.

**Argymhelliaid 16.** Credwn fod potensial i adran 40 (2) (d) o'r Bil gael ei chamddehongli gan y byddai person sy'n symud o un awdurdod i un arall yn gorfol ailgychwyn y broses asesu o'r dechrau. Felly, rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno gwelliant i ailddrafftio geiriad adran 40 (2) (d) i ddarllen:

“(d) asesu, *ailasesu neu adolygu* a oes gan y person anghenion am ofal a chymorth, ac os oes, beth yw'r anghenion hynny, gan roi sylw penodol i unrhyw newid yn anghenion y person am ofal a chymorth sy'n deillio o'r symud”.

**Argymhelliad 17.** Wrth ystyried y dystiolaeth ynglŷn â hygludedd ymhellach, rydym yn bryderus y byddai modd i'r adran hon o'r Bil gael ei chamddehongli. Credwn fod perygl o godi disgwyliadau o ran yr hyn y bydd yr adran hon o'r Bil yn ei gyflawni'n ymarferol. Er enghraifft, credwn fod potensial i bobl ddisgwyli y bydd awdurdod derbyn yn darparu'r un pecyn gofal ag sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan yr awdurdod anfon. I ymdrin â'r pryder hwn ac ychwanegu eglurder o ran bwriad yr adran hon, rydym yn argymhell newid teitl yr adran hon i ddarllen ‘hygludedd cynlluniau gofal’ yn hytrach na ‘hygludedd gofal a chymorth’.

**Argymhelliad 18.** Rydym yn aneglur ynglŷn â hygludedd trawsffiniol gan mai dim ond i hygludedd o fewn Cymru y mae'r Bil yn gymwys; nid yw'n gymwys i'r rhai sy'n dod i mewn i Gymru. Rydym yn argymhell felly fod y Dirprwy Weinidog yn egluro'r trefniadau i unigolion sy'n dod i mewn i Gymru cyn diwedd Cyfnod 2.

**Argymhelliad 19.** Rydym yn croesawu'r ffaith fod y Dirprwy Weinidog yn ailystyried ei safbwyt ar gynnwys cynlluniau gofal cludadwy i ofalwyr yn y Bil ac yn argymhell ei bod yn dod cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.

### **Cymhwystra**

**Casgliad 4.** Nid ydym yn fodlon â'r wybodaeth sydd wedi cael ei darparu ynglŷn â'r fframwaith cymhwystra cenedlaethol sy'n cael ei gynllunio. Teimlai rhai o aelodau'r Pwyllgor fod y diffyg eglurder hwn yn wendid sylfaenol yn y Bil, gan ei fod yn hanfodol er mwyn deall sut y bydd y Bil yn gweithio'n ymarferol ac i bwy y bydd yn gymwys.

Rydym yn deall y rhesymau a amlinellwyd gan y Dirprwy Weinidog am beidio â chynnwys manylion cymhwystra ar wyneb y Bil, ac rydym yn derbyn bod angen hyblygrwydd rheoliadau ar fframwaith cymhwystra.

**Argymhelliad 20.** Nodwn ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i wneud datganiad polisi mawr ynglŷn â chymhwystra ac rydym yn argymhell ei bod yn ychwanegu datganiad llafar mewn Cyfarfod Llawn at hyn cyn diwedd Cyfnod 2. Mae cymhwystra'n ganolog i lwyddiant y Bil ac rydym felly'n credu y dylai'r Pwyllgor hwn gael y cyfreith i graffu'n drylwyr ar y rheoliadau cymhwystra drafft

gyda digon o amser i adolygu, holi'r Dirprwy Weinidog, a chyflwyno adroddiad ar y rheoliadau drafft fel Pwyllgor cyn i drafodion Cyfnod 3 gael eu cynnal yn gynnar yn 2014.

Rydym yn argymhell y dylai rheoliadau'n ymwneud â mein prawf cymhwystera fod yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol.

**Argymhelliaid 21.** Fel Pwyllgor, ystyriasom hefyd a ddylid cael Codau Ymarfer law yn llaw â rheoliadau ynglŷn â'r mein prawf cymhwystera. Credwn fod Codau Ymarfer yn fwy hygrych ac yn haws eu deall i ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn derbyn ein hargymhellion i gynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil (argymhelliaid 1), ac y dylai unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn nodi'r mein prawf cymhwystera cenedlaethol drawsgyfeirio at yr egwyddorion hyn.

**Argymhelliaid 22.** Mewn perthynas â 'phasbortio', rydym yn croesawu'r ffaith fod y Dirprwy Weinidog wedi cynnwys, ar wyneb y Bil, yr amgylchiadau lle caiff rhai unigolion eu pasbortio i fod ag angen cymwys. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn nodi sut y bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau'r hawliau fel y maent wedi'u nodi ar hyn o bryd yn adran 17 o Ddeddf Plant 1989.

**Argymhelliaid 23.** O ran cyflwyno fframwaith cymhwystera cenedlaethol, rydym yn bryderus ynglŷn â'r effaith y gallai hyn ei chael ar y rhai sy'n cael gwasanaethau ar hyn o bryd, a allai ganfod nad oes ganddynt hawl mwyach i'r gwasanaethau hynny o dan y trefniadau newydd. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn nodi'n gliriach sut y bydd y trefniadau pontio yn gweithio.

Credwn na ddylai'r rhai sy'n cael gwasanaethau ar hyn o bryd fod ar eu colled o dan y trefniadau newydd. Rydym yn dal i bryderu na allwn fesur maint y broblem bosibl hon heb ragor o fanylion am y mein prawf cymhwystera. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried yr effaith bosibl a allai ddeillio o drosglwyddo o'r mein prawf cymhwysos presennol i fframwaith cymhwystera cenedlaethol newydd.

**Casgliad 5.** Yn olaf, nodwn ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i gynnal ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid yngylch datblygu fframwaith cymhwystera cenedlaethol. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog wireddu'r ymrwymiad hwn a darparu esboniad pellach o'i phroses ymgynghori arfaethedig.

## **Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plenty**

Argymhelliaid 24. Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan Blant yng Nghymru ynglŷn â'r potensial i'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth ganolbwytio ar gam-drin ac esgeuluso a pheidio â rhoi sylw i wasanaethau ataliol. Rydym yn argymhell bod sylw llawn yn cael ei roi i'r angen am ymyrryd cynnar i hyrwyddo llesiant a lles plant wrth ddatblygu'r fframwaith cymhwystera.

### **Codi ffioedd**

Argymhelliaid 25. Rydym wedi ystyried Rhan 5, yn benodol adrannau 44 (2), (3) a (4) o'r Bil, sy'n nodi *Personau y caniateir i ffioedd gael eu gosod arnynt*, a'r pryderon a godwyd mewn tystiolaeth fod codi tâl ar bobl 16 ac 17 oed yn mynd yn erbyn ethos y Bil. Rhannwn y farn hon ac ni chredwn ei bod yn briodol codi tâl ar bobl ifanc. Rydym yn argymhell y dylai'r pwerau i godi ffioedd ar bobl 16 ac 17 oed gael eu dileu o'r Bil.

Mae gennym bryderon tebyg ynglŷn ag adran 54 (1) (b) sy'n darparu ar gyfer rheoliadau i godi tâl am wybodaeth, cyngor a chynhorthwy o dan adran 8 yn ogystal ag am wasanaethau ataliol yn adran 6. Rydym yn poeni y gallai taliadau o'r fath rwystro pobl rhag manteisio ar wasanaethau ac rydym yn cwestiynu a yw'n briodol codi tâl am wybodaeth a chyngor. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu mwy o eglurder ynglŷn â'r amgylchiadau pan gâi taliadau eu codi am y gwasanaethau hynny.

## **Trosglwyddo o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion**

Argymhelliaid 26. Croesawn gynllun 'Pan Fydda i'n Barod' sy'n cael ei ddatblygu gan y Dirprwy Weinidog a'r ffaith fod tri chynllun peilot ar waith ar hyn o bryd. Edrychwn ymlaen at gael rhagor o fanylion am y gwerthuso ar y cynlluniau peilot hyn a byddem yn disgwyl ateb deddfwriaethol os na ddangoswyd bod y drefn hon yn gweithio. Mewn sefyllfa felly, rydym yn argymhell dod â gwelliant gerbron i roi dyletswydd statudol glir ar wyneb y Bil a fydd yn nodi dyletswyddau clir ar awdurdodau lleol a chyrff partner eraill wrth iddynt reoli'r broses drosiannol.

### **Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy**

Argymhelliaid 27. Rydym yn fodlon yn gyffredinol â'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn adran 8 o'r Bil ond rydym wedi gwrandu ar bryderon tystion ynglŷn â'r angen i wybodaeth fod yn gwbl hygrych. Credwn fod angen i wybodaeth fod ar gael mewn amryw o fformatau ac ieithoedd i adlewyrchu

anghenion holl ddinasyddion Cymru. Rydym yn argymhell i diwygio'r Bil i gynnwys cyfeiriad at wybodaeth 'hygrych'.

### ***Eiriolaeth Annibynnol***

**Argymhelliaid 28.** Nodwn ddatganiad ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog a'i hymrwymiad i gynnwys darpariaethau yn y Bil i ymestyn y ddarpariaeth eiriolaeth statudol. Rydym yn argymhell y dylid manylu ar bwy fydd â hawl i gael gwasanaethau eirioli annibynnol cyn cychwyn Cyfnod 2.

**Argymhelliaid 29.** Croesawn ymrwymiad y Dirprwy Weinidog y bydd y darpariaethau hyn yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu, a gobeithiwn y bydd hynny'n darparu trefniadau monitro ansawdd cadarn. Fodd bynnag, ni fyddem am weld y trefniadau hyn yn effeithio ar eiriolwyr sy'n gymheiriaid. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried yr angen am drefn sicrhau ansawdd briodol a'i bod yn manylu ar sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol cyn diwedd Cyfnod 2.

### ***Taliadau Uniongyrchol***

**Argymhelliaid 30.** Ystyriasom farn amrywiol tystion pa un a ddylai taliadau uniongyrchol gael eu sefydlu fel y ffordd arferol o ddarparu gwasanaeth, ac adlewyrchwyd yr amrywiaeth barn yn yr ystod barn o fewn y Pwyllgor. Ni ddaethom i farn unfrydol ar y mater hwn ond nid oedd mwyafrif o Aelodau'r pwyllgor am weld taliadau uniongyrchol fel dull arferol o ddarparu gwasanaeth.

**Argymhelliaid 31.** Croesawn fwriad polisi'r rhan hon o'r Bil a'r dewis y mae'r Dirprwy Weinidog yn dymuno'i hyrwyddo i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol. Credwn fod taliadau uniongyrchol wedi cael eu hyrwyddo'n wael gan awdurdodau lleol yng Nghymru, gan wadu cyfleoedd gwirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaethau gael mwy o lais a rheolaeth. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried diwygio adran 34 i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo taliadau uniongyrchol.

**Argymhelliaid 32.** Rydym wedi ystyried adran 34 o'r Bil ac rydym yn bryderus ynglŷn ag ehangder adrannau 34 (3) (c) (i) a 34 (4) (d) (i) sy'n dweud na fydd yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud taliadau uniongyrchol neu na chaniateir hynny os nad ydynt yn fodlon fod hynny'n ffordd briodol o ddiwallu anghenion. Credwn fod yr isadrannau hyn yn caniatáu gormod o ddisgresiwn

i awdurdodau lleol i benderfynu pa un i ddarparu taliadau uniongyrchol ac rydym yn argymhell felly eu bod yn cael eu dileu.

Fodd bynnag, wrth wneud mwy i hyrwyddo taliadau uniongyrchol, byddem yn disgwyl i'r Dirprwy Weinidog sefydlu darpariaethau i ddiogelu'r rhai sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol rhag i eraill gamddefnyddio'r arian.

**Argymhelliaid 33.** Rydym hefyd wedi ystyried y potensial i'r Bil ddarparu'r gallu i'r GIG i gynnig taliadau uniongyrchol o dan rai amgylchiadau. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried ymestyn y ddarpariaeth taliadau uniongyrchol i bobl sy'n cael pecynnau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd.

#### ***Darparwyr sy'n cael eu rheoli gan Ddefnyddwyr a'r Gymuned***

**Argymhelliaid 34.** Rydym wedi ystyried cwmpas y ddyletswydd ar awdurdodau lleol yn adran 7 o'r Bil ac rydym yn croesawu'r ddyletswydd i hyrwyddo a datblygu mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn dod â gwelliant gerbron i adran 7 (1) (d) i un ai gynnwys y sector annibynnol neu ddileu'r cyfeiriad at 'fudiadau trydydd sector'.

**Argymhelliaid 35.** Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu canllawiau ar drefniadau llywodraethu mentrau cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli mewn modd cadarn sy'n cyd-fynd ag amcanion y Bil.

#### ***Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion***

**Argymhelliaid 36.** Croesawn fwriad y Dirprwy Weinidog i ddod â gwelliant gerbron i gynnwys pwerau symud pobl yn y Bil os caiff y materion yn ymwneud â chydsynio eu datrys gyda Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, os bydd y materion hyn yn dal heb eu datrys, rydym yn argymhell nad yw'r Dirprwy Weinidog yn diddymu adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

#### ***Byrddau Diogelu ac Amddiffyn Rhanbarthol***

**Argymhelliaid 37.** Ni chawsom unrhyw dystiolaeth allanol i awgrymu y byddai uno'r byrddau diogelu oedolion a phlant rhanbarthol yn gwella'r diogelu. Roedd y mwyafrif o'r Pwyllgor o blaids dileu'r pwerau hyn o'r Bil.

Rydym yn argymhell i Dirprwy Weinidog yn tynnu'r pwerau yn y Bil sy'n caniatáu uno byrddau diogelu oedolion a phlant rhanbarthol.

Os nad yw'r Dirprwy Weinidog o blaid dileu'r pwerau i gyfuno byrddau diogelu rhanbarthol, rydym yn argymhell ei bod yn darparu rhagor o wybodaeth am y sail resymegol dros gynnwys pwerau yn y Bil i uno byrddau o'r fath, ynghyd â manylion am y weithdrefn i uno byrddau. Rydym yn argymhell hefyd y dylai unrhyw benderfyniad i uno byrddau fod yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol.

**Argymhelliad 38.** Nodwn fod penderfyniad y Dirprwy Weinidog i gynnwys pwerau i gyfuno byrddau diogelu yn deillio o gyngor mewn adroddiad gan Fforwm Diogelu Plant Cymru. Rydym yn argymhell bod yr adroddiad hwn yn cael ei ailgyhoeddi a bod y Dirprwy Weinidog yn gwneud datganiad llafar mewn Cyfarfod Llawn ar y mater hwn cyn diwedd trafodion Cyfnod 2.

**Argymhelliad 39.** Nodwn fod adran 111 (2) o'r Bil yn rhestru'r partneriaid ar fwrdd diogelu ond nad yw'n cynnwys y gwasanaeth prawf. Rydym yn argymhell newid yr adran hon i gynnwys cyfeiriad at y gwasanaeth prawf.

**Argymhelliad 40.** Nodwn fwriad y Dirprwy Weinidog i ddatblygu polisiau diogelu ar sail chwe ôl troed daearyddol. Rydym yn argymhell ei bod yn darparu rhagor o wybodaeth am yr olion traed a'r sail resymegol wrth wraidd ei bwriad.

### ***Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol***

**Argymhelliad 41.** Ar ôl ystyried y dystiolaeth, rydym o'r farn y dylai fod byrddau diogelu cenedlaethol ar wahân ar gyfer oedolion a phlant. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn dod â gwelliant gerbron i'r perwyl hwn.

Os nad yw'r Dirprwy Weinidog o blaid derbyn yr argymhelliad hwn rydym yn argymhell y dylai fod o leiaf un bwrdd diogelu cenedlaethol gyda dwy elfen iddo, un yn cynrychioli oedolion a'r llall yn cynrychioli plant.

### ***"Sylw dyledus" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn***

**Argymhelliad 42.** Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i honiad Comisiynydd Plant Cymru fod y Bil yn groes i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i fod yn tanseilio'r egwyddor prif ystyriaeth o dan Erthygl 3. Nodwn ei bryderon fod hyn yn groes i fudd pennaf plant yng Nghymru ond nid ydym yn cytuno â'i ddehongliad.

Nodwn hefyd y gwahaniaeth y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei nodi o ran cymhwysos o'r egwyddor prif ystyriaeth gan y Llysoedd a chan Awdurdodau lleol a'i barn hi nad oes unrhyw risg i hawliau'r plentyn yn deillio o'r Bil hwn. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi gan y dehogniad hwn o'r mater.

Wrth ystyried tystiolaeth gan fudiadau plant ar y mater hwn, rydym yn derbyn y farn nad yw'r Bil o reidrwydd yn mynd yn groes i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn gwneud datganiad, cyn diwedd cyfnod 2, ar sut y bydd y cynllun deddfwriaeth a fydd yn cyd-fynd â'r Bil hwn yn cynnwys rheoliadau a chodau ymarfer a fydd yn hyrwyddo ac yn amddiffyn egwyddor greiddiol budd pennaf y plentyn drwy'r Bil ar ei hyd.

### ***Achos o blaïd Deddfwriaeth ar Wahân***

**Argymhelliad 43.** Nodwn farn mudiadau plant nad oedd gwahaniaeth ganddynt pa un a geid deddfwriaeth ar wahân ar gyfer plant ym maes y gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, roeddent i gyd yn gytûn ynglŷn â phwysigrwydd achub ar y cyfle hwn i ddeddfu ynglŷn â'r maes pwysig hwn ar yr adeg hon.

Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r dadleuon o blaïd ac yn erbyn deddfwriaeth sy'n 'canolbwytio ar bobl' yn hytrach na deddfwriaeth ar wahân i oedolion a phlant. Mae'r mwyafrif o'r Pwyllgor yn cefnogi'r model deddfwriaethol sy'n canolbwytio ar bobl ond byddai'n well gan leiafrif weld deddfwriaeth ar wahân ar gyfer plant. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn unfrydol o'r farn na ddylai'r Bil arwain at ganlyniad anfwriadol lle caiff hawliau un ai oedolion neu blant eu gwanhau. Rydym yn awyddus i sicrhau bod yr egwyddor o weithredu mewn modd sy'n canolbwytio ar bobl yn cael ei gwireddu yn ymarferol.

Rydym yn cydnabod hefyd bwysigrwydd dull sy'n canolbwytio ar bobl er mwyn goresgyn ac atal problemau wrth i unigolyn drosglwyddo o'r gwasanaethau cymdeithasol plant i'r gwasanaethau oedolion, ac rydym yn cyfeirio'n fanylach at y mater hwn ym mharagraffau 164 - 173.

Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu datganiad llafar, cyn diwedd cyfnod 2, yn manylu ar y sail resymegol am symud o fod â Bil ar wahân ar gyfer plant i Fil sy'n canolbwytio ar bobl.

## **Adran 88: Pobl Ifanc sydd â'r hawlogaeth i gael cymorth o dan adrannau 89 i 96**

**Argymhelliaid 44.** Rhannwn bryderon tystion ynglŷn â defnyddio categorïau 1-5 wrth gyfeirio at y rhai sy'n gadael gofal ac rydym yn **anghyfforddus** fod terminoleg o'r fath yn debyg i'r hyn a ddefnyddir yn y systemau cyfiawnder troseddol. Rydym yn argymhell y dylid defnyddio terminoleg wahanol.

### **Plant Anabl**

**Argymhelliaid 45.** Nodwn fwriad y Dirprwy Weinidog i gynnwys ar wyneb y Bil y bobl hynny a fydd yn cael eu 'pasbortio' at wasanaethau a chroesawn yffaith fod plant sydd ag anabledd difrifol yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai diddymu adran 17 o Ddeddf Plant 1989 arwain at leihau hawliau presennol plant anabl ac rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu datganiad llafar ar sut y caiff hawliau o'r fath eu cadw y Bil.

**Argymhelliaid 46.** Rydym yn cydnabod hefyd bwysigrwydd gwarchod hawliau plant anabl y gallai fod angen iddynt gyrchu at wasanaethau yn y dyfodol ac rydym yn argymhell diwygio adran 12 (1) i ddarllen 'y gall fod angen gofal a chymorth ar blentyn am ei fod yn *anabl neu fel arall*'. Er mwyn adlewyrchu'r model 'pobl' sy'n cael ei hyrwyddo yn y Bil rydym yn argymhell diwygio adran 10 (1) yn unol â hynny i ddarparu'r un sicrwydd i oedolion anabl. Credwn mai effaith hyn fyddai cynnwys plant anabl yn benodol mewn dyletswydd i asesu, a galluogi'u hangen am wasanaethau i gael ei asesu felly gan yr awdurdod lleol.

### **Dileu'r amddiffyniad 'cosb resymol'**

**Casgliad 6.** Nodwn farn gref tystion wrth ddadlau'r achos o blaidd cynnwys darpariaeth yn y Bil hwn i ddileu'r amddiffyniad 'cosb resymol'. Roedd gennym amrywiaeth barn ynglŷn â pha un a ddylid cynnwys darpariaeth o'r fath yn y Bil hwn ai peidio. Ni chredai'r mwyafrif o'r Pwyllgor mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng iawn i fynd i'r afael â'r mater hwn.

### **Gwasanaethau Mabwysiadu**

**Argymhelliaid 47.** Rydym yn pryderu bod bylchau yn y cymorth ôl-fabwysiadu a byddem yn croesawu dyletswydd i ddarparu'r cymorth hwn drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig. Rydym yn

argymhellod bod y Dirprwy Weinidog yn gwneud datganiad polisi clir, cyn diwedd cyfnod 2, yn nodi sut y caiff gwasanaethau cymorth ôl-fabwysiadu eu cyflenwi.

### ***Codau ymarfer a fframwaith canlyniadau cenedlaethol***

**Argymhelliad 48.** Nodwn fod adran 122 o'r Bil yn darparu i Weinidogion Cymru ddyroddi a chyhoeddi cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Bil. Nodwn hefyd fod adran 123 yn galluogi awdurdod lleol i wyro oddi wrth ofynion mewn codau ond wrth wneud hynny rhaid iddo ddilyn y weithdrefn a nodir yn yr adran hon o'r Bil, hysbysu Gweinidogion Cymru o'i resymau a nodi'i bolisi amgen neu'i gwrs gweithredu arfaethedig.

Rydym yn pryderu y gallai'r darpariaethau hyn alluogi awdurdod lleol i wyro oddi wrth unrhyw godau ymarfer yn ymwneud â'r meinu prawf cymhwystera cenedlaethol. Credwn y gallai hyn danseilio'r sail resymegol dros gael meinu prawf o'r fath, sydd wedi'u bwriadu i sicrhau darpariaeth gwasanaethau gyfartal ar draws Cymru. Rydym yn argymhellod, wrth i awdurdodau lleol wyro oddi wrth godau, fod rhaid iddynt gyhoeddi datganiad polisi ar y meinu prawf cymhwystera y maen nhw'n bwriadu'u defnyddio a chael cytundeb Gweinidogion Cymru i wyro oddi wrth y cod.

**Argymhelliad 49.** Nodwn y ddyletswydd yn adran 122 (1) o'r Bil, yn ymwneud â gwneud, cymeradwyo a dirymu codau, fod 'rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy yngylch drafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig)'. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn nodi sut y caiff rhanddeiliaid eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu codau drafft cyn i'r ymgynghori hwn ddigwydd.

### ***Cydweithredu a Gweithio mewn Partneriaeth***

**Argymhelliad 50.** Rydym wedi'n hargyhoeddi gan y dystiolaeth a gafwyd o blaidd iechyd a gofal cymdeithasol cwbl integredig a chredwn y byddai Bil ar wahân ar ofal integredig, tebyg i'r drefn ddeddfwriaethol sy'n cael ei hystyried ar hyn o bryd yn yr Alban, yn cynnig gwell cyfle i ymdrin â'r rhwystrau rhag gweithio mewn modd integredig. Rydym yn argymhellod bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried dod â Bil ar wahân gerbron ar y mater hwn.

Pe na bai'r Dirprwy Weinidog o blaidd derbyn ein hargymhelliad yn galw am Fil ar wahân, rydym yn argymhellod y dylid cryfhau adrannau 147, 148 a 149 drwy newid pob cyfeiriad yn yr adrannau hyn o 'caiff' i 'rhaid i'.

## **Rhwystrau rhag cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth**

**Argymhelliad 51.** Nodwn a chytunwn â barn tystion sy'n galw am gael gwared â'r rhwystrau rhag gweithio integredig sydd wedi'u nodi yn adrannau 31 (4) a (5) o'r Bil, sy'n gwahardd awdurdod lleol rhag diwallu angen person am ofal a chymorth, o dan adrannau 21 i 29, drwy ddarparu neu drefnu i ddarparu gofal nysrio gan nyrs gofrestredig. Credwn y dylai awdurodau lleol fod â'r gallu i gyflogi gweithwyr proffesiynol â chymwyseddau iechyd a gofal cymdeithasol, ac rydym yn argymhell bod y cyfyngiadau sydd wed'u nodi yn adrannau 31 (4) a (5) yn cael eu dileu.

**Argymhelliad 52.** Nodwn y darpariaethau yn adrannau 147 - 150 sy'n darparu ar gyfer rhagnodi trefniadau partneriaeth rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd drwy reoliadau. Rydym yn argymhell bod angen i reoliadau o'r fath amlinellu manylion y trefniadau llywodraethu proffesiynol er mwyn atal anghydfodau rhwng partneriaid ynglŷn â sut y dylai trefniadau o'r fath weithredu.

## **Cydweithio a chyllidebau cyfun**

**Argymhelliad 53.** Nodwn farn tystion fod angen mwy o rannu adnoddau rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol er mwyn i'r Bil lwyddo. Credwn y byddai defnyddio mwy ar gyllidebau cyfun yn helpu gwaith drwy bartneriaeth ac yn hyrwyddo'r cydweithredu di-dor y mae partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yn galw amdano.

Mae ein hargymhelliad 50 yn adlewyrchu ein barn y dylid cryfhau'r darpariaethau yn adran 148 o'r Bil, sy'n darparu y caiff awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol dalu tuag at sefydlu a chynnal trefniadau partneriaeth drwy wneud taliadau'n uniongyrchol neu drwy dalu i 'gronfa gyfun' a thrwy ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill.

## **Cwynion a sylwadau**

**Casgliad 7.** Nodwn alwad Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru am bŵer i'w alluogi ef i wneud adroddiadau ar ymchwiliadau yn gwbl gyfrinachol ar adegau pan fydd ef o'r farn fod hynny'n angenrheidiol. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno bod angen pŵer o'r fath a chredwn y dylai adroddiadau'r Ombwdsmon fod yn eiddo i'r cyhoedd.

**Argymhelliad 54.** Cytunwn â'r Ombwdsmon y dylai'r broses er ymdrin â chwynion sy'n cwmpasu nifer o asiantaethau gael ei symleiddio. Rydym yn

argymhellod bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried y mater hwn a gofynnwn am eglurhad pellach ar ei chynigion o ran ymdrin â chwynion.

**Casgliad 8.** Nodwn farn yr Ombwdsmon ynglŷn â rôl eirioli annibynnol yn y broses gwnion a chytunwn â phwysigrwydd eirioli annibynnol yn darparu cynhorhwy i'r rhai y mae arnynt ei angen er mwyn cyflwyno'u cwynion yn effeithiol. Rydym yn trafod ac yn gwneud argymhellion ynglŷn ag eirioli annibynnol ym mhennod 5 o'r adroddiad hwn.

### ***Cost lawn y Bil***

**Argymhelliaid 55.** Nid ydym yn fodlon â'r wybodaeth sydd wedi cael ei darparu ynglŷn â chost lawn y Bil ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth i'n hargyhoeddi y bydd y Bil yn niwtral o ran cost yn y tymor hir. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod maint a chymhlethdod y Bil yn ei wneud yn hynod o anodd ei gostio. Rydym hefyd yn cydnabod pryderon tystion ynglŷn â'r sialensiau sy'n wynebu cyllid sector cyhoeddus ar hyn o bryd ac y bydd hynny'n siapio'r cyd-destun y rhoddir y Bil hwn ar waith ynddo.

### ***Ariannu newid trawsnewidiol***

**Argymhelliaid 56.** Wrth ystyried ariannu newid trawsnewidiol, ni chredwn fod gennym ddigon o wybodaeth fel sail i lunio barn. Nodwn farn y Dirprwy Weinidog ynglŷn â'r posibilrwydd o weithredu fesul cam fel bod y buddion yn gwrthbwys o'r costau a'i haddewid i ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn cyn i'r Pwyllgor hwn orfod pleidleisio ar y Bil. Rydym yn argymhellod bod y Dirprwy Weinidog yn darparu'r wybodaeth hon cyn diwedd cyfnod 2 ac yn darparu eglurder ynglŷn â sut y bydd gweithredu fesul cam yn gweithio'n ymarferol.

### ***Hyfforddiant***

**Argymhelliaid 57,** Rydym yn croesawu addewid y Dirprwy Weinidog i ddyrannu arian ychwanegol ar gyfer hyfforddi'r gweithlu ond rydym yn pryderu am y diffyg manylion a ddarparwyd am yr arian hwn. Rydym yn pryderu mai dim ond i awdurdodau lleol y caiff arian o'r fath ei ddarparu ac nad oes digon o sylw'n cael ei roi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i bartneriaid eraill, yn arbennig y GIG. Byddem yn poeni hefyd pe bai arallgyfeirio arian o grant datblygu'r gweithlu gwaith cymdeithasol yn cael effaith andwyol ar hyfforddiant i staff gofal cartref a staff gofal cymdeithasol arall. Rydym yn argymhellod bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried y mater hwn ymhellach.

**Casgliad 9.** Credwn y bydd angen strategaeth ac amserlen glir ar hyfforddi'r gweithlu a gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ddangos ei strategaeth o ran hyfforddi'r gweithlu, yn cynnwys gwybodaeth am effaith yr hyfforddiant hwn ar wasanaethau, a'r amserlen gyflawni.

**Casgliad 10.** Rydym yn bryderus hefyd nad yw hyfforddiant statudol yn cael ei ddarparu'n gyson ar hyn o bryd. Credwn y bydd hyfforddiant proffesiynol digonol yn bwysig er mwyn rhoi'r Bil ar waith yn effeithiol ac y dylid monitro'r ddarpariaeth hyfforddiant. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ystyried y mater hwn.

***Y goblygiadau o ran adnoddau yn deillio o asesu a diwallu anghenion gofalwyr***

**Argymhelliad 58.** Rydym yn cefnogi ehangu'r diffiniad o ofalwr ac yn derbyn, os yw'r Bil i wella gwasanaethau i ofalwyr, y bydd hyn yn achosi costau, o safbwyt asesiadau a gwasanaethau ychwanegol. Credwn fod angen manylion pellach am y costau hyn ac nid yw hynny wedi cael ei adlewyrchu yn y wybodaeth a ddarparwyd hyd yma. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu rhagor o wybodaeth ar y mater hwn cyn diwedd Cyfnod 2.

***Is-ddeddfwriaeth***

**Casgliad 11.** Drwy gydol ein hystyriaeth o'r Bil rydym wedi mynegi pryder ynglŷn â'r diffyg manylion a ddarparwyd ynglŷn â rheoliadau drafft i gyd-fynd â'r Bil. Cytunwn fod y cydbwysedd rhwng darpariaethau ar wyneb y Bil a'r rhai mewn is-ddeddfwriaeth yn gywir mewn rhannau o'r Bil. Fodd bynnag, er ein bod yn derbyn nad yw'n bosibl cynnwys manylion pob darpariaeth ar wyneb y Bil, mae rhannau o'r Bil lle nad ydym yn credu i'r cydbwysedd iawn gael ei daro ac rydym wedi ymdrin â'r rhannau hynny yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

**Diddymiadau**

**Casgliad 12.** Croesawn y ffaith i'r Dirprwy Weinidog ddarparu Tabl Diddymiadau inni yn dangos ymhle y cāi deddfwriaeth bresennol ei diddymu gan y Bil hwn ynghyd â Thabl Trawsleoli ym amlinellu ymhle y byddai'r diddymiadau hynny'n cael eu cwmpasu o fewn y Bil. Mae'r wybodaeth hon yn fuddiol ond credwn y dylai gwybodaeth o'r fath fod wedi cael ei darparu inni ar ddechrau proses cyfnod 1 fel bod modd craffu'n fanylach ar y Bil.

**Casgliad 13.** Nodwn y wybodaeth yn y Tabl Diddymiadau a'r Tabl Trawsleoli ac rydym yn cydnabod y bydd y Bil yn diddymu deddfwriaeth bresennol ac yn ei disodli â darpariaethau yn y Bil neu reoliadau i gyd-fynd ag ef. Rydym yn disgwyl i hon fod yn broses ddi-dor, gyda darpariaethau amnewid wedi'u sefydlu cyn i'r ddeddfwriaeth bresennol gael ei diddymu.

**Argymhelliad 59.** O ran diddymiadau penodol, rydym yn pryderu am sut y bydd y Bil yn darparu ar gyfer cymhorthion ac addasiadau o gofio bod y Dirprwy Weinidog wedi cadarnhau y bydd adrannau 1, 2 a 28A o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 yn cael eu diddymu yng Nghymru. Nodwn fod deddfwriaeth gyfredol yn cyfeirio'n benodol at 'gymhorthion ac addasiadau' ac rydym yn pryderu ynglŷn â sut y caiff hyn ei gwmpasu yn y Bil hwn. Rydym yn argymhell bod cyfeiriad penodol at 'gymhorthion ac addasiadau' yn cael ei ychwanegu at y rhestr a nodir yn adran 20 (2).

**Argymhelliad 60.** Rydym yn argymhell hefyd y dylid diwygio adran 20 (2) o'r Bil i'w gwneud yn glir mai rhestr a 'ddylai gynnwys ond nad yw'n hollgynhwysol' yw'r rhestr o enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu neu'i drefnu i ddiwallu anghenion o dan adrannau 21 i 29.

**Argymhelliad 61.** Nodwn dystiolaeth y Dirprwy Weinidog y bydd y Bil yn ailadrodd y darpariaethau ym Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, yn wyneb bwriad Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r mesur. Rydym yn croesawu hyn ond yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu sicrwydd pellach na fydd diddymu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 yn tanseilio hawliau a hawlogaethau presennol Gofalwyr.

## Cyflwyniad

---

1. Yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2013, cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ('y Bil') at y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ('y Pwyllgor'), er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 21 Mehefin 2013. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 19 Mawrth 2013, ymestynnwyd y dyddiad hwn i 5 Gorffennaf 2013 ac yna ar 18 Mehefin 2013, cafodd ei ymestyn ymhellach tan 19 Gorffennaf 2013. Hoffem fynegi ein diolch i'r Pwyllgor Busnes am ystyried ein ceisiadau am estyniadau yn ffafriol.
2. Ar 28 Ionawr 2013, cyflwynwyd y Bil a'r Memorandwm Esboniadol, a gwnaeth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, ddatganiad yng Nghyfarfod Llawn<sup>1</sup> y Cynulliad y diwrnod wedyn.

### *Telerau'r Gwaith Craffu*

3. Yn ein cyfarfod ar 30 Ionawr 2013, cytunasom i ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen i ddeddfu er mwyn darparu ar gyfer:

- I. deddfwriaeth Gymreig sydd wedi'i chydgrynhoi ac sy'n symleiddio ac yn egluro dyletswyddau, gan gynorthwyo'r broses o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn effeithlon a lleihau'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen i ddeall y fframwaith cyfreithiol presennol;
- II. deddfwriaeth newydd a fyddai'n ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wasanaethau cymdeithasol integredig ar gyfer oedolion, plant a'u gofalwyr gyda Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Bil yn caniatáu i Gyfarwyddwr fod yn gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol mewn mwy nag un awdurdod lleol. Mae darpariaethau yn y Bil yn anelu at hyrwyddo partneriaeth a gweithio agosach a mwy integredig rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill, gan gynnwys darparwyr y GIG. Byddai cynnwys darpariaethau gweithio ar y cyd yn y Bil yn hwyluso'r broses o ddiwygio gwasanaethau mabwysiadu;
- III. cryfhau'r cyfarwyddyd cenedlaethol a chynyddu cysondeb mynediad at wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru, a darpariaeth y

---

<sup>1</sup> Cyfarfod Llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

gwasanaethau hyn, yn ogystal â chyflwyno gwell rôl o ran atal ac ymyrryd yn gynnar (ac o ran lles) er mwyn i awdurdodau lleol a'u partneriaid atal neu ohirio'r angen am ofal neu gymorth; a

- IV. hyrwyddo'r broses o ymrymuso defnyddwyr gwasanaethau, gan gynyddu'u llais a'u rheolaeth.

#### *Dull Gweithredu'r Pwyllgor*

4. Cynhaliasom ymgynghoriad gan wahodd randdeiliaid allweddol i gyflwyno dystiolaeth ysgrifenedig i gyfrannu at waith y Pwyllgor. Mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad C.
5. Clywsom dystiolaeth lafar gan nifer o dystion ynghylch y Bil. Mae amserlen y sesiynau dystiolaeth lafar i'w gweld yn Atodiad D.
6. Ymgymerodd Tîm Allgymorth y Cynulliad â gwaith i ymgysylltu â defniddwyr gwasanaethau er mwyn canfod eu barn am elfennau penodol o'r Bil a chynhyrchodd bapur yn crynhoi'i ganfyddiadau.<sup>2</sup> Ystyriasom hefyd farn Grŵp Cyngori, a gafodd ei sefydlu gan fudiadau trydydd sector i gyd-drefnu cyngor sy'n adlewyrchu eu gwahanol feysydd arbenigedd.
7. Penodasom yr Athro John Williams o Brifysgol Aberystwyth yn gynghorydd cyfreithiol arbenigol a'r Athro Ray Jones, Prifysgol Kingston, Llundain, yn gynghorydd polisi arbenigol. Rydym yn ddiolchgar i'r ddau ohonynt am eu cyngor a'u harweiniad.
8. Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi'r casgliadau a'r argymhellion y daethom iddynt ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ein gwaith.
9. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

---

<sup>2</sup> HSC (4)-18-13(ptn12),6 Mehefin 2013

# 1. Cefndir

---

## Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil

10. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhinwedd y paragraffau canlynol o Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; paragraff 15 (lles cymdeithasol), paragraff 14 (gweinyddiaeth gyhoeddus), paragraff 9 (iechyd a gwasanaethau iechyd) a pharagraff 12 (llywodraeth leol).

### ***Memorandwm Esboniadol***

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi:

"Diben ...[y Bil]... yw nodi'r fframwaith deddfwriaethol craidd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n rhoi grym i'r polisi sydd yn y Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu.*"<sup>3</sup>

12. Mae hefyd yn egluro:

"Mae'r Bil yn rhoi dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gymryd camau i atal a lleihau angen pobl eu hardaloedd am ofal a chymorth."<sup>4</sup>

13. Â ymlaen i ddweud y bydd y Bil:

"yn ymdrin â gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer plant, oedolion a'u gofalwyr. Cyhyd ag y bo modd, bydd yn integreiddio ac yn cysoni trefniadau fel bod yna set gyffredin o brosesau, ***ar gyfer pobl***. Ac eithrio'r darpariaethau ar gyfer hygludedd, bydd y Bil hefyd yn darparu hawliau cyfartal i ofalwyr, sy'n golygu y bydd ganddynt yr un statws cyfreithiol â'r bobl y maent yn gofalu amdanyst. Mae holl statudau eraill y DU yn dal i drin y grwpiau hyn o bobl ar wahân."<sup>5</sup>

14. Ychwanega'r Memorandwm Esboniadol:

"Bydd y Bil hefyd yn cryfhau cydweithredu, yn darparu fframwaith ar gyfer integreiddio gwasanaethau allweddol (sydd i'w nodi gan Weinidogion Cymru) ac yn gosod dyletswyddau newydd ar

<sup>3</sup> Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 13

<sup>4</sup> Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 15

<sup>5</sup> Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 16

awdurdodau lleol, ar Fyrddau Iechyd Lleol ac ar gyrrff cyhoeddus eraill i wella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth (ar lefel y boblogaeth ac ar lefel unigol). Darpariaeth arall ynddo yw y gall Gweinidogion bennu fframwaith canlyniadau cenedlaethol newydd ac ymyrryd yn y ffordd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ar ôl rhoi rhybudd.”<sup>6</sup>

### ***Cymhwysedd a chydsyniad Ysgrifenyddion Gwladol y DU***

15. Yn ei datganiad ar gyflwyno'r Bil mewn Cyfarfod Llawn ar 29 Ionawr 2013 dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Lesley Griffiths AC:

“Mae'r Bil yr ydym wedi'i gyflwyno o fewn cymhwysedd. Mae wedi cael ei addasu ychydig i ystyried y ffaith nad ydym wedi sicrhau eto pob un o'r cydsyniadau angenrheidiol gan ddwy o adrannau Whitehall. Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd hyn a byddwn yn ceisio ailgyflwyno'r nifer fach o ddarpariaethau a ddiléwyd yng Nghyfnod 2. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fynegi ein siom nad yw Llywodraeth y DU yn rhoi blaenoriaeth i gryfhau diogelu.”<sup>7</sup>

16. Wrth ymdrin â mater cymhwysedd mewn tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarparwyd inni ar 20 Mai 2013 dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC:

“With regards to competence, I am confident that this legislation is within the competence of the National Assembly. On the issue of consents, to enable us to include provision which imposes or modifies functions of Ministers of the Crown, we continue to liaise with the UK Government. Obtaining Ministerial consent will allow us to re-instate some of the provision about safeguarding boards and cooperation which was amended prior to introduction. The main sticking point is the funding model for safeguarding boards which UK Ministers will not countenance. Committee members will recall that the Bill I introduced was not dependent on these consent issues being resolved. If, as I anticipate the issues around UK Minister consent are resolved, I am pleased to say that I intend to bring forward minor changes to the Bill by Government amendments for consideration at

---

<sup>6</sup> Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 17

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2013

(DS: oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau dilynol yn yr adroddiad hwn at Gofnod y Trafodion yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

stage 2. I plan to provide the Committee with a detailed update on this when I come before you again on 6 June.”<sup>8</sup>

17. Mewn tystiolaeth lafar ar 6 Mehefin 2013 rhoddodd y Dirprwy Weinidog y wybodaeth ddiweddaraf inni am y trafodaethau a oedd yn parhau rhwng Swyddogion Llywodraeth y DU a Swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â chydynio. Dyma a ddywedodd:

“There is no final agreement on one aspect. There was a meeting on 10 April between our officials and Whitehall, and I believe that it was a positive meeting. However, there is a sticking point, although I must reiterate that I believe that our Bill is fully within competence. With regard to the funding of the safeguarding boards, however, there is not full agreement. The Bill provides that we could require the police to contribute to the funding of the safeguarding boards, and I had a very positive meeting earlier in the week with the offices of the commissioners of police, and there was a willingness to co-operate. However, there is that one sticking point on the actual funding.

“I would like to say to committee, though, that the Western Bay safeguarding board has now been set up, and the police are contributing to that board, which augers well, because they did not contribute to the separate boards of Neath, Bridgend and Swansea before. So, there are some positive things, but not a final settlement with Whitehall.”<sup>9</sup>

18. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog eto ei bod o'r farn fod y Bil yn llwyr o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.<sup>10</sup>

#### *Ein Barn Ni*

**Nodwn y cynnydd a wnaed hyd yma o ran trafodaethau Llywodraeth Cymru â Gweinidogion Llywodraeth y DU, a'r meysydd lle nad yw Gweinidogion y DU wedi cydsynio eto. Rydym yn bryderus fod materion o hyd sy'n dal heb eu datrys, ac rydym yn siomedig mai felly y mae hi. Nodwn ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i ddod â gwelliannau gerbron yng nghyfnod 2, ar ôl i'r materion hyn gael eu datrys.**

---

<sup>8</sup> HSC(4)-18-13(ptn13), 6 Mehefin 2013

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 13 – 14, 6 Mehefin 2013

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 6 Mehefin 2013

## **2. Egwyddorion Cyffredinol a'r Angen am Ddeddfwriaeth**

---

### **Egwyddorion Cyffredinol**

19. Mae'r Bill Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhan allweddol o'r diwygio ar wasanaethau cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru, ynghyd ag elfennau anneddfwriaethol o Bapur Gwyn 2011 ar Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

20. Yn ogystal â rhoi polisiau Llywodraeth Cymru ar waith, mae'r Bil yn ceisio cydgrynhau ac egluro cyfraith gofal cymdeithasol a chreu fframwaith cyfreithiol penodol i Gymru ar gyfer plant ac oedolion. Mae hynny'n unol â nod y Llywodraeth o wireddu gwasanaethau cymdeithasol integredig i oedolion a phlant.

### *Tystiolaeth gan Dystion*

21. Roedd y mwyaf o'r dystion yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth, er i rai fynegi pryder ynglŷn â sut y caiff gweledigaeth y polisi ei gwireddu mewn meysydd penodol. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r dystion at yr angen am i'r Bil symleiddio'r ddeddfwriaeth a sicrhau bod gan Gymru system gwasanaethau cymdeithasol sy'n ateb y gofyn.

### *Ein Barn Ni*

**Rydym yn nodi ac yn cytuno â barn dystion wrth iddynt groesawu egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod pryderon yn y dystiolaeth na chaiff amcanion polisi'r Bil efallai eu gwireddu yn ymarferol. Ymdrinnir â'r materion hyn yng ngweddl yr adroddiad.**

### **3. Materion Trofwaol**

---

#### **Egwyddorion Statudol**

##### *Cefndir*

22. Nid oes Egwyddorion Statudol yn cael eu nodi ar wyneb y Bil. Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar ofal cymdeithasol i oedolion, sydd wedi bod yn ddylanwadol wrth fframio'r Bil, yn argymhell cynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil. Dywedai:

“Statutory principles are intended to give legislative expression to the underlying purpose of the statute in question, and to guide decision makers acting under the legislation. Social welfare statutes that include a statement of fundamental principles include the Children Act 1989<sup>11</sup> and Mental Capacity Act 2005<sup>12</sup>.<sup>13</sup>

##### *Tystiolaeth gan Dystion*

23. Mae rhai tystion wedi galw am gynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

“I have previously called on Welsh Government to introduce statutory principles on the face of the Bill in order to uphold the human rights of all those affected by it and I am extremely disappointed that this is not reflected in the current draft. The overarching wellbeing duties currently included in the draft Bill (to promote the wellbeing of people who need care and support and of carers who need support are not statutory principles.”<sup>14</sup>

24. Dywedodd hefyd:

“It is my view that more must be done to ensure that the Bill takes a human rights approach for both adults and children. Statutory principles MUST be included on the face of the Bill in order to uphold the human rights of all those affected by it. Through the discharge of my statutory duties my formal advice, as Commissioner, is that inclusion of principles in a Code of Practice is not sufficient, and the

---

<sup>11</sup> [Deddf Plant 1989](#)

<sup>12</sup> [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)

<sup>13</sup> Comisiwn y Gyfraith (LAW COM No 326), Adult Social Care, Mai 2011

<sup>14</sup> SSW 31, Tystiolaeth Ysgrifenedig

lack of statutory principles will significantly undermine the impact of the Bill.”<sup>15</sup>

25. Barn debyg oedd gan Age Cymru hefyd a nododd restr o ffactorau y dylid eu hystyried cyn gwneud penderfyniad ynglŷn ag unigolyn. Dyma a ddywedodd:

“We believe that the Bill needs to focus on individual outcomes, and feel that general principles on the face of the Bill would help to achieve this. We endorse the Law Commission’s recommendation that the statute should set out a checklist of factors that must be considered before a decision is made in relation to an individual. Thus the decision maker would be required to:

- Assume that the person is the best judge of their own wellbeing, except in cases where they lack capacity to make the relevant decision;
- Follow the individual’s views, wishes and feelings wherever practicable and appropriate;
- Ensure that decisions are based upon the individual circumstances of the person and not merely on the person’s age or appearance, or a condition or aspect of their behaviour which might lead others to make unjustified assumptions;
- Give individuals the opportunity to be involved, as far as is practicable in the circumstances, in assessments, planning, developing and reviewing their care and support;
- Achieve a balance with the wellbeing of others, if this is relevant and practicable;
- Safeguard adults wherever practicable from abuse and neglect; and
- Use the least restrictive solution where it is necessary to interfere with the individual’s rights and freedom of action wherever that is practicable.”<sup>16</sup>

26. Mae'r Grŵp Cyngori hefyd wedi gwneud sylwadau ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith dan ddweud mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

“We note that the first two points of the Law Commission principles have been adopted, using different wording, in clauses 4(2) and 4(3)

---

<sup>15</sup> SSW 31, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>16</sup> SSW 66, Tystiolaeth Ysgrifenedig

of the Bill. Therefore, it seems anomalous that the Bill does not include the remaining five points also advocated by the Law Commission. We believe the other points are equally important and should be included. We would particularly draw attention to the fourth point around involvement of the person, which we believe is not realised in the Bill as drafted.”<sup>17</sup>

27. Awgrymodd y Grŵp Cyngori hefyd y dylai set ar wahân o egwyddorion gael ei datblygu mewn perthynas â phlant. Dywedodd:

“The Bill also deals with children and we believe a comparable set of principles should be discussed and developed. We draw the committee’s attention to existing case law in health (Gillick competence) that is relevant in this area.”<sup>18</sup>

28. Cyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd at yr angen i gynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil er mwyn darparu eglurder ynglŷn â bwriadau'r Bil. Mewn tystiolaeth lafar dywedodd:

“One of the great difficulties that you face as an ombudsman, or anyone dealing with complaints, is that if there is not a precision about what somebody’s entitlement is, then there is always a great possibility of misunderstanding. Therefore, the provider, on the one hand, can take a view that they are meeting the requirements, whereas the recipient could have read the legislation in an entirely different way. A lot of the time, the way to address any problems of that kind is through guidance—particularly statutory guidance—that lays out in much more detail precisely what an entitlement might be. As well as that, you get a build-up of casework over time. From our perspective, this is very widely-drawn legislation and we will come to some of the areas where that mode might pose particular issues for us in understanding what the intentions of the legislation are.”<sup>19</sup>

29. Mewn cyferbyniad, mae tystion eraill wedi datgan amheuon ynglŷn â chynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC):

“...We have concerns that statutory principles would place unnecessary restrictions on us and introduce risks of increased litigation. We recognise that some of our partner stakeholders have a

<sup>17</sup> HSC(4)-18-13(ptn20), 6 Mehefin 2013

<sup>18</sup> HSC(4)-18-13(ptn20), 6 Mehefin 2013

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 405, 18 Ebrill 2013

very strong view on this and we are in dialogue with them about how we might be able to find a way of achieving what the broad aims of the statutory principles are without putting them on the face of the Bill.”<sup>20</sup>

30. Rhannai Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y farn hon gan ddweud:

“We are not saying that they are not helpful, because decision making in social services is problematic and contested. It is sometimes useful to establish the basis on which conclusions have been reached by practitioners so we can refer back to that and say, ‘These are the aspects that we have taken into account in reaching those conclusions’. So, I do not think that we would rule out the need for agreed principles. What we would want to see is something that is co-produced across social care and that everybody signs up to that, not just local authority social services.”<sup>21</sup>

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

31. Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“We have considered this and I am aware of what the Law Commission said, but I believe that these principles are permeating their way right through the Bill, and I believe that it is better to have that, and to have that thematically right through the consideration and development of the Bill, rather than confining ourselves to a list of services. That is the reason behind that.”<sup>22</sup>

32. Rhoddywedodd eglurhad pellach gan swyddog a oedd yn bresennol gyda’r Dirprwy Weinidog, a ddywedodd:

“There is a potential conflict between having principles that strive to put the rights of the individual at the highest point, versus the need for a local authority to ensure that it meets the needs of all citizens who are eligible or who may need services in a fair way. That is a far more difficult thing to do in this sort of Bill, which is doing both of those things. So, for that reason, the idea of principles versus purpose clauses has not been abandoned entirely. What this has been

---

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 162, 18 Ebrill 2013

<sup>21</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 163, 18 Ebrill 2013

<sup>22</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 18 Ebrill 2013

reduced to is the content of section 4, expressed as overarching wellbeing duties, which are like principles. We feel that this is the best way to strike a balance between the issues that I have mentioned without causing potential conflict with how the law is interpreted in the future.”<sup>23</sup>

### *Ein Barn Ni*

**Cytunwn â barn tystion y dylai egwyddorion statudol gael eu cynnwys ar wyneb y Bil.** Credwn y byddai egwyddorion o'r fath yn help i ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau ddeall ethos y Bil. Er ein bod yn derbyn bod Codau Ymarfer yn bwysig, credwn y byddai egwyddorion statudol ar wyneb y Bil yn help i greu fframwaith cyflawni yn erbyn Codau Ymarfer.

**Gofynasom i'n Cyngorydd Cyfreithiol Arbenigol am gyngor ynglŷn â drafftio egwyddorion statudol ac mae drafft a awgrymwyd wedi'i atodi yn Atodiad A.** Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried yr egwyddorion drafft hyn a'i bod naill ai'n cyflwyno gwelliant i'w gynnwys ar wyneb y Bil neu'n rhoi sylw iddynt wrth iddi gyflwyno ei chyfres ei hun o egwyddorion statudol.

### **Diffiniadau**

#### *Anabledd*

#### *Cefndir*

33. Mae'r Bil yn diffinio 'anabl' yn adran 3:

(5) Mae person yn "anabl" os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010,<sup>24</sup> yn amodol ar ddarpariaeth a wneir o dan isadran (6).

(6) Gall rheoliadau bennu bod person sy'n dod o fewn categori penodedig i gael ei drin, neu nad yw i gael ei drin, fel person anabl ar ddibenion y Ddeddf hon.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

34. Cafwyd llawer o sylwadau ynglŷn â'r diffiniad o Anabledd yn y Bil, gyda llawer o dystion yn galw am newid diffiniad cyfredol y model meddygol o anabledd sy'n cael ei ddefnyddio yn y Bil am ddiffiniad model cymdeithasol.

---

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 18 Ebrill 2013

<sup>24</sup> [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

35. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, gofynnodd y Sefydliad Partner wedi'i gydlynu gan Anabledd Cymru i'r Pwyllgor ystyried ceisio gwelliant i'r Bil, er mwyn newid diffiniad cyfredol y model meddygol o anabledd am ddiffiniad model cymdeithasol. Dywedodd:

"The Social Model asserts that it is these social barriers which people experience on top of their impairments and health conditions which are the real cause of disability. Whilst the social model does not negate other models of disability, which appropriately address the various consequences of individual impairments and health conditions, it seeks instead to achieve social change by eliminating disabling barriers, for which we have a collective responsibility.

"If the SSW Bill is to achieve the goal of transforming Social Services, the Social Model must be the "golden thread" which runs through the policy that the Bill sets out."<sup>25</sup>

36. Dywedodd Cyngahrain Iechyd Meddwl Cymru wrthym:

"...adopting the social model of disability should be one of the principles set at the beginning of the Bill, so that wherever that development sits, if it is in the principles, the detail can come elsewhere. However, it will not be something that people choose to do or choose to ignore pragmatically, because there is a principle that permeates the whole of the legislation and the secondary legislation that sits underneath it."<sup>26</sup>

37. Ailwysleisiodd y Sefydliad Partner wedi'i Gydlynu gan Anabledd Cymru ei farn ynglŷn â phwysigrwydd defnyddio diffiniad y model cymdeithasol o anabledd yn y Bil, drwy ddweud:

"...this could be an opportunity for the Welsh Government to really take a lead. I can understand what they have done—they have taken a definition off the shelf. Many people would assume that the definition of disability in the Equality Act would have it sussed. However, it still is a medical-model definition, and what we would like to see is the Welsh Government developing a social-model definition of 'disabled person' that would then be the core guiding principle running throughout the Bill. From that, a lot of the issues that we have been

---

<sup>25</sup> SSW 15, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 2 Miy 2013

talking about around citizen-directed support and self-assessment and the right to take up direct payments would follow”.

[...]

“...we propose a definition of a social-model version of disability as the loss or limitation of opportunities to take part in society on an equal basis with others due to institutional, environmental and attitudinal barriers. That is a very different model to what the Bill is currently based on. If we were to introduce that—and it would be fantastic if the Welsh Government was to pioneer provision of a legal definition of a social model of disability—it would radically alter the way that we do social services in Wales.”<sup>27</sup>

38. Ymysg y tystion eraill a awgrymodd y dylid defnyddio diffiniad y model cymdeithasol o anabledd roedd Diverse Cymru,<sup>28</sup> y Panel Dinasyddion ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol<sup>29</sup> a Grŵp Mynediad Arfon<sup>30</sup>.

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

39. Wrth egluro'r rhesymau am ddefnyddio'r diffiniad o anabledd o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dywedodd y Dirprwy Weinidog hyn:

“We have used the Equality Act 2010 because that is the most recent Act that we have. I fully support and understand what is being said about the social model; I have always supported the social model. However, we have to be clear that the social model is a concept. It has no basis in law. Therefore, with regard to the requirement of the Bill, we need to have a legal basis for the definition, but I am prepared to consider further whether we could add to the definition in the Equality Act 2010.”<sup>31</sup>

*Ein Barn Ni*

**Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i farn y rhai sy'n argymhell aildrafftio'r Bil i newid diffiniad y model meddygol o anabledd am ddiffiniad y model cymdeithasol.**

**Rydym yn deall y rhesymau a amlinellwyd gan y Dirprwy Weinidog am ddefnyddio'r diffiniad o anabledd a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

---

<sup>27</sup> SSW 15, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>28</sup> SSW 32, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>29</sup> SSW 38, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>30</sup> SSW 43, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>31</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 18 Ebrill 2013

**Nodwn farn y Dirprwy Weinidog mai cysyniad yw diffiniad y model cymdeithasol o anabledd ac rydym yn cwestiynu pa mor effeithiol y gellid ei fynegi mewn deddfwriaeth. Credwn felly fod perygl y gallai defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd arwain at lai o eglurder ynglŷn â mynediad at ofal a chymorth, ac na fyddai efallai yn trosi'n hawdd i ddarpariaeth gwasanaethau.**

**Nodwn hefyd gefnogaeth y Dirprwy Weinidog i egwyddorion y model cymdeithasol a'i hymrwymiad iddynt, ac rydym yn cwestiynu sut y caiff yr egwyddorion hyn eu gwireddu'n ymarferol heb gyfeiriad at y model yn y Bil.**

**Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried sut y byddai modd rhoi'r diffiniad cymdeithasol o anabledd ar waith yn ymarferol, er enghraift drwy reoliadau neu godau ymarfer, er mwyn gosod yr egwyddorion hynny mewn cyd-destun a nodi sut y dylai gwasanaethau gael eu dylunio a'u cyflenwi fel eu bod yn eu hadlewyrchu.**

### ***Oedolyn sy'n Wynebu Risg***

#### ***Cefndir***

40. Mae Adran 104 o'r Bil yn diffinio 'oedolyn sy'n wynebu risg' fel rhywun sy'n dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, neu fod risg iddo ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod, fod ganddo anghenion gofal a'i fod, o ganlyniad, yn methu amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod. Mae'r diffiniad wedi'i gyfyngu felly i oedolion sydd ag anghenion gofal.

#### ***Tystiolaeth gan Dystion***

41. Mae nifer o dystion wedi bod yn feirniadol o'r hyn sydd yn eu barn nhw yn ddiffiniad cyfyngedig o 'oedolyn sy'n wynebu risg', a byddent am i'r gofyniad ynglŷn ag angen am ofal cymdeithasol gael ei ddileu. Er enghraift, mewn tystiolaeth lafar, awgrymodd cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y dylid newid geiriad adran 104 drwy gyfnewid trefn isadrannau (b) ac (c) fel y byddai'n darllen fel hyn:

- "An 'adult at risk' for the purposes of the Part is an adult who-
- (a) is experiencing or is at risk of abuse or neglect,
  - (b) is unable to protect himself or herself against the abuse or neglect or the risk of it.

(c) as a result, has needs for care and support.”<sup>32</sup>

42. Cynigiwyd diffiniadau eraill o oedolyn sy’n wynebu risg gan gynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a ddywedodd hyn:

“Section 104 of the Bill talks about where an adult is experiencing or is a risk of abuse or neglect. It then goes on to refer to ‘needs for care and support’. Part of my thinking was whether it is ‘and’ or whether it is ‘or’, and it could be either/or. They could be adults at risk who do not need any care, but who need support in a different way, but they may also be an adult whose care, lifestyle or needs are not being met for whatever reason and who fits into that category. You then have a caveat, because you have ‘and...as a result of those needs.’ I would not put ‘those needs’ in there; I would say, ‘as a result, is unable to protect himself or herself against abuse.’ I have gone through that on many occasions.”<sup>33</sup>

43. Ychwanegodd:

“The care and support element feeds through the whole Bill. If you lose that, you potentially lose the function of the adult safeguarding board. We do not want it to go back, in the case of children, to an area child protection committee, or to adult protection—it is about safeguarding. We need to start working on preventative activities, such as moving in early, early identification and early intervention. We will not, then, have adults who are experiencing abuse or are at risk of abuse.”<sup>34</sup>

44. Galwodd Age Cymru hefyd am ehangu’r diffiniad o oedolyn sy’n wynebu risg a dywedodd wrthym:

“We very much think that it should be extended, because the definition of an adult at risk is quite a narrow definition. We feel that adults at risk are sometimes at risk because of the abuse itself, and that needs to be brought into the equation. Without the abuse, they may have no care and support needs. We also think that the issue of coercive control is one that needs to be included in the definition.”<sup>35</sup>

---

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 442, 2 Mai 2013

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 550, 2 Mai 2013

<sup>34</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 551, 2 Mai 2013

<sup>35</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 193, 2 Mai 2013

45. Ymdriniodd ein cyngorydd cyfreithiol arbenigol â'r diffiniad o oedolyn sy'n wynebu risg mewn memorandwm cyfreithiol atom ar y Bil. Dywedodd:

"The definition of 'adult at risk' retains the link with a need for care and support. An alternative approach is that found in section 3 ASP(S)A 2007 [Adult Support and Protection (Scotland) Act]. Section 104 (1) could possibly be redrafted to include (a) in its current form, followed by (c) renumbered as (b), which would read 'is unable to protect himself against the abuse or neglect or the risk of it, and', and then (c) which would read 'as a result is in need of care and support under this Part."<sup>36</sup>

46. Nododd ein cyngorydd cyfreithiol arbenigol hefyd nad yw hunan esgeulustod yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o oedolyn sy'n wynebu risg.

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

47. Wrth gynnig sylwadau ar y diffiniadau, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"On the development of the definitions, we have definitions of some things such as 'adult at risk'. If the committee is not clear as to what we are saying, section 166, on the general interpretation and index of defined expressions, defines 'abuse'. 'Adult at risk' is also defined, as is 'care home', 'children's home' and a whole list of terms. If the committee is concerned and thinks that there are definitions that it wants us to consider, I would be glad to hear from you."<sup>37</sup>

*Ein Barn Ni*

**Rydym wedi ystyried barn tystion ac rydym yn cytuno bod y diffiniad presennol o 'oedolyn sy'n wynebu risg' yn rhy gul. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ystyried diffiniad amgen, megis yr un a ddefnyddiwyd yn adran 3 o'r Adult Support and Protection (Scotland) Act 2007,<sup>38</sup> fel yr awgrymodd rhai tystion.**

**Rydym wedi ystyried y diffiniad hwn a nodwn ei fod yn cynnwys cyfeiriad at oedolion sy'n ymddwyn (neu sy'n debygol o ymddwyn) mewn modd sy'n achosi (neu sy'n debygol o achosi) hunan-niwed. Fel y cafodd ei ddrafftio, nid yw'r Bil yn cynnwys cyfeiriad at hunan-niwed. Er ein bod yn cydnabod bod Deddf yr Alban yn cynnig diffiniad amgen, mae gennym amheuon ynglŷn â'r ffaith ei bod yn cynnwys oedolion sy'n**

<sup>36</sup> [Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) Memorandwm Esboniadol](#)

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 93, 18 Ebrill 2013

<sup>38</sup> [Adult Support and Protection \(Scotland\) Act 2007](#)

**hunan-niweidio neu sy'n debygol o hunan-niweidio, gan ein bod yn cwestiynu'r effaith y gallai hyn ei chael ar hawliau oedolion i ddewis sut y maent yn byw eu bywydau. Rydym yn cydnabod mai anaml efallai y cai'r pŵer hwn ei ddefnyddio yn ymarferol.**

**Nodwn hefyd bryderon a godwyd gan Age Cymru, y dylai'r diffiniad o 'oedolyn sy'n wynebu risg' ymdrin â mater rheoli drwy orfodi. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ehangu'r diffiniaid i gynnwys mater rheoli drwy orfodi.**

### ***Gofalwr***

48. Roedd y rhan fwyaf o dystion yn croesawu'r diffiniad o 'ofalwr' a geir yn y Bil ac roedd llawer yn croesawu ehangder y diffiniad hwnnw'n arbennig. Mewn tystiolaeth lafar dywedodd Cynhalwyr Cymru wrthym:

"Carers Wales would like to welcome the definition of carers, and certainly the prominence of the status of carers throughout the Bill. In particular, there was an issue in the previous draft of the definition of 'carer', so I would like to have it on record that we very much support the current definition. There is a slight issue there with regard to a clause that says that local authorities have some flexibility in whom they can define as a carer. We can see the benefit of a bit of flexibility there, but it is important to maintain the distinction between unpaid carers and paid-for carers, which was the issue previously."<sup>39</sup>

49. Wrth ymdrin â'r diffiniad o 'ofalwr' dywedodd Cynhalwyr Cymru:

"From Age Cymru and Age Alliance Wales's perspective, we welcome the broadening of the definition. Our key concern is resources and ensuring that carers get what they need through having the expanded definition, and that is a resource issue."<sup>40</sup>

50. Cododd cynrychiolwyr Llywodraeth Leol hefyd bryderon ynglŷn â'r goblygiadau o safbwyt adnoddau sy'n deillio o ehangder y diffiniad o 'ofalwr'. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

"From our perspective, the principle is unarguable; the problem comes with the resource implication, in terms of extending the

---

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 2 Mai 2013

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 125, 2 Mai 2013

definition. There is also a risk that we would be assessing increasing numbers of carers but that, when it came to the point of potential service provision, we would be in difficulty, because there are resource implications at two points."<sup>41</sup>

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

51. Nid yw'r Dirprwy Weinidog wedi gwneud sylwadau ynglŷn â'r diffiniad o 'ofalwr'.

*Ein Barn Ni*

**Rydym yn fodlon â'r diffiniad o 'ofalwr' fel y'i drafftiwyd yn y Bil. Rydym wedi ymdrin â goblygiadau ehangu'r diffiniad hwn o safbwynt adnoddau yn y bennod o'r adroddiad hwn am oblygiadau ariannol y Bil.**

---

<sup>41</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 126, 2 Mai 2013

## 4. Mynediad at Wasanaethau

---

### Dyletswyddau ynglŷn â Llesiant

#### *Cefndir*

52. Mae adran 4 yn creu dyletswyddau hollgyffredinol ynglŷn â llesiant i bobl sy'n "arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon", sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol (BILI), ac asiantaethau statudol eraill. Mae a wnelo'r ddyletswydd â phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Diffinnir llesiant yn adran 2 o'r Bil.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

53. Roedd y rhan fwyaf o dystion yn croesawu'r egwyddor o roi sylw i lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Fodd bynnag, awgrymodd rhai dystion y dylai'r diffiniad gael ei ehangu i adlewyrchu diffiniadau a ddefnyddir mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth. Er enghraifft, dywedodd y Grŵp Cyngori:

"We recognise that the Mental Health Measure 2010 has a definition that includes eight 'areas of life' with regard to wellbeing. We would welcome the current definition of wellbeing in the Bill being expanded to reflect the eight 'areas of life' in the Mental Health Measure 2010. This means a 'safe home or accommodation' would be included – and may go some way towards allaying fears about the right to aids and adaptations, which could be lost through repeals of provisions in the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970. It might also address the absence of housing in the Bill and contribute to a practical definition of a social model (i.e. making an accessible home environment)."<sup>42</sup>

54. Galwodd Age Cymru am gynnwys tai yn y diffiniad o lesiant, gan ddweud:

"...we welcome the fact that wellbeing is at the heart of the Bill. We have similar concerns around the consistency of having definitions of wellbeing in many different places, so we would like to see those broadly aligned. I know that colleagues of mine are concerned that, as currently drafted, there is no mention of housing, so we would like to see some mention of housing in the definition. We are also

---

<sup>42</sup> HSC(4)-18-13 (ptn20), 6 Mehefin 2013

concerned about the outcomes. We welcome the fact that wellbeing is at the heart of it, but, like everybody else, how you translate that principle into outcomes for the client groups is crucial to successful implementation.”<sup>43</sup>

55. Awgrymodd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd y dylai'r diffiniad o lesiant gynnwys cyfeiriad at dai er mwyn adlewyrchu effaith tai ar iechyd, lliesiant ac annibyniaeth.<sup>44</sup>

56. Yn yr un modd galwodd y rhai a oedd yn cynrychioli mudiadau anabledd ac iechyd meddwl am gynnwys byw'n annibynnol yn y diffiniad o lesiant. Er enghraifft, gofynnodd y Sefydliad Partner wedi'i gydlyn gan Anabledd Cymru inni ystyried:

“...seeking an amendment to the SSW Bill to incorporate enjoyment of the right to Independent Living into the meaning of wellbeing.”<sup>45</sup>

57. Mae rhai tystion wedi awgrymu diffiniadau amgen o lesiant, yn cynnwys model ‘Pum Ffordd tuag at Lesiant’ y New Economics Foundation. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru:

“We see the Bill as an ideal opportunity to look at the wider social and community partnership work across local health boards and the third sector. In looking at the wider determinants of health and wellbeing, we consider that a useful model for the committee to consider might be the New Economics Foundation’s ‘Five Ways to Wellbeing’ model. It is quite a good model on which to base those partnerships, and we have done a little exploratory work on how that might work. There is evidence from across Wales of the ‘Five Ways to Wellbeing’ model being used, the mantras of which are ‘notice’, ‘get connected’, ‘be active’, ‘keep learning’ and ‘give’. Work is happening in pockets across Wales to develop those approaches to collaborative working. We think that it would be a useful model for the committee to consider in moving work forward on wellbeing.”<sup>46</sup>

58. Wrth ymateb i gwestiwn pa un a oeddent yn teimlo y dylai'r model 'Pum Ffordd tuag at Lesiant' fod ar wyneb y Bil, dywedodd Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru:

---

<sup>43</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 122, 2 Mai 2013

<sup>44</sup> SSW 47, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>45</sup> SSW 15, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 2 Mai 2013

“It is about trying to embed a principle that gets reflected in practice. If the code of practice that is to go alongside the Bill is robust enough, evidence and examples of how it could work could sit in there. However, if there is some reference to it in the Bill at some point that is hooked into more detail in the code of practice that would be sufficient provided that the code of practice has similar robustness to the code of practice for Wales in terms of the Mental Health Act 1983, for example. So, if people deviate from the code, they have to give a very robust reason as to why they deviate. If it is just guidance, it is not strong enough, but if it is a really strong code, the detail could go in there. It would also be useful to have some examples of how it is working in different parts of Wales, so that people can see that it is not that difficult to do if you get your heads together around a table and work collaboratively to a co-produced model.”<sup>47</sup>

59. Ar fater gwahanol roedd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn feirniadol o'r hyn yr oeddent hwy'n ei weld fel diffyg eglurder yn y ddarpariaeth ar gyfer llesiant yn y Bil. Mewn tystiolaeth lafar, codasant bryderon y byddai'r dyletswyddau llesiant yn disgyn yn bennaf ar y gwasanaethau cymdeithasol, gan ddweud:

“...we recognise that there are duties in the Bill on local government corporately—it is not just about social services—but our fear is that this is a social services and wellbeing Bill. The very strong implication is that the burden of those duties, and all of the resource implications that go with that, will fall predominantly on social services. That is, obviously, of concern to us.”<sup>48</sup>

60. Ychwanegodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

“To summarise and crystallise, we welcome the principle, but it needs further refinement and clearly the expectation is for all public service not just for social services, because otherwise it will become unsustainable and lead to confusion of expectation.”<sup>49</sup>

61. Tynnodd tystion o'r GIG sylw at y ffaith fod gan wasanaethau iechyd ddyletswydd llesiant sy'n ymestyn y tu hwnt i bobl y mae angen gofal a

---

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 2 Mai 2013

<sup>48</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 118, 2 Mai 2013

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 18 Ebrill 2012

chymorth arnynt ac awgrymasant fod angen dealltwriaeth gliriach o rôl y partneriaid i gyd i hyrwyddo llesiant. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Confederaliwn GIG Cymru:

“...whilst the importance of improving wellbeing is increasingly being recognised by both local authorities and partners, it is still a relatively new concept in terms of service priority and delivery. We therefore welcome the intention to provide for a single Act for Wales that brings together local authorities’ duties and frames partnership responsibilities in relation to improving wellbeing of people who need care and support and carers who need support.

“We do believe that it would be helpful if some aspects were considered in greater detail in order to ensure reliable interpretation.”<sup>50</sup>

62. Cyfeiriasant hefyd at ehangder y diffiniad o lesiant, gan ddweud:

“In addition, the definition of ‘wellbeing’ for example is extremely broad and with regard to the duty to maintain and enhance the wellbeing of people in need, it will not be possible for any one agency alone, either in the statutory or third sector to achieve this. Contributions from many organisations as well as communities themselves will be needed, which is not currently reflected in the drafting of the Bill.”<sup>51</sup>

63. Cododd rhai tystion bryderon ynglŷn â dealltwriaeth y cyhoedd o'r term 'Ilesiant'. Dywedodd CLILC:

“I think citizens will struggle to make sense of what it means for them and it will not help in terms of the dialogue with staff within social services. People do not come to us and say, ‘I have problems with wellbeing’. It makes the start of the dialogue, which is really important, problematic. It has to be a mutually understood term and I think it would require a lot of explaining to our service users and carers exactly what it means in practice.”<sup>52</sup>

64. Cwestiynai rhai tystion ddichonoldeb cynnwys dyletswyddau llesiant mewn sawl darn o ddeddfwriaeth Gymreig heb sicrhau cysondeb, er enghraffft yn y Bil arfaethedig Trais yn erbyn Menywod a'r Bil Datblygu

---

<sup>50</sup> SSW 84, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>51</sup> SSW 84, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 172, 18 Ebrill 2013

Cynaliadwy.<sup>53</sup> Tynnodd CLILC sylw at y ffaith fod gan awdurdodau lleol bŵer i wella llesiant eisoes yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 a gofynnodd am eglurder ynglŷn â sut y caiff y diffiniad a'r pŵer hwnnw ei ddisodli.<sup>54</sup>

65. Roedd barn Plant yng Nghymru yn debyg a dywedodd wrthym ei fod yn ansicr ynglŷn â sut y byddai'r Bil yn asio gyda deddfwriaeth arall sy'n cynnwys darpariaethau llesiant. Dywedodd wrthym:

“...the key is where other bits of legislation are cross-referenced and go back into the wellbeing pot. In the children’s field, we have the child wellbeing monitor, which is very useful in trying to measure exactly where children’s wellbeing in Wales is, and that is internationally comparable. We are, therefore, very strongly advocated for wellbeing, but there is a lot of work to get Government guidance and legislation to go in the same direction so that everybody knows their place.”<sup>55</sup>

66. Wrth ymdrin yn benodol â'r ffordd yr oedd 'Ystyr llesiant' wedi'i ddrafftio yn adran 2(4)(b), tanlinelloedd Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru y dylai'r cyfeiriad at 'gymryd rhan mewn gwaith' fod yn gyfeiriad at waith sy'n bositif o ran llesiant, yn paru anghenon, sgiliau a chapasiti, ac y dylai felly gynnwys mynediad at weithgareddau ystyrlon.<sup>56</sup>

67. Cyfeiriodd y Grŵp Cynghori hefyd at y ffordd yr oedd adran 4 (2) o'r Bil wedi cael ei drafftio o ran dyletswyddau hollgyffredinol yn ymwneud â llesiant ac awgrymodd welliant sy'n rhoi llais cryfach i unigolion o ran cyrchu at wasanaethau gofal cymdeithasol. Gan gyfeirio at adran 4 (2) dywedodd:

“...a local authority in exercising its wellbeing functions “must have regard to the individual’s views, wishes and feelings, in so far as doing so is reasonably practicable”. We strongly recommend an amendment to ensure the individual should be ‘enabled’ and ‘involved’ rather than ‘regarded.’”<sup>57</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

68. Mewn datganiad Cabinet ysgrifenedig, amlinelloedd y Dirprwy Weinidog ei bwriadau polisi o ran llesiant. Dywedodd:

---

<sup>53</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 174, 18 April 2013

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 18 Ebrill 2013

<sup>55</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 120, 2 Mai 2013

<sup>56</sup> SSW 57, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>57</sup> HSC(4)-18-13(ptn20), 6 Mehefin 2013

“Rwyf wedi’i gwneud yn glir fod ein polisi yn canolbwytio ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mater o roi rheolaeth dros eu bywydau bob dydd i bobl ydyw, a’u cynorthwyo â’r pethau sy’n bwysig iddyn nhw. Gyda hynny mewn golwg, mae’r Bil yn rhoi diffiniad o lesiant ar gyfer pobl. Mae hyn wrth wraidd y ffordd rydym yn trawsnewid pethau drwy’r rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru.

“Mae llesiant yn thema graidd ym mhob un o’r meysydd portffolio yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae llesiant yn hawl i bawb ac yn gyfrifoldeb i bawb. Mae angen inni weithio gyda’n gilydd ar draws Llywodraeth Cymru, ac ar draws sectorau ac asiantaethau er mwyn hybu llesiant. Mae fy natganiad yn canolbwytio ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mater o roi llais cryfach i bobl yw hyn, a mwy o reolaeth dros eu bywydau. Mae hefyd yn fater o sicrhau bod pobl y derbyn y gofal a’r cymorth y mae arnyn nhw ei angen i fyw bywydau bodlon.”<sup>58</sup>

69. Mewn tystiolaeth lafar cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at yr awgrym y dylai ‘cartref neu lety diogel’ a ‘byw’n annibynnol’ gael eu cynnwys yn y diffiniad o lesiant yn y Bil. Dywedodd:

“I believe that having a safe home is fundamental to wellbeing. The Bill will provide the framework for delivery of social services in Wales and that aspect will be developed through regulations and the code of practice. I welcome the suggestion that you make, however I am not minded to change the definition of wellbeing on the face of the Bill. That definition is grounded in the Children Act 2004 and that is well understood. However, I believe that extending these rights and entitlements to adults is the way forward. In relation to the inclusion of independent living, I would say that it is a service model and what we are developing is the legal framework. So, the Bill provides for independence and I believe that that will cover people’s rights to independent living and their rights to independence. I would not envisage that being excluded in any way.”<sup>59</sup>

70. O ran a ddylid cysoni’r diffiniad o lesiant sy’n ymddangos mewn mwy nag un darn o ddeddfwriaeth, rhoddodd y Dirprwy Weinidog y sicrwydd hwn inni:

---

<sup>58</sup> [Datganiad Cabinet Ysgrifenedig](#), 16 Ebrill 2013,

<sup>59</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 6 Mehefin 2013

“As far as this Bill is concerned, we are dealing with people’s need for care and support, and carers’ needs for support. That is what this Bill is about, but I am mindful that we need to work across portfolios, given that wellbeing is a responsibility for nearly all portfolios. I am working hard with my colleagues and ensuring that what we are doing in our Bill will complement what is being done across the Welsh Government.”<sup>60</sup>

#### *Ein Barn Ni*

**Rydym wedi ystyried y ddyletswydd hollgyffredinol ynglŷn â llesiant sydd wedi’i chynnwys yn y Bil, a pha un a yw natur y dyletswyddau a’r cyfrifoldebau er ei rhoi ar waith yn cael eu diffinio’n ddigonol. Credwn fod y diffiniad yn darparu cysondeb i’r Bil hwn.**

**Mae’r cysyniad o lesiant yn treiddio drwy’r Bil cyfan ond nid ydym yn glir ynglŷn â sut y mae’r diffiniad hwn yn rhwngweithio â dyletswyddau eraill yn y Bil, megis y gofyniad i benderfynu pwy sy’n gymwys i gael gwasanaethau.**

**Nodwn ddatganiad y Dirprwy Weinidog ynglŷn â llesiant. Fodd bynnag, credwn fod angen mwy o eglurder o hyd ynglŷn â sut y caiff gwahanol elfennau llesiant eu cymhwys o yn ymarferol, a chan bwy. Er enghraifft, rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai tystion y byddai modd dehongli bod y diffiniad, fel y mae wedi’i ddrafftio, yn rhoi cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol i sicrhau llesiant economaidd unigolion. Credwn fod angen sicrwydd bod modd rhoi’r dyletswyddau ar waith yn ymarferol.**

**Bu inni drafod yn fanwl y diffiniad o ‘lesiant’ ac a ddylai’r diffiniad gael ei gynnwys ar wyneb y Bil. Roedd ein trafodaethau ar y mater hwn yn anodd, gan beri inni geisio cyngor gan ein cynghorydd cyfreithiol arbenigol ynglŷn â’r diffiniad o ‘lesiant’. Mae nodyn cyngor cyfreithiol wedi’i atodi yn Atodiad B. Ar ôl ystyried y cyngor hwn roedd y mwyafrif o’r pwylgor yn ffafrio Opsiwn A, sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau ‘ystyried’ nifer o ffactorau wrth bwys o mesur llesiant unigolyn.**

**Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried Opsiwn A yn y nodyn cyngor cyfreithiol sydd wedi’i atodi a, phe bai o blaid derbyn yr**

---

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 53, 6 Mehefin 2013

**opsiwn hwn, rydym yn argymhell i bod yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol i adran 2(2).**

**Rydym yn argymhell y dylid darparu Cod Ymarfer law yn llaw ag unrhyw ddiffiniad o 'lesiant', yn nodi sut mae'r elfennau unigol sydd wedi'u rhestru yn y diffiniad o 'lesiant' yn rhngweithio â'i gilydd ac â dyletswyddau eraill yn y Bil.**

**Rydym yn cydnabod yr effaith fawr y gall tai ei chael ar lesiant, ac rydym wedi ystyried barn tystion a oedd yn galw am gynnwys tai yn y diffiniad o lesiant. Os bydd y Dirprwy Weinidog yn derbyn ein hargymhelliaid i ddiwygio'r Bil yn unol â'r opsiwn yr ydym ni'n ei ffafrio, sef Opsiwn A, cai tai ei gwmpasu yn '(f) safon byw'. Fodd bynnag, os na chaiff ein hargymhelliaid ei dderbyn, rydym yn argymhell y dylai'r diffiniad presennol o lesiant gyfeirio at dai addas a byw'n annibynnol.**

### ***Gwasanaethau ataliol***

#### ***Cefndir***

71. Mae adran 6 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i wasanaethau ataliol fod ar gael ar draws poblogaethau lleol gyda'r bwriad o sicrhau bod gwasanaethau o'r fath ar gael i garfan lawer ehangach o'r boblogaeth na'r rhai sydd wedi cael asesiad o'u hangen am ofal a chymorth.

72. Mae adran 6 (2) yn nodi dibenion gwasanaethau ataliol ac yn isadran (6) fe'i gwneir yn ofynnol i awdurdod lleol ddefnyddio'r ystod o wasanaethau presennol at ddibenion atal.

#### ***Tystiolaeth gan Dystion***

73. Er bod y rhan fwyaf o dystion yn croesawu darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â gwasanaethau ataliol, mae rhai wedi sôn am yr angen am fwy o eglurder ynglŷn â'r diffiniad o wasanaethau ataliol gyda rhai'n awgrymu bod angen diffiniad ar wyneb y Bil.

74. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Age Cymru wrthym y byddai'n croesawu diffiniad cliriach o wasanaethau ataliol ar wyneb y Bil. Dywedodd:

"We would welcome an indicative definition of preventative services on the face of the Bill to ensure that local authorities provide both general, universal prevention and more targeted, individual-level prevention. We cannot see how the Bill will incentivise early

intervention. Our concern is that prevention work will not bring benefits if the threshold for accessing them is set too high or prohibitive charges are applied.

“The Bill suggests that the application of preventative services will be discretionary, that is not subject to an eligibility framework. However, we would like to see a transparent and fair framework for deciding individual entitlement to prevention services.”<sup>61</sup>

75. Ychwanegodd at y pwynt hwn mewn tystiolaeth lafar gan ddweud:

“From the perspective of the Bill, however, we need a lot more clarity on what we are talking about when we are talking about prevention, because much of it depends on what we mean by ‘prevention’ and what it is we are trying to prevent. I do not think that we get that clarity from the Bill as it is currently drafted. We are not clear about what we are trying to prevent and how you would access those preventative services.

“We also think that section 6 is very process-driven, rather than looking at the individual in need. So, there is quite a lot of work that we need to be doing to identify the outcomes that we are looking for from prevention—probably even before we get to who delivers those preventative services. There is probably quite a big piece of work to do on prevention.”<sup>62</sup>

76. Yn ei adroddiad i'r Pwyllgor hwn ailddatganodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yr angen i gynnwys mwy o fanylion ar wyneb y Bil mewn perthynas â gwasanaethau ataliol, gan ddweud:

“The Committee draws the attention of the Health and Social Care Committee to our view that it is essential that more detail be provided to Members about the type of services which could be included in the definition of preventative services before the Bill reaches the latter stage of the legislative process.”<sup>63</sup>

77. Wrth ymdrin â'r mater hwn dywedodd y Grŵp Cyngori na fyddai am weld rhestr ragnodol o wasanaethau ataliol ar wyneb y Bil, er y gallai rhestr

---

<sup>61</sup> SSW 66, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>62</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 187, 2 Mai 2013

<sup>63</sup> HSC(4)-15-13(ptn7a), 8 Mai 2013

ddangosol (gyda chafeat yn dweud “yn cynnwys ond heb ei chyfyngu i”) fod o gymorth.<sup>64</sup>

78. Roedd rhai tystion yn pryderu ynglŷn â'r gofyniad i osgoi gwariant anghymesur, fel a nodir yn adran 6 (6) (c) o'r Bil. Teimlent na fyddai'r gofyniad hwnnw o bosibl yn rhoi ystyriaeth i'r arbedion tymor hir y gall gwasanaethau ataliol eu cynnig. Roedd eraill yn pryderu ynglŷn â goblygiadau'r ddyletswydd atal o ran capaciti ac adnoddau.

79. Ar y mater hwn dywedodd Mind Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

“We are concerned that the inclusion of 6(6)(c) is likely to lead to services being considered in isolation, and cost driven, which is unhelpful at least and counterintuitive. It is widely recognised that investing in early intervention and prevention saves money. However some of these are evident over time.”<sup>65</sup>

80. Wrth ymhelaethu ar y pwynt hwn yn ystod tystiolaeth lafar, dywedodd:

“It is almost like a get-out-of-jail clause, in effect, if services are considered in isolation in terms of cost, and not seen in the context that we have discussed of looking at investing to save, that is, that investing some small amount of money in prevention now can save a huge amount further down the line. I can quote an example that comes out of the Friedli and Parsonage report from 2009; that research was done for the all-Wales mental health promotion network. It is a specific example with regard to conduct disorder in children. It says that the estimated saving in lifetime costs of prevention is about £150,000 per case, or potential benefits to Wales of £247.5 million. So, if you were to look at section 6(6)(c) and think, ‘It’s going to cost me £150,000 to do that’, you would just not do it, but if you look at that in wider context, it could save millions. It is about not having the opportunity to think short-term and to be blinkered. So, we would want to see that removed, so that there is not that sense of, ‘Yes, it will all be really wonderful; we want to do prevention, but on an individual case-by-case basis, it is always too expensive, so, we don’t have to do it.’”<sup>66</sup>

---

<sup>64</sup> HSC(4)-18-13(ptn20), 6 Mehefin 2013

<sup>65</sup> SSW 57, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>66</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 2 Mai 2013

81. I gloi, dywedodd Mind Cymru y byddai'n well ganddo weld 'anghymesur' yn cael ei dynnu o adran 6 (6) (c) neu, fel arall, yn cael ei newid am 'afresymol.'<sup>67</sup>

82. Roedd barn y Grŵp Cynghori yn debyg i hyn. Wrth gyfeirio at adrannau 6 (6) (c) a 7, dywedodd:

"We are not convinced that this clause is necessary, given that local authorities are generally required to avoid expenditure that is 'disproportionate' and are held to account by their electorate and local scrutiny structures in the expenditure decisions."<sup>68</sup>

83. O safbwynt pryderon ynglŷn â'r goblygiadau o ran capasiti ac adnoddau, awgrymodd NSPCC Cymru nad yw'n realistig efallai disgwyl i wasanaethau ataliol gael eu darparu ym mhobman, a thanlinelloedd bryder gwirioneddol:

"...real concern that the skills of social workers and others in social services departments will be spread too thinly as there is a shift towards early intervention and preventative services, whilst continuing to have to address existing acute/complex need."<sup>69</sup>

84. Mynegodd Barnardo's Cymru bryderon ynglŷn â'r angen am eglurder o ran gwasanaethau ataliol, a goblygiadau hynny o ran adnoddau, gan ddweud:

"In terms of prevention to begin with, concern has been expressed by the Welsh Local Government Association about the resource implications. If you were to have such a list, it would be a very long list on the face of the Bill. We need more clarity on what we mean by prevention. We need to have that information, whether it is on the face of the Bill or in accompanying regulation.

"If we do invest in a preventative service it is an investment, and that is why I query whether this can actually be cost-neutral. Prevention does cost money, and, when you are moving from one way of delivering a service to another, and investing in prevention, that will be costly. There is research available that mentions savings in the long term, but they are in the medium to long term rather than initially.

---

<sup>67</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 66 – 71, 2 Mai 2013

<sup>68</sup> HSC(4)-18-13 (ptn20), 6 Mehefin 2013

<sup>69</sup> SSW 74, Tystiolaeth Ysgrifenedig

[...]

“So, we would advocate strongly for prevention, but, in terms of children’s organisations and local authorities, there is a nervousness from local authorities about what prevention could cost us. So, a lot more work needs to be done on what we would define as prevention within that, and we need some clarity and a definition of it.”<sup>70</sup>

85. Ar fater gwahanol, cwestiynai’r Grŵp Cyngori sut y mae gwaith ataliol yn ffitio i’r llwybr gofal y bydd pobl yn ei gymryd ac mae’n dadlau y dylai gwasanaethau ataliol ddilyn asesiad. Yn ei bapur awgrymodd y gellid rhoi’r meinu prawf isod ar waith:

“1) For a person with non-eligible needs they may receive preventative services if their needs might escalate or become more acute.

“2) For a person with eligible needs they may receive preventative services if their needs could be reduced. For example, a person with recent severe sight loss might be socially isolated because they do not have the confidence or mobility skills to leave their home alone and travel safely. A preventative service could be mobility training to build the person’s confidence, familiarity with a journey and training in the use of a long cane or guide dog to enable or reable the person into accessing local opportunities to socialise.”<sup>71</sup>

86. Yn ystod tystiolaeth lafar cyfeiriasom at adran 6 (1) o’r Bil, sy’n rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel “gwasanaethau ataliol”). Dywed y Bil:

“Rhaid i awdurdod lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau”.

87. Wrth inni ystyried y Bil, nodasom fod adran 6 (5) yn rhoi dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol (BILLau) i ystyried pwysigrwydd y dibenion yn isadran 2 wrth arfer eu swyddogaethau. Dywed y Bil fod rhaid i BILLau:

“...roi sylw i bwysigrwydd cyflawni’r dibenion”.

88. Rydym yn bryderus ynglŷn â’r gwahaniaethau rhwng yr adrannau hyn sydd bron iawn yn rhoi’r rôl arweiniol mewn gwasanaethau ataliol i’r

---

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 8 Mai 2013

<sup>71</sup> HSC(4)-18-13(ptn20), 6 Mehefin 2013

awdurdod lleol, a rôl fwy ategol i'r GIG. Gofynasom i dystion a oeddent hwy'n credu bod angen i'r dyletswyddau hynny fod yn wahanol, ynteu a ddylai fod gan y GIG yr un dyletswyddau ag awdurdodau lleol, yn yr ystyr bod rhaid iddynt ddarparu a threfnu gwasanaethau ataliol.

89. Wrth ymdrin â'r mater hwn dywedodd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Hywel Dda:

"What is difficult is the difference in the definitions. Within the Bill, 'preventative' means reducing the risk of people deteriorating who are in a vulnerable group. In the NHS, that would probably be classified as community rehabilitation or community support. It is part of the NHS move to strengthening community services, to reduce dependency on hospital services. So, it is a shift that the NHS is already making. What is challenging is that, unless people take a significant amount of time going through the detail of the Bill, they will not understand what the preventative partnership is in the NHS, because we are already doing it."<sup>72</sup>

90. Ychwanegodd cynrychiolydd o BILI Addysgu Powys:

"Having parity means that we are all working to the same duty. It also aids collaboration. We are very clear about common objective."<sup>73</sup>

91. Wrth orffen ynglŷn â'r pwynt hwn, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru:

"We are clear about common objective. It hinges on the definitions and the need for clarity. We also need to bear in mind the linking with other legislation; public health, for instance."<sup>74</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

92. Mewn ymateb i alwadau am gynnwys diffiniad o wasanaethau ataliol ar wyneb y Bil, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"Mae'r gwasanaethau ataliol yn agwedd bwysig iawn o'r Bil. Mae'n rhaid inni ystyried y bydd yn ofynnol i lywodraeth leol edrych ar yr angen sydd yn eu cymunedau ac ymateb i'r angen hwnnw. Mae hwn yn adeiladu ar hynny. Rwy'n meddwl y gallai gwasanaethau ataliol fod yn wahanol o un ardal i'r llall ac o un awdurdod i'r llall wrth iddynt

---

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 140, 16 Mai 2013

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 143, 16 Mai 2013

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 144, 16 Mai 2013

ymateb i ofynion lleol. Mae'n bwysig bod ganddynt y rhyddid i edrych ar anghenion lleol.”<sup>75</sup>

93. Eglurodd y Dirprwy Weinidog a'i swyddogion hefyd:

“...an implementation code of practice will come before the Assembly under the ‘affirmative procedure’ but that this will not be available before stages 3 and 4 of the Bill

[...]

“However, there will be an implementation code—and it is important that we bear in mind that there will be an implementation code to support the Bill—and this will be better than having one Minister providing guidance, because the implementation code will have to come before, and be discussed by, the Assembly. I believe that the implementation code is the best place to get to grips with explaining and providing examples of preventative services and, through that, to ensure that there is also freedom locally.”<sup>76</sup>

94. Wrth ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng adrannau 6 (1) a 6 (5) dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“The preventative services of local authorities are covered in the Bill, and it is suggested that there will be due regard for preventative services in the NHS. I think that there will be a difference between what will be preventative in the NHS, although we say in the Bill that we would look to people to look after their own health with regard to preventative services. However, the preventative services that we talk about in the Bill are based—officials will correct me if I am not right—on a Schedule on preventative services to the Children Act 1989. We would want to enact that Schedule for adults as well, but I will elaborate on that, as I said in the letter to the Chair on 20 May. I will bring more details forward in the autumn with regard to preventative and early intervention services, but the committee might want to consider that Schedule.”<sup>77</sup>

*Ein Barn Ni*

**Rydym yn rhannu pryderon tystion fod y ddyletswydd ataliol ar wasanaethau iechyd yn wannach na'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol**

---

<sup>75</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 132, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 25 Ebrill 2013 (pm)

<sup>76</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 132, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 25 Ebrill 2013 (pm)

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 6 Mehefin 2013

ac rydym yn argymhell y dylai'r dyletswyddau ar fyrddau iechyd lleol i "roi sylw i bwysigrwydd cyflawni dibenion" gwasanaethau ataliol gael eu cryfhau fel eu bod yn cyfateb i'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol yn adran 6 (1).

Nodwn yr angen am fwy o eglurder ynglŷn â'r hyn y mae gwasanaethau ataliol yn ei olygu ond ni chredwn ei bod yn ddymunol cynnwys diffiniad manwl o wasanaethau ataliol ar wyneb y Bil gan y gallai hynny gyfyngu ar hyblygrwydd ac arloesi lleol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y byddai canllawiau neu god(au) sy'n nodi ym mha ffyrdd y dylai'r dyletswyddau hyn gael eu cyflawni gan awdurdodau lleol a'u partneriaid, a'r berthynas rhwng hynny a dyletswyddau eraill, yn rhoi'r eglurder sy'n ofynnol.

Rydym yn argymhell y dylai fod dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i gyhoeddi datganiad am wasanaethau ataliol a sut y mae modd cael mynediad atynt. Byddai hynny'n galluogi gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau i ddeall cwmpas a phwrpas gwasanaethau o'r fath.

### Asesiadau – oedolion, plant a gofalwyr

#### *Cefndir*

95. Mae a wnelo Rhan 3 o'r Bil ag asesu anghenion unigolion. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer un hawl i asesiad i bob grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau h.y. oedolion, plant a gofalwyr, gyda phwyslais gwahanol i bob grŵp. Er enghraifft, mae pwyslais ar anghenion datblygiadol yn achos plant.

96. Mae adran 17 yn darparu ar gyfer integreiddio asesiadau ar draws meysydd gwasanaeth, er enghraifft integreiddio gyda gwasanaethau iechyd. Dywed adran 18 y caiff rheoliadau eu defnyddio i ddiffinio ffurf y broses asesu.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

97. Mae dystion wedi pwysleisio'r hyn y maen nhw'n ei weld fel pwysigrwydd datblygu dulliau o asesu a darparu gwasanaethau sy'n canolbwytio ar yr unigolyn. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cynhalwyr Cymru:

"If the ambition for a person centred approach and voice and control is to be fully realised then services should be provided to individuals rather than trying to match people to services that already exist. This

will require a huge sea change from the current assessment process and the way that health and social services currently meet the needs of individuals, either through the services they provide themselves or, through their commissioning of services from external agencies.

“We are unsure whether the Bill as currently worded will deliver the stated transformation in social care as described but could potentially drift back to a narrow service led approach.”<sup>78</sup>

98. Mynegwyd barn debyg gan Anabledd Cymru, a ddywedodd mewn tystiolaeth lafar:

“We would like to see what we call citizen-directed, outcomes-focused and supported self-assessment. It is an awful mouthful, but it states what we are looking for. The first part of that, ‘citizen-directed’, is just to highlight the difference between something that is citizen-directed and something that is citizen-centred. A lot of what happens at the moment is citizen-centred or service user-centred, where the person is at the centre of a lot of professionals’ attention. However, we want to see that reversed so that citizens are actually directing the process themselves. The rest kind of falls out of that. There is no problem with ‘outcomes-focused’; there is a very strong element in the Bill about that. There is also ‘supported self-assessment’, which, again, implies a shift from social workers doing the assessment process for people to supporting the citizen to do it for themselves. So, there is a clear distinction there.”<sup>79</sup>

99. Ar fater gwahanol mae'r Grŵp Cyngori wedi ymdrin â'r angen am ddiffiniad o 'asesu cymesur', gan ddweud:

“We are anxious to ensure the concept of ‘proportionate assessment’ is defined. We are concerned that if left undefined or poorly defined ‘proportionate assessment’ could lead to restricted access to an appropriate assessment. We recognise the potential to reduce bureaucracy and improve access to lower level support with proportionate assessment.”<sup>80</sup>

100. Yn ystod trafodaethau am gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, codwyd rhwystrau rhag dirprwyo pwerau a chyfrifoldebau rhwng

---

<sup>78</sup> SSW 23, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>79</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 2 Mai 2013

<sup>80</sup> HSC(4)-18-13 (ptn20), 6 Mehefin 2013

gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng nghyd-destun asesiadau.

101. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda:

“The other issue is one that we have certainly been discussing, and it is the possibility that we can look at the delegation of powers or responsibilities. One of the things that we talked about was duplication in the assessment process. The Bill does not support the delegation of assessment between agencies. So, it may well be that two people will go in and do exactly the same assessment, because one is not allowed to fill in a certain pro forma. It could therefore go a lot further in allowing us flexibility.”<sup>81</sup>

102. Mae adran 17 o'r Bil yn caniatáu i awdurdodau lleol gynnal asesiadau ar ran cyrff eraill ond roedd tystiolaeth y byrddau iechyd yn awgrymu nad yw'r un pŵer yn bodoli ar eu hochr nhw.<sup>82</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

103. Mewn tystiolaeth lafar, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at yr angen am asesiadau cymesur, gan ddweud:

“I also think that we need proportionate assessment. In other words, if there is a low degree of need, then why do we need complicated assessments in order to decide on meeting that need? In the middle, however, there are the people with complex needs and we need to develop those eligibility criteria and get them right. I believe that this process of consulting is extremely important and that work, as I said, is on-going.”<sup>83</sup>

104. Wrth gyfeirio at adran 17 o'r Bil a'r pryderon a godwyd gan dystion ei bod yn caniatáu i awdurdodau lleol gynnal asesiadau ar ran cyrff eraill ond nad oes pwerau cyfatebol i'r byrddau iechyd,<sup>84</sup> dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“This Bill is about social services, and the assessment process—the development of it—is work that is in hand. We are developing our thinking on that. You give examples—and I have had examples—of

---

<sup>81</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 26, 16 Mai 2013

<sup>82</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 58, 16 Mai 2013

<sup>83</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 6 Mehefin 2013

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 60 – 61, 6 Mehefin 2013

where there have been delays in assessing people's needs when they are in hospital. I believe that that has to be a multidisciplinary assessment for which all parties should be present when it is made—health and social services should participate in that assessment.

[...]

"I do think that it needs to be a multi-agency comprehensive assessment of the need of that person, throughout social services and health, in order to develop that care plan."<sup>85</sup>

#### *Ein Barn Ni*

Rydym yn fodlon â bwriad y Dirprwy Weinidog i symleiddio'r broses asesu. Rydym yn bryderus y gallai fod dyblygu asesiadau a chredwn y dylai asesiadau gael eu cynnal gan y person mwyaf priodol, pa un a yw'r gwasanaethau hynny i gael eu cyflenwi gan y gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Ni ddylai fod unrhyw rwystrau deddfwriaethol rhag i asesiad gael ei gynnal gan y person priodol hwnnw, ac er bod rhaid i'r ddyletswydd i asesu fod yn glir, mae angen hyblygrwydd ynglŷn â chynnal asesiadau.

Rydym yn argymhell felly fod y Dirprwy Weinidog yn ystyried cylfwyno gwelliannau i adrannau 10 (1) ac 17 (5) (a) o'r Bil i hwyluso'r ffordd i ddirprwyo asesiadau i'r person mwyaf priodol. Ystyriasom hefyd adran 18 o'r Bil, sy'n nodi'r rheoliadau ar gynnal asesiadau anghenion ac yn amlinellu'r gofynion y gellir eu pennu. Rydym yn argymhell bod y rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac y dylai safon genedlaethol i asesiadau gael ei phennu yn y rheoliadau hyn.

Rydym wedi ystyried barn tystion sy'n galw am ddiffiniad o asesiad cymesur. Cytunwn â phryderon y grŵp y gallai hyn, os gadewir ef heb ei ddiffinio, olygu mynediad cyfyngedig at asesu priodol gan na fydd asesiadau o'r fath efallai bob amser yn nodi holl anghenion unigolyn. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried darparu mwy o eglurder parthed y diffiniad o 'asesiad cymesur' mewn rheoliadau, ac yn manylu ar sut y mae'n rhagweld y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.

---

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 120 – 121, 6 Mehefin 2013

## Gwrthod Asesiad

### *Cefndir*

105. Mae adran 13 o'r Bil yn caniatáu i berson ifanc 16 neu 17 oed, neu blentyn dan 16 oed sydd â dealltwriaeth ddigonol, wrthod asesiad oni bai nad oes gan y person alluedd meddyliol ac y byddai asesiad er ei fudd pennaf, neu fod y person yn cael ei gam-drin neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin, neu y byddai asesiad er budd pennaf plentyn. O dan adran 14 gall rhiant wrthod cael asesiad o blentyn o dan 16 oed oni bai fod y plentyn mewn pergyll, nad oes gan y rhieni alluedd neu fod y plentyn yn anghytuno â'r rhieni a bod ganddo ddealltwriaeth ddigonol. Mae adran 16 yn darparu ar gyfer gofalwyr yn gwrthod asesiad.

### *Tystiolaeth gan Dystion*

106. Mewn tystiolaeth dywedodd Comisiynydd Plant Cymru ei fod ef o'r farn fod y Bil, wrth ganiatáu gwrthod asesiad, yn methu â chynnal yr egwyddor budd pennaf yn erthygl 3 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy gyfyngu ar bwerau ymyrryd gweithwyr proffesiynol. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig dywedodd:

"In my response to the White Paper I set out the issue of parental consent to assessment of need as the single most important issue that needed to be addressed. Provision under the Children Act 1989 sets out that a child in need referral under section 17 can only be made where parental consent is sought and granted. I stated my concerns that children and young people can be denied the right to an assessment on the basis of identified need if their parents refuse consent for such an assessment to take place. The system through which referral without consent can only be achieved in relation to child protection concerns runs counter to central principles of the Bill - early intervention, prevention and the promotion of wellbeing. I called for the Bill to be used as an opportunity to address this and to provide for the referral for assessment of any child or young person identified as in need as of right and without the need to secure parental consent in line with the best interests principle."<sup>86</sup>

107. Wrth egluro'r pwnt hwn ymhellach mewn tystiolaeth lafar, dywedodd cynrychiolydd o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru:

---

<sup>86</sup> SSW 58, Tystiolaeth Ysgrifenedig

“In relation to the context of social services and prevention, should a professional make a referral in relation to a child who is aged 15 or five because of concerns about parenting capacity, the child is not necessarily well-placed to understand that that parenting capacity might be problematic if that is the parent with whom the child has grown up and whom the child understands. That is where it is different from Gillick competency in relation to healthcare, where a medical intervention can be explained to a child and a medical professional is involved in the decision-making process. So, on the point of refusing an assessment, there may be problematic parenting capacity, for example, which, from the child’s perspective, is not problematic, because that is what they have grown up with, but we would still want to intervene in their best interests.”<sup>87</sup>

108. Cwestiynai NSPCC Cymru yr angen am adran yn y Bil sy’n caniatáu i rieni wrthod asesiad a dywedodd y byddai caniatáu gwrthod yn ei gwneud yn anoddach ymyrryd yn gynnar ar ran plant a theuluoedd. Mewn tystiolaeth lafar dywedodd:

“We need a catch-all clause that enables professionals to intervene if they make a judgment about the best interests of a child. It is about strengthening that, really.”<sup>88</sup>

109. Ychwanegodd:

“We see sub-section [13](3) as a potential barrier to local authorities, and that is why we think it needs strengthening.”<sup>89</sup>

110. Ar y pwynt hwn, dywedodd Barnardo’s Cymru:

“Broadly, we do not agree with the Commissioner’s strong position. We think that there is a great deal in the Bill, as was stated in the evidence session with the Commissioner, about thinking that, actually, most of the bases are covered. The right to refuse is an important rights position, and the duty remains with the authority when the refusal is made. The reason a refusal is made really bears investigation. What is it about that refusal? Does it say something about the quality of service and does it say something about how people believe that the intervention will be made and what it will

---

<sup>87</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 589, 2 Mai 2013

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 8 Mai 2013

<sup>89</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 8 Mai 2013

mean to their family? It probably suggests an implication about the quality of the services that they will receive.

[...]

"In relation to the parental refusal of assessment, it would be better to include the words 'best interest of the child' in that section also, rather than risk neglect."<sup>90</sup>

111. Wrth ymdrin ag ymyrryd yn gynnar ac i ba raddau y mae'n briodol ymyrryd mewn bywyd teuluol, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

"The dilemma that you have is always around the degree to which it is right to intervene in family life. There are competing discourses around that, are there not? People take very different ideological stances about the extent to which that is permissible. Currently, it is defined on the evidence of risk—the risk of significant harm. That gives us a proper right of intervention in order to safeguard children. It is more problematic when you apply that right of intervention to issues around development and need. These are almost an agreed construct, are they not? Opinions will differ considerably and opinions change over time about what is and is not right in terms of helping children to meet their developmental needs. It would lead to considerable confusion among families and professionals about whether it is proper to intervene if you are doing so in order to promote developmental needs."<sup>91</sup>

[...]

"This is the bread-and-butter work of the staff that we have working around us every day in terms of how you define that need; it is a very difficult and challenging question. From experience, I have found that one of the big issues is the access that these families have to preventive services. It is not only about the fact that the services are in place, but about how accessible they are in terms of the families' ability to engage with them and the targeted prevention work. That is an issue. We may have a great many preventive services, but I question at times how much targeted prevention we have for some of these more challenging families. The question of how we do that is

---

<sup>90</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 47 – 48, 8 Mai 2013

<sup>91</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 290, 18 Ebrill 2031

something that we work with daily. It is a question of walking through this Bill from a child's perspective and that of a family, and really working out whether the Bill supports or hinders the end outcome of getting the right kind of support to those families in those tricky situations.”<sup>92</sup>

112. Ar sail y dystiolaeth a gafodd, mynegodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc bryderon fod angen cryfhau adran 14 i sicrhau trothwyon mwy priodol ar gyfer gweithredu'n groes i ddymuniadau rhieni lle maent yn gwrthod asesiad anghenion ac y dylid cymhwys o'r un trothwy i bob plentyn hyd at 18 oed.<sup>93</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

113. Wrth ymdrin â rhieni'n gwrthod asesiad, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“I think that this is all about the safeguarding and protection of children. We will, of course, give mature young people the right to refuse an assessment. That will be their right unless, of course, that is over-ridden by safeguarding and protection issues. I believe that children sometimes have to be protected from parents. We all know that. I think that the Bill will set out more coherently when a refusal can be made.”<sup>94</sup>

#### *Ein Barn Ni*

Rydym yn fodlon yn gyffredinol â'r darpariaethau yn y Bil sy'n galluogi oedolion i wrthod asesiad er ein bod yn bryderus ynglŷn â sut y mae'r darpariaethau hyn yn delio ag achosion lle gallai oedolion gael eu gorfodi i wrthod asesiad, er enghraifft mewn achosion o gam-drin. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried y pryder hwn ymhellach.

Rydym wedi ystyried hawl rhiant i wrthod asesiad a'r amgylchiadau a nodir yn y Bil lle gellir gweithredu'n groes i ddymuniadau'r rhiant. Wrth wneud hynny rydym wedi trafod yn ofalus sut mae cynnal cydbwysedd rhwng yr angen am ymyrryd cynnar ac atal, hawliau rhieni a'r pwynt priodol pryd dylai'r wladwriaeth ymyrryd.

#### **Trafodasom adran 14 o'r Bil yn fanwl, a rhiant yn gwrthod asesiad anghenion i blentyn. Mynegwyd amrywiaeth barn, gyda rhai Aelodau'n**

<sup>92</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 291, 18 Ebrill 2013

<sup>93</sup> HSC(4)-15-13(ptn 7a), 8 Mai 2013

<sup>94</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 6 Mehefin 2013

**galw am dynnu'r adran hon o'r Bil, er inni gytuno y byddai'n well at ei gilydd cadw'r adran hon.**

**Ystyriasom hefyd dystiolaeth Barnardo's Cymru y dylai adran 14 gynnwys y geiriau 'budd pennaf y plentyn'. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r ffordd y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a 'budd pennaf y plentyn' yn rhngweithio ag Erthygl 8 o Gonfensiwn yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n ymdrin â'r hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol. Rydym yn argymhell felly y dylai'r adran hon o'r Bil gael ei rhoi ar waith er 'budd pennaf y plentyn' ond mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag Erthygl 8.**

**Rydym yn argymhell y dylid newid yr amgylchiadau yn ACHOS 1 yn adran 14 (2), lle mae'r awdurdod lleol yn cadw'i ddyletswydd i gynnal asesiad, er bod hynny wedi cael ei wrthod, i roi'r cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i fod â 'rheswm i gredu' yn hytrach nag 'amau' bod y plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall. Rydym yn argymhell hefyd fod ACHOS 2 yn adran 13 (2) yn cael ei newid yn yr un modd.**

### **Hygludedd Asesiadau**

#### *Cefndir*

114. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r rhai sydd ag anghenion cymwys i gael cynllun gofal a chymorth a fyddai, ac eithrio yn achos gofalwyr a'r cynlluniau hynny a gaiff eu llunio drwy ddefnyddio pwerau disgrifiwn, yn 'gludadwy' ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

115. Yn ôl adran 40 rhaid i awdurdodau lleol roi gwybod i'r 'awdurdod derbyn' am bobl sy'n symud ac sy'n cael gwasanaethau o dan adrannau 21 neu 23 a darparu copi o'r cynllun gofal a chymorth a gwybodaeth arall. Rhaid i'r awdurdod derbyn ddarparu gwybodaeth i'r person/gofalwr ac asesu'i anghenion. Os oes unrhyw oedi rhaid iddo roi'r cynllun gofal presennol ar waith cyn belled ag y mae hynny'n 'rhesymol ymarferol'.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

116. Roedd rhai dystion yn poeni mai dim ond i awdurdodau lleol y mae hygludedd yn gymwys er bod mwy a mwy o ofal a chymorth yn cael eu darparu drwy bartneriaeth â darparwyr eraill.

117. Wrth ymdrin â'r mater hwn dywedodd Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru:

“...portability at the moment, as it is worded, is local authority to local authority. It does not take account of partnerships, and if we are going to look at duties around partnerships with health boards, then it would need to be amended to reflect that. Although it might be the duty of the local authority to spearhead that, there should be something on the face of the Bill that says that it must take into account the agents that are working across the eight domains of life, so that it is not just in isolation, or one person talking to another individual; it needs to be more holistic than that.”<sup>95</sup>

#### 118. Cyfeiriodd Anabledd Cymru hefyd at y mater hwn, gan ychwanegu:

“...Disability Wales has been advocating for portability for a long time, so we are absolutely delighted to see that the Welsh Government is taking this forward. I am mindful that we are already overrunning, but to answer one of your earlier questions, which we failed to do at the time and which was about co-production being on the face of the Bill, I think it should be ideally, along with a definition and a duty on local authorities and all public bodies to work in a co-productive manner, so that everyone is working together on an equal basis for culture change and improved outcomes.”<sup>96</sup>

#### 119. Cwestiynai tystion o lywodraeth leol ymarferoldeb darparu'r un gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol amrywiol, er enghraifft rhwng ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig, ac awgrymasant fod trosglwyddo rhwng ardaloedd eisoes yn cael ei reoli'n effeithiol mewn llawer o achosion.<sup>97</sup> Mewn tystiolaeth lafar cwestiynasant a oedd angen mynegi darpariaethau hygludedd:

“We question whether it is needed. In our principles on the way we deliver care, we have already committed to doing this; we do it anyway. We exchange information, collaborate and share documentation. There is also the ease of IT and portability of assessment electronically between authorities. The challenges are not in the intent, but in the practical challenges that we have as social care agencies.”<sup>98</sup>

---

<sup>95</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 2 Mai 2013

<sup>96</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 106, 2 Mai 2013

<sup>97</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 280, 18 Ebrill 2013

<sup>98</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 283, 18 Ebrill 2013

120. Mae rhai tystion wedi bod yn feirniadol o beidio â chynnwys gofalwyr yn narpariaethau ‘hygludedd’ y Bil. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Age Cymru:

“We and other members of the Wales Carers Alliance welcome the move towards equality for carers but strongly feel that there is no sufficient justification for excluding them from the right to a portable assessment and support plan. This move will undermine the policy intention to extend the same entitlements to carers as the people for whom they care. We believe this must be rectified.

“We believe that the Bill should also make carers’ assessments portable, and linked to service users’ assessments to give them the same rights and facilitate a streamlined process. This was recommended by the Dilnot Commission.”<sup>99</sup>

121. Ar y mater hwn, dywedodd Cynhalwyr Cymru wrthym:

“...there is certainly an anomaly with regard to carers. One quite clearly stated aim of the Bill is that carers are treated in the same way as the person cared for—this is the case throughout the Bill—but then carers are explicitly exempted from the portability section. I am not entirely sure of the rationale for that, but I do not really see why it needs to be there. I think there are obviously complications, such as carers living in different counties from the cared-for person et cetera, but that really should not hold us back. We would recommend that carers are fully included in that section.”<sup>100</sup>

122. Ymdriniodd Plant yng Nghymru yn benodol â'r angen i gynnwys gofalwyr ifanc o dan y darpariaethau hygludedd, gan ddweud:

“Basically, we would like children to have portability if they are young carers. That comes in to the early intervention remit of services. There are not that many. The numbers are not as large, in terms of resources, as for other populations, but it is very important that they continue to get continuity of service.”<sup>101</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

123. Wrth ymdrin â hawl i asesiadau gofalwyr fod yn gludadwy ar draws awdurdodau lleol, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

---

<sup>99</sup> SSW 66, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>100</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 2 May 2013

<sup>101</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 135, 2 May 2013

“It was not an intention of the Bill originally and it is not there at the moment. I have listened and felt this myself, but I have not been able to rationalise in my mind why a care plan should not be portable. I have asked officials now to bring me further advice and a potential amendment so that the Bill does include the right of portability of care plans for carers.”<sup>102</sup>

#### *Ein Barn Ni*

**Croesawn y darpariaethau yn adran 40 (2) o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod, y mae person cymwys yn symud iddo, i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth sydd wedi'u nodi yng nghynllun gofal presennol y person nes bydd yr awdurdod yn cwblhau'i adolygiad a'i asesiadau ei hun.**

**Er ein bod yn credu y bydd y ddarpariaeth hon yn help i sicrhau bod bylchau mewn gofal yn cael eu hosgoi, nodwn mai dim ond fel mesur dros dro y defnyddir hyn a'i fod yn golygu ailasesu neu adolygu gan yr awdurdod derbyn. Credwn hefyd fod angen i'r trosglwyddo gwybodaeth rhwng awdurdodau gael ei wneud mewn modd amserol ac rydym yn argymhell bod gwelliant i adran 40 (1) (b) yn cael ei ddwyn gerbron i adlewyrchu hyn.**

**Credwn fod potensial i adran 40 (2) (d) o'r Bil gael ei chamddehongli gan y byddai person sy'n symud o un awdurdod i un arall yn gorfod ailgychwyn y broses asesu o'r dechrau. Felly, rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno gwelliant i ailddrafftio geiriad adran 40 (2) (d) i ddarllen:**

**“(d) asesu, *ailasesu neu adolygu a oes gan y person anghenion am ofal a chymorth, ac os oes, beth yw'r anghenion hynny, gan roi sylw penodol i unrhyw newid yn anghenion y person am ofal a chymorth sy'n deillio o'r symud”.***

Wrth ystyried y dystiolaeth ynglŷn â hygludedd ymhellach, rydym yn bryderus y byddai modd i'r adran hon o'r Bil gael ei chamddehongli. Credwn fod perygl o godi disgwyliadau o ran yr hyn y bydd yr adran hon o'r Bil yn ei gyflawni'n ymarferol. Er enghraifft, credwn fod potensial i bobl ddisgwyl y bydd awdurdod derbyn yn darparu'r un pecyn gofal ag sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan yr awdurdod anfon. I ymdrin â'r pryder hwn ac ychwanegu eglurder o ran bwriad yr adran hon, rydym yn

---

<sup>102</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 69, 6 Mehefin 2013

**argymhell newid teitl yr adran hon i ddarllen ‘hygludedd cynlluniau gofal’ yn hytrach na ‘hygludedd gofal a chymorth’.**

Rydym yn aneglur ynglŷn â hygludedd trawsffiniol gan mai dim ond i hygludedd o fewn Cymru y mae'r Bil yn gymwys; nid yw'n gymwys i'r rhai sy'n dod i mewn i Gymru. Rydym yn argymhell felly fod y Dirprwy Weinidog yn egluro'r trefniadau i unigolion sy'n dod i mewn i Gymru cyn diwedd Cyfnod 2.

**Rydym yn croesawu'r ffaith fod y Dirprwy Weinidog yn ailystyried ei safbwyt ar gynnwys cynlluniau gofal cludadwy i ofalwyr yn y Bil ac yn argymhell ei bod yn dod cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.**

### **Cymhwystra**

#### *Cefndir*

124. Mae adran 19 o'r Bil yn caniatáu penderfynu pwy sy'n gymwys i gael gofal cymdeithasol yn dilyn asesiad yn ôl fframwaith cymhwystra cenedlaethol, a gaiff ei bennu mewn rheoliadau, er y gallai angen am amddiffyniad rhag camdriniaeth neu esgeulustod fod yn drech na'r meini prawf cymhwystra. Dywed hefyd fod rhaid i awdurdod lleol ddyfarnu a yw unrhyw anghenion cymorth a nodir mewn asesiad yn bodloni 'meini prawf cymhwystra cenedlaethol' ynteu a oes gofyn arfer pŵer neu ddyletswydd o dan y Bil neu o dan Ddeddf Plant 1989.

125. Caiff 'fframwaith cymhwystra cenedlaethol' ei ddatblygu a bydd rheoliadau o dan weithdrefn gadarnhaol yn darparu manylion y meini prawf cymhwystra o ran manyleb y lefelau cymhwystra.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

126. Bu pryder eang o du dystion ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth yn ymwneud â'r 'fframwaith cymhwystra cenedlaethol' ac ymddengys na chafodd y rhanddeiliaid y buom ni'n eu holi unrhyw ran yn y broses o ddatblygu'r fframwaith.

127. Yn niffyg gwybodaeth bellach am y fframwaith cymhwystra cenedlaethol, mae rhai dystion wedi mynegi pryderon, pe bai'r meini prawf cymhwystra yn cael eu gosod yn rhy uchel, nad yw'n glir sut y byddai pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth nad ydynt yn ateb y meini prawf hynny yn cael eu helpu. Byddai hynny'n tanseilio ethos atal ac ymyrryd cynnar y Bil.

128. Mewn dystiolaeth lafar, dywedodd Age Cymru:

“We welcome the national eligibility framework. At the moment, our difficulty is that we are unclear about what that will look like. That strikes at the heart of the issue: it is very difficult to comment when we do not know what the levels will be, or even if they are going to be near existing levels. So, it is very difficult to comment at this point. Our underlying principle is that we think that nobody should be worse off as a result of these reforms. We think that there is a lot of difficulty in bringing in the prevention element, and whether the eligibility levels will be the same for preventative services as they are for other care and support needs. We need more information on the face of the Bill than we have as it is currently drafted.”<sup>103</sup>

129. Roedd Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru'n rhannu pryderon tebyg, gan ddweud wrthym:

“We would say that, as it currently stands, there is a lack of clarity about where the bar will be set. Our concern would be that setting the bar too high in terms of eligibility is counterintuitive to having a wellbeing and early intervention and prevention approach. So, there does need to be some sort of clarity around what is meant by that, either in the Bill or in secondary legislation. However, it must absolutely take account of the importance of the wellbeing of the whole population, early intervention and preventive services, so that it does not become, by default, a secondary-type care piece of legislation. That is, it should encompass all of the needs of the diverse population of Wales.”<sup>104</sup>

130. Cyfeiriodd Cynhalwyr Cymru hefyd at y diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn a gaiff ei gynnwys yn y fframwaith mein prawf cymhwystera, dan ddweud:

“First, we are quite concerned about the lack of clarity regarding exactly what will be contained in the eligibility criteria framework. It is quite hard to say exactly what we support or do not support when we have not quite seen it yet. So, first, we are concerned that we do not quite know what is being proposed. Generally, and tying this back in with the initial stage assessment, we are quite concerned at the moment about the way that the Bill reads and, perhaps, with the drift back to a more narrow, service-led approach. It looks like there will be a three-stage assessment: the initial assessment, the eligibility criteria stage, and then a subsequent financial test. We would be

---

<sup>103</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 229, 2 Mai 2013

<sup>104</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 2 Mai 2013

quite concerned that this would lead to an increased gate-keeping approach by local authorities. Things are difficult enough under the current legal system, so we would be quite concerned that, if we were not careful, we would be continuing that type of gate-keeping approach by authorities, rather than having a fully inclusive equal footing assessment process, where adults and children who are carers are fully involved in the whole process.”<sup>105</sup>

131. Cododd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain – Cymru (‘BASW Cymru’) bryderon ynglŷn â'r diffyg eglurder o ran ar ba bwynt y daw cymhwystra i rym, gan ddweud:

“I just wish to say that we are a little confused regarding at what point the eligibility criteria will apply. Will that be at the point where people seek an assessment, thereby screening them out of an assessment, or will that be following an assessment about their level of need? That is something that needs to be teased out and made a bit clearer. In making my second point, I bear in mind all of the comments that have been made about the charging issues and the financial impact of the Bill on local authorities. At whatever point the eligibility criteria apply, they could be used as a further method of gate keeping. They could work in reverse to the preventative direction and could push people more towards the higher level end of critical need before accessing services, thereby forcing people into crisis and away from preventative services.”<sup>106</sup>

132. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru nad yw'r Bil yn nodi'r fframwaith cymhwystra cenedlaethol, a dywedodd:

“... it is therefore not possible to assess if those charged with the delivery of social services will be clear in relation to their statutory duties towards children and young people.”<sup>107</sup>

133. Pwysleisiodd Confederaliwn GIG Cymru mor agos yw'r cysylltiad rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o ran y galw am wasanaethau yn deillio o unrhyw newidiadau i feini prawf cymhwys. Dywedodd wrthym:

“For integrated services, even minor changes in social services eligibility criteria can have a significant impact on the balance of care available. We believe guidance regarding eligibility should be

---

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 21, 2 Mai 2013

<sup>106</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 238, 2 Mai 2013

<sup>107</sup> SSW 58, Tystiolaeth Ysgrifenedig

developed in partnership with the NHS to support the establishment of reciprocal/integrated community support systems.”<sup>108</sup>

### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

134. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 25 Ebrill 2013, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“The eligibility framework needs the flexibility of regulation. As we develop it and as we design services, this is a Bill for a generation. In that time, I foresee that some of the principles in the criteria will need to be changed. The flexibility that regulations provide is of utmost importance in this regard. So, we will develop those criteria through regulations, but this will be very much part of the outcomes framework that we are developing. I am being reminded that I will be making a statement on this, and that I will be providing further information on this before the Health and Social Care Committee on 6 June.”<sup>109</sup>

135. Wrth ymateb i gwestiynau gennym am fanylion mein prawf cymhwystra'r dyfodol, yn cynnwys a oeddent yn debygol o weithredu ar yr un patrwm â'r polisi cyfredol ar sail mynediad isel, canolig, sylweddol a chritigol at ofal, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“On those four levels, it is time for them to go. There has been inconsistency with the low, moderate, significant and critical levels and sometimes they served to lock people out of services rather than to bring them in. I believe that the inconsistency that has developed between one authority and the other in the interpretation of the four levels is not sustainable.”<sup>110</sup>

136. Mewn ymateb i sylwadau'r Dirprwy Weinidog, dywedodd y Grŵp Cynhgori yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“Eligibility criteria serve as a ‘rationing’ tool to decide who receives or does not receive a service. On April 18 the Deputy Minister said: “It is time for [the four level model] to go” and that “Sometimes it served to lock people out of services rather than bring them in”. However, removing the current four level Fair Access to Care Services (FACS – low, moderate, substantial and critical needs with an eligibility

---

<sup>108</sup> SSW 84, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>109</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 145, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 25 Ebrill 2013 (pm)

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 18 Ebrill 2013

threshold) model will not remove the need to ‘ration’ services between needs that will be met and needs that will not be met by the local authority.”<sup>111</sup>

137. Ychwanegodd y Grŵp Cyngori:

“We are also anxious to ensure that the new eligibility system has a requirement for local authorities to justify decisions using clear nationwide criteria. People with needs must be clear about why a local authority will not meet their needs. Therefore, we are concerned about how the new system would be designed.”<sup>112</sup>

138. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 20 Mai 2013, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at ‘roi pasbort’ gofal a chymorth i unigolion gan ddatgan:

“I have taken the bold step to include on the face of the Bill circumstances where individuals will be passported to have an eligible need: those at risk and looked after and other accommodated children. In such cases, the local authority will have a duty to meet the care and support needs and the outcomes that individuals wish to achieve. The national assessment and eligibility framework (through Regulations and the Code(s) of Practice) will define the circumstances in which other individuals who are determined as eligible needs.”<sup>113</sup>

139. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd:

“I can give my assurances that I am giving great care to the planning and implementation of care and wellbeing of this area including the need to ensure continuity of care for individuals in relations to the transition of the current system to the application of the new law. Transformation on this scale and the impact it holds for many people is significant and it is my plan to test these arrangements in advance of their implementation.”<sup>114</sup>

140. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor hwn ar 6 Mehefin 2013 rhoddodd y Dirprwy Weinidog ddiweddariad ar y fframwaith cymhwystera cenedlaethol sy'n cael ei gynllunio, yn cynnwys yr amserlen ar gyfer cyhoeddi fframwaith drafft. Dywedodd:

---

<sup>111</sup> HSC(4)-18-13(ptn20), 6 Mehefin 2013

<sup>112</sup> HSC(4)-18-13(ptn20), 6 Mehefin 2013

<sup>113</sup> HSC(4)-18-13(ptn13), 6 Mehefin 2013

<sup>114</sup> HSC(4)-18-13(ptn13), 6 Mehefin 2013

“The meeting today provides me with a good opportunity to say that I plan to make a major policy statement on the eligibility framework later on this year, before you are asked to vote on the Bill. I fully intend to engage with all stakeholders and partners. Indeed, that work has started with stakeholder events. I believe that we have had about 400 people participating already. I fully intend to include local government, the Association of Directors of Social Services and the private, independent and voluntary sectors—all of our stakeholders. I made that clear in a speech this morning to the Westminster policy forum.”<sup>115</sup>

141. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog hefyd ei chynlluniau i ymgynghori ynglŷn â'r fframwaith cyn iddo gael ei wneud yn weithredol, a rhoddodd y sicrwydd hwn inni:

“Regulations will be developed in 2014, following the policy statement. Those regulations will be developed with a full consultation process. They are subject to the affirmative process, so there will be full consultation at that point.”<sup>116</sup>

142. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog hefyd at ei chynlluniau i gynnwys ar wyneb y Bil yr amgylchiadau lle caiff unigolion eu pasbortio i fod ag angen cymwys, yn cynnwys y rheini sy'n wynebu risg a phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n cael eu lletya. Dywedodd:

“I think that it is a bold step to have put on the face of the Bill some people who will be passported. On the face of the Bill, there will be passporting of eligibility criteria to include children in care, children leaving care, other children who are accommodated and adults at risk. Those will be passported. There is a need for some time to think about whether that passporting can be extended. That is my aim. I believe that some profoundly disabled should be passported as well, and I am using this time to develop that thinking. Stakeholders are contributing to that.”<sup>117</sup>

143. Wrth holi'r Dirprwy Weinidog ynglŷn â'r fframwaith cymhwystra, ceisiasom eglurder ynglŷn â'r trefniadau pontio i'r rhai sy'n cael gwasanaeth ar hyn o bryd a gofynnwyd a oedd perygl y byddai unigolion yn canfod na fyddent mwyach yn gymwys i gael gwasanaethau o dan y trefniadau newydd.

---

<sup>115</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 20, 6 Mehefin 2013

<sup>116</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 6 Mehefin 2013

<sup>117</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 6 Mehefin 2013

144. Mewn ymateb dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“I have been very mindful about the need for continuity of service through the transition period. I am giving that serious thought. With regard to the transition, we are committed to seamless transition for people needing care. The way that I understand this is that I am not expecting people to need to be reassessed, but existing arrangements provide for reviews of their care plans. Fundamental to that will be the continuity of care, the respect that those people in receipt of care deserve and the way in which we deal with it. There will be transition, of course, as with any change, but I am very mindful that we need to be very careful as to how we handle this period in people’s lives.”<sup>118</sup>

145. Darparodd y Dirprwy Weinidog ymateb pellach i’r Pwyllgor ar y mater hwn mewn llythyr dyddiedig 11 Mehefin 2013. Dywedodd:

“In line with any new law, at the switch over point there is a period of transitional protection owed to an individual (Section 165(2)). For example, this will ensure that for a person who is in receipt of support following an assessment under Section 47 of the NHS and Community Care Act 1990, the local authority duties under those arrangements would continue to apply until the local authority reviews the persons care through a re-assessment to take into account their changing circumstances and needs over time. The current arrangements under Creating a Unified and Fairer System for Assessing and Managing Care (in Section 2.54 of that guidance) require the local authority to review an adult's care as follows:

‘At a minimum, there should be an initial review within three months of services first being provided. Thereafter, reviews should be scheduled at least annually, or more often if individuals' circumstances appear to warrant it or upon request from service users, providers of services and other appropriate individuals or agencies’.

“On review the local authority will have to consider with the individual how best to meet the need for care and support under the new arrangements. This will require the local authority to consider whether the persons need for care and support can be met through their duties to provide Information, Advice or Assistance (Section 8)

---

<sup>118</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 138, 6 Mehefin 2013

or through preventative services (Section 6) that the local authority facilitated by the Local Health Board must provide or arrange for people with care and support needs in its area. The transitional arrangements will provide for a period of re-adjustment, so that any change in an individual's care is carefully managed. I am committed to ensuring sufficient time and assistance is given to people to enable them to maintain their quality of life and independence. The continuity of care for people over the transition must be a clear priority for local authorities. I am however clear that people have no absolute forever right now to services. There may well be people whose needs change now and who would lose the service now. We cannot give a blanket guarantee to an absolute forever right to a service under the new law any more than we can with existing law.

"I have advised the Committee of my plans to make an announcement later this month on the next steps in the on-going co-production of the core processes of the Bill with local authorities and their partners. Ensuring that there are appropriate transitional arrangements will be a key priority for the on-going work to implement the Bill."<sup>119</sup>

#### *Ein Barn Ni*

**Nid ydym yn fodlon â'r wybodaeth sydd wedi cael ei darparu ynglŷn â'r fframwaith cymhwystera cenedlaethol sy'n cael ei gynllunio. Teimlai rhai o aelodau'r Pwyllgor fod y diffyg eglurder hwn yn wendid sylfaenol yn y Bil, gan ei fod yn hanfodol er mwyn deall sut y bydd y Bil yn gweithio'n ymarferol ac i bwy y bydd yn gymwys.**

**Rydym yn deall y rhesymau a amlinellwyd gan y Dirprwy Weinidog am beidio â chynnwys manylion cymhwystera ar wyneb y Bil, ac rydym yn derbyn bod angen hyblygrwydd rheoliadau ar fframwaith cymhwystera.**

**Nodwn ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i wneud datganiad polisi mawr ynglŷn â chymhwystera ac rydym yn argymhell ei bod yn ychwanegu datganiad llafar mewn Cyfarfod Llawn at hyn cyn diwedd Cyfnod 2. Mae cymhwystera'n ganolog i lwyddiant y Bil ac rydym felly'n credu y dylai'r Pwyllgor hwn gael y cyfreith i graffu'n drylwyr ar y rheoliadau cymhwystera drafft gyda digon o amser i adolygu, holi'r Dirprwy Weinidog, a chyflwyno adroddiad ar y rheoliadau drafft fel Pwyllgor cyn i drafodion Cyfnod 3 gael eu cynnal yn gynnar yn 2014.**

---

<sup>119</sup> HSC(4)-22-13(ptn1), 1 Gorffennaf 2013

**Rydym yn argymhell y dylai rheoliadau'n ymwneud â meini prawf cymhwystra fod yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol.**

**Fel Pwyllgor, ystyriasom hefyd a ddylid cael Codau Ymarfer law yn llaw â rheoliadau ynglŷn â'r meini prawf cymhwystra. Credwn fod Codau Ymarfer yn fwy hygrych ac yn haws eu deall i ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn derbyn ein hargymhellion i gynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil (argymhelliad 1), ac y dylai unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn nodi'r meini prawf cymhwystra cenedlaethol drawsgyfeirio at yr egwyddorion hyn.**

**Mewn perthynas â 'phasbortio', rydym yn croesawu'r ffaith fod y Dirprwy Weinidog wedi cynnwys, ar wyneb y Bil, yr amgylchiadau lle caiff rhai unigolion eu pasbortio i fod ag angen cymwys. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn nodi sut y bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau'r hawliau fel y maent wedi'u nodi ar hyn o bryd yn adran 17 o Ddeddf Plant 1989.**

**O ran cyflwyno fframwaith cymhwystra cenedlaethol, rydym yn bryderus ynglŷn â'r effaith y gallai hyn ei chael ar y rhai sy'n cael gwasanaethau ar hyn o bryd, a allai ganfod nad oes ganddynt hawl mwyach i'r gwasanaethau hynny o dan y trefniadau newydd. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn nodi'n gliriach sut y bydd y trefniadau pontio yn gweithio.**

**Credwn na ddylai'r rhai sy'n cael gwasanaethau ar hyn o bryd fod ar eu colled o dan y trefniadau newydd. Rydym yn dal i bryderu na allwn fesur maint y broblem bosibl hon heb ragor o fanylion am y meini prawf cymhwystra. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried yr effaith bosibl a allai ddeillio o drosglwyddo o'r meini prawf cymhwysos presennol i fframwaith cymhwystra cenedlaethol newydd.**

**Yn olaf, nodwn ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i gynnal ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid ynghylch datblygu fframwaith cymhwystra cenedlaethol. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog wireddu'r ymrwymiad hwn a darparu esboniad pellach o'i phroses ymgynghori arfaethedig.**

## Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn

### *Cefndir*

146. Mae adran 23 yn nodi'r amodau y mae rhaid eu cyflawni er mwyn i awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn yn ei ardal. Cymhwysyo meinu prawf cymhwystera fydd y prif ddull o ddyfarnu a oes rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth o dan yr adran hon.

147. Fodd bynnag, ceir mesurau diogelu yn isadran (3) i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddiwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth os yw hynny'n angenrheidiol i amddiffyn y plentyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod, hyd yn oed os nad yw ei anghenion yn bodloni'r meinu prawf cymhwystera.

### *Tystiolaeth gan Dystion*

148. Mae Plant yng Nghymru wedi codi pryderon ynglŷn â'r ffordd y mae isadran 23 (3) wedi cael ei drafftio. Yn y cyswllt hwn dywedodd wrthym:

"...it has a narrowing effect, and...it basically focuses the eligibility criteria more around abuse and neglect. The best-interest principles are about promoting the wellbeing and welfare of children. There is more of an emphasis on early support for families."<sup>120</sup>

149. Ychwanegodd:

"This is all on the 'harm' end, as opposed to promoting the wellbeing and development of children. It depends how authorities interpret this, but it is a risk, if it is not amended."<sup>121</sup>

### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

150. Nid yw'r Dirprwy Weinidog wedi cynnig sylwadau ar y mater hwn.

### *Ein Barn Ni*

**Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan Blant yng Nghymru ynglŷn â'r potensial i'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth ganolbwytio ar gam-drin ac esgeuluso a pheidio â rhoi sylw i wasanaethau ataliol. Rydym yn argymhell bod sylw llawn yn cael ei roi i'r angen am ymyrryd cynnar i hyrwyddo llesiant a lles plant wrth ddatblygu'r fframwaith cymhwystera.**

<sup>120</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 232, 2 Mai 2013

<sup>121</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 236, 2 Mai 2013

## Codi ffioedd

### *Cefndir*

151. Mae Rhan 5 o'r Bil yn ailldatgan pŵer awdurdodau lleol i godi ffioedd am ddarparu gofal a chymorth i oedolion a phlant, a chymorth i ofalwyr, a dywed bod rhaid cynnal asesiad ariannol i benderfynu ar yr atebolrwydd am dalu ffioedd. Mae rhai newidiadau i gwmpas y ffioedd a'r ffordd y cānt eu rheoli. Er enghraifft, gellir codi ffi 'frocera' ar bobl sydd ag adnoddau uwchlaw'r trothwy codi ffi sy'n ceisio help gan yr awdurdod lleol, a byddai cytundebau taliadau gohiriedig, nad ydynt ond yn berthnasol i ofal preswyl ar hyn o bryd, yn cael eu hymestyn i bob gwasanaeth o dan adrannau 21-29. Bydd rheoliadau'n pennu cwmpas a manylion yr asesiad ariannol.

152. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig atodol, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y bydd y darpariaethau codi ffioedd yn y Bil yn disodli'r darpariaethau presennol ac y byddant, er enghraifft, yn dileu'r gofyniad cyfredol o dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948<sup>122</sup> ar i awdurdodau lleol godi ffioedd am ofal preswyl.<sup>123</sup>

153. Mae ffioedd am wasanaethau dibreswyl (e.e. gofal cartref) yng Nghymru yn ddarostyngedig ar hyn o bryd i fframwaith y darperir amdano gan Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010,<sup>124</sup> sy'n cynnwys cap o £50 yr wythnos ymysg ei ddarpariaethau. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cadarnhau y caiff y Mesur hwn ei ddiddymu.<sup>125</sup>

### *Tystiolaeth gan Dystion*

154. Mae rhai dystion wedi codi pryderon ynglŷn â chwmpas y ffioedd y darperir amdanynt yn y Bil, ac yn enwedig y ffioedd am wasanaethau gwybodaeth a chyngor. Yn benodol, mae pryderon a fynegwyd mewn tystiolaeth wedi canolbwytio ar y pŵer yn adran 54 o'r Bil i wneud rheoliadau i ganiatâu codi ffioedd am wasanaethau ataliol (y darperir ar eu cyfer o dan adran 6) a gwybodaeth, cyngor a chynhorhwy (y darperir ar eu cyfer o dan adran 8) gan y gallai hyn danseilio ethos atal ac ymyrryd yn gynnar y Bil. Hefyd, mae'r pŵer i godi ffioedd ar bobl ifanc 16 ac 17 oed wedi denu beirniadaeth.

---

<sup>122</sup> [Deddf Cymorth Gwladol 1948](#)

<sup>123</sup> HSC(4)-18-13(ptn13), 6 Mehefin 2013

<sup>124</sup> [Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2010](#)

<sup>125</sup> HSC(4)-18-13(ptn 13), 6 Mehefin 2013

155. Cyfeiriodd y Sefydliad Partner wedi'i gydlyn u gan Anabledd Cymru yn benodol yn ei dystiolaeth ysgrifenedig at y pŵer yn adran 54 o'r Bil i wneud rheoliadau yn caniatáu codi ffioedd am wasanaethau ataliol. Dywedodd:

"...whilst individual contributions to the cost of some services may be appropriate, e.g. for luncheon clubs, the introduction of charges for preventative services such as provision of information, advice and assistance is a retrogressive step and would fundamentally change the nature of the relationship between local authorities and citizens. It would also be counterproductive to the Welsh Government's ambitions for the Bill to transform Social Services and ensure greater equality, voice and control, as it may deter many from seeking assistance - particularly in view of reduced income as a result of benefit cuts.

"Disabled and older people who require information to be provided in accessible formats such as Braille, Easy Read or Audio could be required to pay for information and advice which is currently provided free of charge. This would appear to be discriminatory.

"The partner organisations call upon the Committee to seek clarification on whether an Equality Impact Assessment has been carried out on Section 54 of the SSW Bill, and to seek an amendment to the SSW Bill to prevent local authorities "charging for preventative services and information, advice and assistance."<sup>126</sup>

156. O ran codi ffioedd, ymhelaethodd Anabledd Cymru ar ei bryderon mewn dystiolaeth lafar, gan ddweud:

"...we have some serious concerns around what appears to be the introduction of charging for preventative services. They refer to information, advice and assistance. It is not clear—certainly in the information that we have had—what that means. So, if people download leaflets from the website or get a pack of information from the local authority of an advice centre, is that charged for? There is a real lack of clarity. We are aware, from our previous involvement with the Social Care Charges (Wales) Measure 2010 and the research that was done on that that local authorities find all sorts of ways to charge for things, and we worry that this could creep back in a new area. It would particularly disadvantage people who have to go to a third party for support, who do not have access to the internet and cannot

---

<sup>126</sup> SSW 15, Tystiolaeth Ysgrifenedig

find out things for themselves or negotiate their own support. So, we are very concerned about the way that charging is addressed in the Bill.”<sup>127</sup>

157. Roedd Age Cymru yn rhannu barn debyg, a dywedodd:

“Age Cymru, along with other members of the advisory group and the third sector are concerned about the powers to allow charging for services; particularly for information, advice and assistance and preventative services. We have concerns that this could potentially work against the intended aims of the Bill. We maintain that information and advice should be free, independent and accessible as a basic principle, and would welcome clarification on this.”<sup>128</sup>

158. Ar y mater hwn, gwnaeth CLILC y sylwadau canlynol mewn tystiolaeth lafar:

“We would want to avoid charging, particularly around information and advice, but the truth is that we very much feel at this point in time that unless we have the debate about resources, or identify where they are going to come from, the vision from Welsh Government that local authorities will have the power to charge will stem the resource gap in the new statutory duties that the Bill will introduce. We have some very real concerns about that concept.”<sup>129</sup>

159. Mewn perthynas â'r pwerau yn y Bil i godi ffioedd ar bobl ifanc 16 ac 17 oed, roedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc o'r farn nad oedd y sail resymegol a arweiniodd at greu pwerau i godi tâl ar bobl ifanc 16 ac 17 oed mwyach yn berthnasol.<sup>130</sup>

160. Yn olaf, wrth ymdrin â'r mater hwn, mynegodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru farn fod codi ffioedd ar bobl ifanc 16 ac 17 oed yn groes i ethos y Bil, a dywedodd nad oedd yn briodol codi tâl ar bobl ifanc agored i niwed sy'n dod i'w sylw yn 16 ac 17 oed am fod angen gwasanaethau arnynt.<sup>131</sup> Cytunai CLILC â'r farn hon.<sup>132</sup>

---

<sup>127</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 2 Mai 2013

<sup>128</sup> SSW 66, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>129</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 273, 18 Ebrill 2013

<sup>130</sup> HSC(4)-15-13(ptn7a), 8 Mai 2013

<sup>131</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 45, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 25 Ebrill 2013 (pm)

<sup>132</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 48, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 25 Ebrill 2013 (pm)

### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

161. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog y pwyntiau canlynol mewn tystiolaeth lafar am y Bil yn ymwneud â chodi ffioedd:

“There are examples of where it would be fair for local authorities to charge for preventative services and, perhaps, for brokering a deal between some people and care homes. There are issues of that nature where that might be reasonable. We will develop this thinking and it will be progressed in the way in which we draft the regulation on this issue.”<sup>133</sup>

“The provision of information, advice and assistance will have a statutory base in accordance with the Bill. I do not envisage that, if somebody is popping into a local authority office to ask for advice, they will be charged for that; certainly not. We need to bring clarity to this in the development of the regulation. There will be other examples where it would be reasonable to charge, and the regulation will seek to clarify and define that.”<sup>134</sup>

162. Pan holwyd hi gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 25 Ebrill 2013 am y ddarpariaeth yn y Bil i godi ffioedd ar bobl ifanc 16 ac 17 oed, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“This is not new. This power exists, and nothing changes with regard to existing powers. We have seen some local authorities thinking about charging children. To my knowledge, I do not know that this has happened. The power of discretion is preserved here, so local authorities will have discretion as to whether they want to charge or not. Not only will this allow for charging and allow for the power to exist for charging; it will also give Welsh Ministers to restrict any charging if charges are introduced, or to ensure that any charges are proportionate. There are two sides to this, and nothing changes. This is a provision that is being preserved.”<sup>135</sup>

163. Ailbwysleisiodd y Dirprwy Weinidog ei safbwyt yng nghyswilt codi ffioedd mewn tystiolaeth ysgrifenedig atodol inni, gan ddweud:

“Rwy’n ymwybodol fod peth pryder wedi’i fynegi yn glŷn ag ystod y darpariaethau codi tâl a hoffwn atgoffa’r Pwyllgor, er y bydd modd i

---

<sup>133</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 117, 18 Ebrill 2013

<sup>134</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 119, 18 Ebrill 2013

<sup>135</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 147, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 25 Ebrill 2013 (pm)

awdurdodau lleol godi tâl o dan y Bil am yr un ystod o wasanaethau ag y gallant ar hyn o bryd, y bydd gennyf bwerau'r Rheoliadau a'r Cod(au) Ymarfer hefyd i osod terfynau neu ddatgymhwys o elfennau o'r darpariaethau codi tâl."<sup>136</sup>

#### *Ein Barn Ni*

Rydym wedi ystyried Rhan 5, yn benodol adrannau 44 (2), (3) a (4) o'r Bil, sy'n nodi *Personau y caniateir i ffioedd gael eu gosod arnynt*, a'r pryderon a godwyd mewn tystiolaeth fod codi tâl ar bobl 16 ac 17 oed yn mynd yn erbyn ethos y Bil. Rhannwn y farn hon ac ni chredwn ei bod yn briodol codi tâl ar bobl ifanc. Rydym yn argymhell y dylai'r pwerau i godi ffioedd ar bobl 16 ac 17 oed gael eu dileu o'r Bil.

Mae gennym bryderon tebyg ynglŷn ag adran 54 (1) (b) sy'n darparu ar gyfer rheoliadau i godi tâl am wybodaeth, cyngor a chynhorthwy o dan adran 8 yn ogystal ag am wasanaethau ataliol yn adran 6. Rydym yn poeni y gallai taliadau o'r fath rwystro pobl rhag manteisio ar wasanaethau ac rydym yn cwestiynu a yw'n briodol codi tâl am wybodaeth a chyngor. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu mwy o eglurder ynglŷn â'r amgylchiadau pan gâi taliadau eu codi am y gwasanaethau hynny.

#### **Trosglwyddo o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion**

##### *Cefndir*

164. Nid oes unrhyw gyfeiriadau at y trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion ar wyneb y Bil ond roedd dogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol drafft yn 2012 yn cyfeirio at fwriad i ymdrin â phobl ifanc anabl yn trosglwyddo o'r gwasanaethau cymdeithasol plant i'r gwasanaethau oedolion.

165. Mae'r gwahaniaeth rhwng y gofynion ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i blant anabl ac i oedolion, a'r mein prawf cymhwystera sy'n cael eu harfer ganddynt, yn gallu arwain at "ostyngiad" yn y ddarpariaeth gwasanaethau wrth iddynt symud i'r gwasanaethau oedolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cynlluniau i ymestyn hawliau plant anabl ag anghenion cymhleth hyd at 21 oed a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi gweithiwr allweddol pontio pan fyddant yn 17-18 oed.

---

<sup>136</sup> HSC(4)-18-13(ptn13), 6 Mehefin 2013

166. Ar hyn o bryd nid oes un diffiniad cyffredin o “anghenion cymhleth” ac roedd y ddogfen ymgynghori’n cynnig y byddai rheoliadau a gâi eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn pennu categorïau o blant anabl â lefelau uwch o angen a fyddai â hawl i wasanaethau trosiannol a chymorth oddi wrth awdurdodau lleol hyd at 21 oed.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

167. Mae tystiolaeth a ddaeth i law wedi awgrymu bod rhaid i’r Bil ymdrin â gwasanaethau trosiannol, yn arbennig i bobl ifanc anabl, wrth iddynt drosglwyddo o’r gwasanaethau plant i’r gwasanaethau oedolion.

168. Dywedodd panelau o bobl ifanc sydd â phrofiad o bontio rhwng y gwasanaethau wrthym fod y broses o bontio o ofal i fyw’n annibynnol wedi bod yn anodd iddyn nhw a, heb sefydliadau fel Barnardo’s, Drws y Nant ac elusennau eraill, byddai llawer o bobl 18 oed wedi ei chael hi’n anodd iawn symud o ofal i fyw’n annibynnol.<sup>137</sup> Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd un dyn ifanc:

“...perhaps social services could get more involved by asking the foster parents that you are with, or, if you are in a care home, perhaps they could become more supportive by trying to promote independence by teaching some skills, such as how to cook, how to wash clothes, how to pay the bills, and how to go about picking food, for instance, to get a healthy diet, which I found to be a bit difficult when I left my foster placement. I did not really know what to eat, for instance. If that was put in place from 16 onwards, there would be an understanding of what to expect when you leave care.”<sup>138</sup>

169. Awgrymai tystiolaeth gan y Panel Dinasyddion ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Bil, fel y’i drafftiwyd, yn ceisio ymdrin â phroblemau sy’n deillio o’r pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, yn cynnwys y rhwystrau rhag darparu gwasanaethau’n ddi-dor, ac atal gwasanaethau rhag dod i ben yn sydyn unwaith y bydd person yn cyrraedd 18 oed.<sup>139</sup>

170. Wrth ymdrin â'r mater hwn, dywedodd cynrychiolydd y Panel Dinasyddion ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol:

---

<sup>137</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 418 – 419, 16 Mai 2013

<sup>138</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 422, 16 Mai 2013

<sup>139</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 380, 16 Mai 2013

“...if the Bill addresses that need appropriately and with enough of a ‘must’ behind it, I feel that the services would be addressed within that scope. However, I would need to be certain that there was a ‘must’ there on that transition, to be sure that the needs of the disabled child were protected.”<sup>140</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

171. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig atodol i'r Pwyllgor hwn, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“This Bill legislates for the concept of a ‘people model’. The ‘people’ model is designed to benefit *everyone in need of care and support* and to enable a smooth transition through services at all stages in a person’s life. Disabled young people are therefore part of this group. I am content therefore that the provisions for new core processes and portability mean that the transitional arrangements will be improved for disabled young people and that there will be no gap in the law. It should also be remembered that the Regulations and Code(s) of Practice to be developed in this area will help address specific issues of transition which may relate to this group in particular.”<sup>141</sup>

172. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod y darpariaethau yn y Bil yn sicrhau llesiant pobl anabl, yn cynnwys plant anabl. Dywedodd:

“The Bill will strengthen the provision for disabled children and, when we come to the development of the code of practice, that is where we can be absolutely clear and bring in a legislative framework to ensure that we take due regard of disabled children. The strength of the code of practice is that it will have to come forward for discussion by Assembly Members. That is a huge step forward from having one Minister issuing statutory advice or requirements. So, the development of the thinking and of the code of practice will add strength to the Bill and this provision.”<sup>142</sup>

173. Mewn llythyr dyddiedig 14 Mai 2013, rhoddodd y Dirprwy Weinidog fanylion inni am sut y byddai cynllun ‘*Pan Fydda i'n Barod*’ yn gweithio ochr yn ochr â'r Bil. Dywedodd:

---

<sup>140</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 378, 16 Mai 2013

<sup>141</sup> HSC(4)-18-13(ptn13), 6 Mehefin 2013

<sup>142</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 129, 18 Ebrill 2013

“The proposed “*When I’m Ready*” scheme is one of a range of options that will be available to young people who are transitioning to adulthood when they are due to leave care at the age of 18. It is intended as an alternative to ‘supported lodgings’ and will enable young people to remain with their former foster carers in a familial setting with people who are known to them and who can offer continued support as they grow into adulthood. As you are aware I have agreed to pioneer this in three local authorities areas during 2013/14 (using powers within Part 3 of the Children Act 1989) in order that the experiences of these areas can inform the further development of the guidance to ensure that it will meet the needs of young people and their carers.”<sup>143</sup>

#### *Ein Barn Ni*

Rydym yn cefnogi barn y Panel Dinasyddion mai bwriad y Bil yw ymdrin â phroblemau sy’n codi wrth drosglwyddo o’r gwasanaethau plant i’r gwasanaethau oedolion, ond y bydd angen atgyfnerthu hyn efallai.

**Croesawn gynllun ‘*Pan Fydda i’n Barod*’ sy’n cael ei ddatblygu gan y Dirprwy Weinidog a’r ffaith fod tri chynllun peilot ar waith ar hyn o bryd. Edrychwn ymlaen at gael rhagor o fanylion am y gwerthuso ar y cynlluniau peilot hyn a byddem yn disgwyl ateb deddfwriaethol os na ddangoswyd bod y drefn hon yn gweithio. Mewn sefyllfa felly, rydym yn argymhell dod â gwelliant gerbron i roi dyletswydd statudol glir ar wyneb y Bil a fydd yn nodi dyletswyddau clir ar awdurdodau lleol a chyrff partner eraill wrth iddynt reoli’r broses drosiannol.**

---

<sup>143</sup> HSC(4)-18-13 (ptn7), 6 Mehefin 2013

## **5. Llais a rheolaeth y defnyddiwr**

---

### **Cyffredinol**

#### *Cefndir*

174. Un o amcanion y Bill yw hyrwyddo rhoi grym i ddefnyddwyr gwasanaethau drwy roi llais cryfach iddynt a mwy o reolaeth dros wasanaethau.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

175. Mae tystiolaeth inni yn awgrymu, er bod cefnogaeth gref i roi mwy o lais a rheolaeth i'r defnyddiwr, fod rhai dystion yn aneglur ynglŷn â sut mae hyn yn cael ei wireddu mewn gwirionedd yn y Bil. Er enghraifft, dywedodd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Hywel Dda mewn tystiolaeth lafar:

“Personal autonomy is the capacity to manage your own life and to make your own choices within that. Certainly, the impression given in the Bill is that social care still has a slightly patriarchal function, rather than allowing people to self-manage.”<sup>144</sup>

176. Cwestiynai Cynhalwyr Cymru hefyd i ba raddau y caiff llais a rheolaeth y defnyddiwr eu gwireddu yn y Bil, gan ddweud mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

“The sections of the Bill on voice and control, wellbeing and prevention tend to be of a general nature and do not explain how this would affect an individual’s rights and access to services.”<sup>145</sup>

177. Ychwanegodd:

“If the ambition for a person centred approach and voice and control is to be fully realised then services should be provided to individuals rather than trying to match people to services that already exist. This will require a huge sea change from the current assessment process and the way that health and social services currently meet the needs of individuals, either through the services they provide themselves or, through their commissioning of services from external agencies.

“We are unsure whether the Bill as currently worded will deliver the stated transformation in social care as described but could potentially drift back to a narrow service led approach”<sup>146</sup>.

---

<sup>144</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 16 Mai 2013

<sup>145</sup> SSW 23, Tystiolaeth Ysgrifenedig

178. Mae'r Grŵp Cyngori wedi awgrymu y gellid gwireddu mwy o lais a rheolaeth yn gryfach ar wyneb y Bil.<sup>147</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

179. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig atodol, amlinelloedd y Dirprwy Weinidog sut y caiff llais a rheolaeth eu gwireddu yn y Bil, gan ddatgan:

“Voice and control is realised right the way through the Bill: from the strategic level with the national outcomes framework, to the organisational level with the needs assessment, information, advice and assistance, to the individual when identifying need.”<sup>148</sup>

180. Mewn tystiolaeth lafar ar 6 Mehefin 2013, ailgadarnhaodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn fodlon fod llais a rheolaeth yn cael eu gwireddu yn y Bil ac y byddai'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn cefnogi llais a rheolaeth. Dywedodd:

“At the strategic level, I believe that the national outcomes framework will support user voice and control. It is very important that we shift the emphasis to ensuring that we meet the needs of people, rather than fit people into services. That is very important to me. I believe that adults are the best people to say what their needs are and what outcomes they want for their daily care needs. So, at a strategic level, the outcomes framework will ensure that the outcomes for people are realised and we will have a strong performance framework to measure the effectiveness of the outcomes framework.”<sup>149</sup>

#### *Ein Barn Ni*

Rydym yn croesawu'r bwriad polisi clir o roi mwy o lais a rheolaeth i'r defnyddiwr gwasanaethau ond ni chredwn fod y darpariaethau yn y Bil yn glir ynglŷn â sut y caiff y bwriad hwn ei wireddu'n ymarferol. Credwn y bydd cynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil a chyhoeddi'r fframwaith canlyniadau yn help i ymdrin â hyn.

---

<sup>146</sup> SSW 23, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>147</sup> HSC(4)-18-13(ptn20), 6 Mehefin 2013

<sup>148</sup> HSC(4)-18-13(ptn20), 6 Mehefin 2013

<sup>149</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 6 Mehefin 2013

## Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy

### Cefndir

181. Mae adran 8 yn creu dyletswydd ar awdurdodau lleol, gyda chymorth cyrff GIG, i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy mewn perthynas â systemau gofal a chymorth.

182. Dywedai adran 54 o'r Bil y gallid gwneud rheoliadau fel bod modd i awdurdodau lleol godi ffi am wybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

### Tystiolaeth gan Dystion

183. Mae'r rhan fwyaf o dystion wedi croesawu'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Fodd bynnag, cwestiynai CLILC a oes angen hynny ar wyneb y Bil o ystyried y gwaith sydd eisoes ar y gweill.<sup>150</sup>

184. Mae'r Grŵp Cyngori wedi awgrymu diwygio'r Bil fel ei fod yn cyfeirio at wybodaeth 'hygyrch', pwynt a wnaed hefyd gan Gyngor Gofal Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig.<sup>151</sup>

185. Gan ymhelaethu ar y mater hwn mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Cyngor Gofal Cymru wrthym:

"To state 'accessible' would be quite important and in a Bill that is in Wales currently, given that we have the health and social care Welsh language strategy, a specific reference to the Welsh language would also be important. However, I understand the legal difficulties of doing that."<sup>152</sup>

186. Pan ofynnwyd a fyddai Cyngor Gofal Cymru'n hoffi gweld cyfeiriad penodol at y Gymraeg yn y Bil, dywedodd:

"Rwy'n credu ei bod hi'n siom os nad oes cyfeiriad penodol at yr iaith Gymraeg yn y ddeddfwriaeth hon, gan mai hon yw'r ddeddfwriaeth gyntaf ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn dilyn y strategaeth, sy'n rhoi cymaint o bwyslais ar bwysigrwydd yr iaith Gymraeg ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd sy'n fwy agored ac *accessible* i bobl. Byddai cyfeiriad penodol at yr iaith Gymraeg, hyd yn oed os nad ydym am ddechrau rhestru'r holl ddeddfwriaeth, yn bwysig. Os nad yw deddfwriaeth sy'n cael ei gwneud yng Nghymru yn cyfeirio at y cyfrifoldebau, mae cyfle yn cael ei golli ac mae'n rhoi'r iaith Gymraeg

<sup>150</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 196, 18 Ebrill 2013

<sup>151</sup> SSW 30, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>152</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 243, 16 Mai 2013

yn ôl i fod yn rhywbeth sydd ddim ond yn perthyn i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn hytrach nag i'r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau. Leiciwn i feddwl bod ffordd o wneud hyn, ond rwy'n deall bod tensiwn. Os nad oes cyfeiriad at y ddeddfwriaeth, dylid bod cyfeiriad at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg ynteu ar ddechrau'r Bil yn yr adran gyffredinol, neu yn yr adrannau sy'n sôn yn benodol am bethau hanfodol fel gwybodaeth ac asesu.”<sup>153</sup>

187. Ychwanegodd:

309. Mae'r adran hon yn nodi'r gwahaol categorïau a ddefnyddir at bwrpasau'r Bil i ddiffinio pobl ifanc sydd wedi'u dynodi'n 'rhai sy'n gadael gofal'. Mae'r rhain yn cynnwys categorïau 1 i 5. Nod y Bil yw symleiddio (ond nid yw'n newid effaith) y darpriaethau cymhleth yn Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 sy'n disgrifio'r gwahanol categorïau o "bobl ifanc sy'n gadael gofal" ac yn ceisio egluro rhwymedigaethau a dyletswyddau'r awdurdod lleol, sy'n wahanol yn aml, tuag at bob categori o berson ifanc sy'n gymwys fel "un sy'n gadael gofal".

310. Mae adran 88 felly yn ailldatgan dyletswyddau sy'n bodoli'n barod ond mae'n newid y derminoleg am categorïau o bobl ifanc sy'n gadael gofal i ddarparu pum categori 'newydd' o gymhwystera.

311. Yn dilyn potensial Bil Aelod Preifat sy'n cael ei ddwyn gerbron gan Ken Skates AC, bwriadodd Llywodraeth Cymru ymlaen â'r cynnig i ddatblygu cynllun

---

<sup>261</sup> Cofnod y trafodion, 4 Mehefin 2013

i alluogi plant sy'n derbyn gofal i gael y cyfle i barhau i fyw gyda'u teulu maeth y tu hwnt i 18 oed. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch yr hyn sydd wedi dod i gael ei alw'n gynllun '*Pan fydda i'n barod*'.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

312. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru at fwriad polisi Llywodraeth Cymru o gryfhau'r drefn i gefnogi plant sy'n derbyn gofal<sup>262</sup> ac awgrymodd nad yw'r Bil mewn gwirionedd yn gwneud fawr ddim i newid y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Dywedodd:

"While the intention to clarify duties in relation to care leavers may lead to improvements the Bill has not been used as a vehicle to strengthen the approach to supporting looked-after children in Wales or to promote a rights-based approach to policy relating to looked-after children in-line with the spirit of the duty of due regard to the UNCRC on Welsh Ministers."<sup>263</sup>

313. Yng nghyswilt adrannau 88 i 94 o'r Bil, sy'n nodi'r gwahanol categorïau o bobl ifanc sy'n cael eu dynodi'n 'rhai sy'n gadael gofal', dywedodd Comisiynydd Plant Cymru y gallai'r bwriad i egluro dyletswyddau mewn perthynas â'r rhai sy'n gadael gofal arwain at welliannau. Mae tystiolaeth ysgrifenedig arall gan BAAF Cymru<sup>264</sup> a chan Dr Julie Doughty, Dr Sally Holland a Dr Heather Ottoway (Prifysgol Caerdydd) yn galw am derminoleg fwy addas yn yr adrannau hyn, gan fynegi pryder fod defnyddio categorïau 1-5 yn debyg i'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio yn y gwasanaeth carchardai.<sup>265</sup>

314. Dywedodd CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru nad oedd y darpariaethau yn adrannau 88 i 94 yn symleiddio'r ddeddfwriaeth bresennol a'u bod yn defnyddio terminoleg hynod o ddifriol.<sup>266</sup>

315. Rhannai NSPCC Cymru farn debyg, gan ddweud:

"Given the statement that this Bill will not stand in isolation of other statutes, NSPCC Cymru/Wales believes greater clarity is needed as to which parts of existing legislation relating to looked after children

<sup>262</sup> [Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16](#), 17 Gorffennaf 2012

<sup>263</sup> SSW 58, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>264</sup> SSW 41, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>265</sup> SSW 45, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>266</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 61, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 25 Ebrill 2013 (pm)

and care leavers will remain relevant to Wales. Without this clarification the Bill will not achieve its stated aim of specifying the core legislative framework. They are concerned that certain sections do not “simplify” the legislation but could alter interpretation.”<sup>267</sup>

### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

Wrth ymateb i gwestiynau, eglurodd y Dirprwy Weinidog ei barn ynglŷn â pha un a ddylai'r Bil ddefnyddio iaith wahanol i sôn am 'gategoreiddio' hawlogaeth y rhai sy'n gadael gofal yn adrannau 88-94. Dywedodd:

"I have some concerns. Whatever you would call this group of people might give them some type of label, but if the committee has any suggestions for a replacement for the word 'category', I would be more than pleased to consider that."<sup>268</sup>

### *Ein Barn Ni*

**Rhannwn bryderon tystion ynglŷn â defnyddio categorïau 1-5 wrth gyfeirio at y rhai sy'n gadael gofal ac rydym yn anghyfforddus fod terminoleg o'r fath yn debyg i'r hyn a ddefnyddir yn y systemau cyflawnder troseddol. Rydym yn argymhell y dylid defnyddio terminoleg wahanol.**

### **Plant Anabl**

#### *Cefndir*

316. Mae adran 3 (5) o'r Bil yn darparu ystyr 'anabl' fel y mae'n berthnasol i'r Bil. Dywed:

(5) Mae person yn "anabl" os oes ganddo anabledd ("disability") at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (6).

(6) Caiff rheoliadau ddarparu bod person sy'n dod o fewn categori penodedig i'w drin neu i beidio â chael ei drin fel un sy'n anabl at ddibenion y Ddeddf hon.

317. Mae adran 3 (6) o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ragnodi ymhellach pa categorïau o bobl y gellir neu na ellir eu cynnwys a bod modd gwneud hyn drwy weithdrefn negyddol gan mai manylion cymharol ddibwys

<sup>267</sup> SSW 74, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>268</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 239, 6 Mehefin 2013

yn y cynllun deddfwriaethol drwyddo draw yw deunydd pwnc y rheoliadau hyn. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

“Nodir y diffiniad o “anabl” ar wyneb y Bil. Mae’r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ymhellach pa gategorïau o bobl y ceir neu na cheir eu cynnwys o dan y diffiniad o ‘anabl’ at ddibenion y Ddeddf hon. Mae’r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei fod yn darparu hyblygrwydd, os digwydd i’r diffiniad o “anabl” gael ei ystyried yn rhy gyfyng neu’n rhy eang.”<sup>269</sup>

318. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu rhagnodi ymhellach pa gategorïau o bobl y gellir neu na ellir eu trin fel pobl fyddar, dall, neu dall a byddar drwy’r weithdrefn negyddol.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

319. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod y newidiadau yn y Bil mewn perthynas â phlant sydd i gael eu cynnwys fel rhai sy’n ddarostyngedig i ddyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol yn cynrychioli dirywiad mewn perthynas ag erthygl 23 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plenytyn, sydd yn gryno yn dweud y dylai fod gan blant anabl hawl i ofal ac addysg arbennig.<sup>270</sup>

320. Â ymlaen i ddweud bod cynnwys y Bil yn awgrymu porthgadw ychwanegol mewn perthynas â darparu gwasanaethau statudol i blant ac awgrymodd fod hepgor plant anabl o adran 23 o’r Bil o’i chymharu ag adran 17 o Ddeddf Plant 1989 yn enghraift o borthgadw o’r fath.<sup>271</sup>

321. Mynegwyd pryderon tebyg gan NSPCC Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ei bod yn aneglur sut y bydd y diffiniad hwn o ‘anabl’ a darpariaethau yn y Bil hwn yn rhyngweithio â’r diffiniad a’r darpariaethau yn Adran 17 o Ddeddf Plant 1989, sy’n dweud bod unrhyw blentyn sy’n anabl yn blentyn mewn angen, ac y dylid wedyn darparu iddo wasanaethau sy’n briodol i’w anghenion.<sup>272</sup> Eglurodd y Dirprwy Weinidog yn ddiweddarach fod adran 17 o Ddeddf Plant 1989 i gael ei diddymu.<sup>273</sup>

322. Mewn gohebiaeth at y Pwyllgor hwn, gofynnodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am nodi’i bryderon ynglŷn â sut y mae’r Bil yn darparu ar gyfer diffiniad o blant anabl, a hefyd effaith bosibl diddymu Adran 17 o Ddeddf

<sup>269</sup> Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 27

<sup>270</sup> SSW 58, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>271</sup> SSW 58, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>272</sup> SSW 74, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>273</sup> HSC(4)-18-13(ptn13), 6 Mehefin 2013

Plant 1989 ar blant anabl. Ychwanegodd y byddai'n croesawu craffu pellach ar y mater hwn ynghyd â'r ddyletswydd bosibl mewn is-ddeddfwriaeth i dynnu rhai pobl o'r diffiniad o 'anabl' sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010.<sup>274</sup>

### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

323. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 25 Ebrill 2013 fod Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cael ei defnyddio i ddiffinio anabledd, gan mai dyna'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf y gellir troi ati.

Dyweddodd:

"Rwy'n meddwl, dros fywyd, bod rhai anableddau sy'n aros yr un fath drwy gydol oes. Fodd bynnag, mae anableddau eraill yn gallu effeithio ar yr un person, ac mae anableddau newydd yn gallu dod i law. Felly, mae'n bwysig ein bod yn gallu edrych ar a oes eisiau newid y diffiniad, ac fe wnawn ni hynny. Byddwn yn gallu gwneud hynny gan edrych ar yr ymylon, os bydd yr angen yn codi. Hefyd, rwyf wastad wedi cefnogi'r cysniad cymdeithasol o anabledd, ac mae hynny'n holl bwysig. Fodd bynnag, cysniad yw hynny ac yr oedd yn rhaid i ni gael rhywbeth i'r Bil a oedd yn dibynnu ar ddeddfwriaeth, a dyna'r rheswm rydym wedi defnyddio'r Ddeddf yn hytrach na'r cysniad. Fodd bynnag, nid oes dim yn ein stopio rhag cynnwys cysniad y *social model*, ac rwy'n siŵr, wrth i ni fynd ymlaen â thaith y Bil, cawn glywed rhagor am hynny."<sup>275</sup>

324. Wrth ymdrin â diddymu Adran 17 mewn tystiolaeth lafar inni, eglurodd y Dirprwy Weinidog ei safbwyt gan ddweud:

"I take this issue very seriously, of course. This Bill is about people with care and support needs and carers with support needs. Children are a key group within the people concept, and the Bill also contains regulation-making powers that can be used to add to the definition of a disabled child over time. I am sure that that power will be used to meet any changing circumstances.

[...]

"I am glad of this opportunity to highlight section 17 of the Children Act and to say quite clearly that section 17 of that Act currently provides no automatic right to a service for a disabled child. Instead,

<sup>274</sup> HSC(4)-15-13(ptn7a) 8 Mai 2013

<sup>275</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 179, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc 25 Ebrill 2013 (pm)

a disabled child's entitlement to services depends upon the assessment disclosing sufficient evidence to promote the provision of that service. Section 17 (1) of the Children Act 1989 imposes a duty on a local authority to safeguard and promote the welfare of a child in need, the definition of which includes a disabled child, by providing a range and level of services appropriate to the child's needs. However, there is no automatic right to that service under section 17. The local authority must determine that a child has needs that can be met by the provision of a service under section 17. There is no guarantee, therefore, that a disabled child will necessarily have a need for services and, if he or she has a need, that the local authority will provide a service to meet that need.

"I am absolutely clear, therefore, that the Bill preserves the entitlement for children that currently exists in law, and the rights that we have created, in fact, go beyond what is provided by section 17 of the Act by creating on the face of the Bill a duty on local authorities to carry out an assessment of children where they appear to need care and support and then a duty to meet those needs that meet the eligibility criteria. Disabled children and young people will also benefit from the new assessment arrangements in the Bill, as all people will have a right to an assessment, and we want the assessment to be proportionate to need to ensure that more energy is focused on delivering solutions and not on bureaucratic assessment processes."<sup>276</sup>

#### *Ein Barn Ni*

Rydym yn croesawu barn y Dirprwy Weinidog fod y Bil yn cadw hawlogaeth gyfredol plant o dan y gyfraith a bod yr hawliau sy'n cael eu creu yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei ddarparu gan adran 17 o Ddeddf Plant 1989. Rydym hefyd yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o blant lle mae'n ymddangos bod angen gofal a chymorth arnynt, a dyletswydd i ddiwallu'r anghenion hynny sy'n bodloni'r meinu prawf cymhwystera.

**Nodwn fwriad y Dirprwy Weinidog i gynnwys ar wyneb y Bil y bobl hynny a fydd yn cael eu 'pasbortio' at wasanaethau a chroesawn y ffaith fod plant sydd ag anabledd difrifol yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai diddymu adran 17 o Ddeddf Plant 1989 arwain at leihau hawliau presennol plant anabl ac rydym yn argymhell bod y**

---

<sup>276</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 208 – 210, 6 Mehefin 2013

**Dirprwy Weinidog yn darparu datganiad llafar ar sut y caiff hawliau o'r fath eu cadw y y Bil.**

Rydym yn cydnabod hefyd bwysigrwydd gwarchod hawliau plant anabl y gallai fod angen iddynt gyrchu at wasanaethau yn y dyfodol ac rydym yn argymhell diwygio adran 12 (1) i ddarllen 'y gall fod angen gofal a chymorth ar blentyn am ei fod yn *anabl neu fel arall*'. Er mwyn adlewyrchu'r model 'pobl' sy'n cael ei hyrwyddo yn y Bil rydym yn argymhell diwygio adran 10 (1) yn unol â hynny i ddarparu'r un sicrwydd i oedolion anabl. Credwn mai effaith hyn fyddai cynnwys plant anabl yn benodol mewn dyletswydd i asesu, a galluogi'u hangen am wasanaethau i gael ei asesu felly gan yr awdurdod lleol.

### **Dileu'r amddiffyniad 'cosb resymol'**

#### *Cefndir*

325. Mewn ymateb i'n cais am dystiolaeth, roedd a wnelo'r mater a godwyd amlaf mewn perthynas â phlant a phobl ifanc â galwadau am i'r Bil ddiwygio Adran 58 o Ddeddf Plant 2004<sup>277</sup> sy'n ymwneud â 'chosb resymol'. Gofynnodd llawer o dystion am gynnwys darpariaeth yn y Bil i ddileu'r 'amddiffyniad cosb resymol'.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

326. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod y Bil yn cynnig modd o ddarparu amddiffyniad cyfartal i blant yng Nghymru, yn gefn i'r bwriadau i wella llesiant a diogelu plant<sup>278</sup>.

327. Rhannai NSPCC Cymru farn debyg, gan ddweud mewn tystiolaeth lafar:

"This Bill is about safeguarding and wellbeing. We know that the Welsh Government, on successive occasions, has wanted to pass this, but has not had the power. So, we think that this Bill is the vehicle to remove the defence of reasonable punishment."<sup>279</sup>

328. Wrth ymdrin â'r mater hwn mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Barnardo's Cymru:

"We think that this Bill gives us the first realistic opportunity to make sure that we remove the defence of reasonable punishment from the

---

<sup>277</sup> [Deddf Plant 2004](#)

<sup>278</sup> SSW 58, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>279</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 8 Mai 2013

legislation. We also accept that there is cross-party support for this, but also a great deal of concern about a challenge to this Bill as it moves forward. So, we are pragmatic enough to accept that, on the one hand, we will continue to campaign for the removal of the reasonable punishment defence, and, on the other hand, to recognise that we are hearing arguments about a danger to this Bill's being passed should it include that particular clause or section.”<sup>280</sup>

329. Roedd Gweithredu dros Blant yn rhannu'r farn hon.<sup>281</sup>

330. Ymdriniodd 'Sdim Curo Plant! hefyd â'r mater hwn mewn tystiolaeth ysgrifenedig, gan ddweud:

“The Social Services and Wellbeing (Wales) Bill is the first major legislation introduced into the Assembly to address wellbeing and safeguarding; it is the obvious vehicle for fulfilling the long-standing commitment. Now there is a legislative opportunity: we question why should Welsh children wait any longer to have the same level of protection as adults under the law on assault? Children across Europe are already enjoying this equal protection before the law. Within the European Union, 17 states have banned smacking completely and another six are committed to doing so, leaving just four which have neither achieved reform nor committed to it: France, Belgium, the UK and Malta – which shares the same English law defence.”<sup>282</sup>

331. Ychwanegodd:

“Children are unbeatable! Cymru urges the Health and Social Care Committee to recommend in its Stage 1 Report that the necessary provision to remove the “reasonable punishment” defence should be included in the Bill. This written evidence sets out our arguments for the inclusion.”<sup>283</sup>

332. Wrth gyfeirio at ddileu ‘cosb resymol’, dywedodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ei bapur:

“In summary, evidence from a wide range of agencies was given to the Committee making the case for removing the ‘reasonable punishment’ defence to be included in the Bill. Some Members

---

<sup>280</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 26, 8 Mai 2013

<sup>281</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 8 Mai 2013

<sup>282</sup> SSW 22, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>283</sup> SSW 22, Tystiolaeth Ysgrifenedig

expressed concern that as this was not a section in the Bill as drafted, there had been no specific consultation on its inclusion or otherwise within this particular Bill. Evidence from the Deputy Minister confirmed that the Welsh Government does not intend to introduce legislation in this regard within this Assembly. The Committee draws the attention of the Health and Social Care Committee to the evidence we have received in this regard.”<sup>284</sup>

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

333. Mewn tystiolaeth lafar, rhoddodd y Dirprwy Weinidog farn glir ynglŷn â safbwynt y Llywodraeth ar ddileu'r amddiffyniad cosb resymol, gan ddweud:

“I am aware of what has been said on this serious topic. I am thinking about it and reflecting on where we are as a Government at the moment. Our programme for government commits us to working to make the physical punishment of children and young people unacceptable through the promotion of positive alternatives. This option is not available in the Bill at the moment, and we all know how the passage of a Bill can develop.”<sup>285</sup>

334. Ychwanegodd:

“...while the current and previous Welsh Governments have shown a commitment to legal reform on this issue, I want to see a positive, deep-seated change in Welsh culture that leads to physical punishment, as I have said, being seen as unacceptable. I do not think that we have developed those parenting strategies adequately, and we need an awareness-raising programme on that. You will know that I committed to that when I was Deputy Minister for Social Services and Children. This issue has moved out of my portfolio now, but we have developed and seconded help from Children in Wales to look at the development of parenting, and we have to reach the hearts and souls of people and bring people with us. However, it is not for me to anticipate what will happen during the passage of the Bill. I am strongly of the view that serious thought needs to be given to this.”<sup>286</sup>

335. O ran dod â gwelliannau gerbron i ddileu'r amddiffyniad 'cosb resymol', dywedodd y Dirprwy Weinidog:

---

<sup>284</sup> HSC(4)-15-13 (ptn7a), 8 Mai 2013

<sup>285</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 18 Ebrill 2013

<sup>286</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 18 Ebri 2013

“I am advised that, if there were to be an amendment, there could be a serious challenge to our competence, although there will be opinions on both sides. I do not think that it is going too far to say that that would end up seeking resolution in the courts. The provisions in the Bill are urgent. We need this legislation as soon as possible, because contained in the Bill are provisions that could lead to so much improvement that could happen in the lives of vulnerable children that I see my business, at the moment, as ensuring the swift passage of the Bill so that the regulations can be brought into law.”<sup>287</sup>

### *Ein Barn Ni*

**Nodwn farn gref tystion wrth ddadlau'r achos o blaid cynnwys darpariaeth yn y Bil hwn i ddileu'r amddiffyniad 'cosb resymol'. Roedd gennym amrywiaeth barn ynglŷn â pha un a ddylid cynnwys darpariaeth o'r fath yn y Bil hwn ai peidio. Ni chredai'r mwyafrif o'r Pwyllgor mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng iawn i fynd i'r afael â'r mater hwn.**

### **Gwasanaethau Mabwysiadu**

#### *Cefndir*

336. Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd i hwyluso diwygio gwasanaethau mabwysiadu. Byddai adran 151 yn mewnosod cymalau yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i gyfarwyddo dau neu ragor o awdurdodau lleol yng Nghymru i ymuno mewn trefniadau penodedig â'i gilydd mewn perthynas â darparu gwasanaethau penodedig sy'n cael eu cynnal o dan Adran 3(1).

337. Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n cyfeirio at gymorth ôl-fabwysiadu.

338. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

“Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau gweithio ar y cyd mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu. Mewnosodir adran yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Effaith hyn yw caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o awdurdodau lleol i gydweithio i ddarparu agweddau penodedig ar eu gwasanaeth mabwysiadu. Caiff trefniadau ar y cyd o'r fath gynnwys sefydlu cronfa

---

<sup>287</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 47, 18 Ebrill 2013

gyfun, pennu trefniadau staffio a lletya, sefydlu panel mabwysiadu a phrosesau ar gyfer datrys anghydfodau a chwynion.”<sup>288</sup>

### *Tystiolaeth gan Dystion*

339. Cyhoeddodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc adroddiad ar Fabwysiadu ym mis Tachwedd 2012.<sup>289</sup> Argymhelliaid cyntaf y Pwyllgor oedd y dylid cryfhau rôl gyflenwi gwasanaeth uniongyrchol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn sylweddol o'r hyn sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn nogfen ymgynghori Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Ychwanegai'r argymhelliaid:

“Dylai fod gan y Gwasanaeth rôl gyflenwi ganolog a dylai gyflogi staff i weithio ar amrywiaeth o drefniadau mabwysiadu. Ni ddylai fod yn ‘eiddo i’r awdurdodau lleol’ fel y nodir yn y cynigion presennol. Dylai’r rôl arweiniol o fewn y Gwasanaeth fod yn uwch rôl annibynnol, yn adrodd i fwrdd amlasiantaethol, ac yn atebol yn y pen draw i’r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru.”<sup>290</sup>

340. Derbyniodd Llywodraeth Cymru’r argymhelliaid hwn mewn egwyddor a dywedodd y Dirprwy Weinidog yn yr ymateb:

“...rwy’n cytuno y dylai uwch swyddog arwain y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, gyda’r rhyddid i wneud penderfyniadau annibynnol a sicrhau bod gwelliannau parhaus a chyson yn cael eu cyflwyno ar hyd a lled Cymru. Mae’n bwysig mai’r awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am hyn o hyd er mwyn cynnal cysylltiadau lleol pwysig, a gwybodaeth am y plentyn, sy’n elfennau hollbwysig o wasanaethau mabwysiadu. Mae’n bwysig nad ydym yn datgysylltu mabwysiadu a dewisiadau eraill sy’n sicrhau sefydlogrwydd a ddylai fod yn rhan o ystyriaethau awdurdodau lleol ar gyfer pob plentyn sy’n derbyn gofal, fel eu rhiant corfforaethol. Mae’n rhaid i’r gwasanaeth newydd fynd i’r afael â phryderon cyfredol, ond heb golli cryfderau’r system bresennol – sicrhau newididau heb greu anfantais.”<sup>291</sup>

341. Aeth ymlaen i ddweud:

---

<sup>288</sup> Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 258

<sup>289</sup> Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Ymchwiliad i Fabwysiadu, Tachwedd 2012

<sup>290</sup> Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Ymchwiliad i Fabwysiadu, Tachwedd 2012 (tudalen 14)

<sup>291</sup> Ymateb Llywodraeth Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Fabwysiadu, 9 Ionawr 2013

“Nid wyf yn diystyru argymhelliaid y Pwyllgor am wasanaeth mwy annibynnol, ond byddai trefniant o'r fath yn golygu dileu gwasanaethau mabwysiadu y 22 o asiantaethau mabwysiadu awdurdod lleol yng Nghymru; a byddai'n rhaid i'r gwasanaeth newydd gofrestru fel asiantaeth fabwysiadu er ei fwyn ei hun. Er bod hyn yn bosibl, mae perygl sylweddol o gael gwasanaethau digyswllt a all fod yn niweidiol i'r lefel ddarpariaeth bresennol.

“Gan hynny, rwyf wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r hyn a ddywedais yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor (Plant a Phobl Ifanc), sef gweithio gydag awdurdodau lleol, y sector annibynnol a gwirfoddol; trwy bartneriaeth a chydweithredu effeithiol a chryf ac ystyried y model gweithredol sydd wrhi'n cael ei ddatblygu gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac rwy'n edrych ymlaen at ei dderbyn y flwyddyn newydd. Yna, byddaf yn hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am fy mhenderfyniad.”<sup>292</sup>

342. Wrth ystyried y Bil, dywedodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc fod angen i adran 151 o'r Bil fynd ymhellach na'r hyn sydd wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd i ddarparu'r mesurau diogelu angenrheidiol pe na bai'r model cyflenwi gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol yn gwireddu'r newid sylfaenol y mae'r Pwyllgor (Plant a Phobl Ifanc) wedi galw amdano cyn hyn. Argymhellodd hefyd fod angen i adran 151 gyfeirio'n benodol at y sector gwirfoddol.<sup>293</sup>

343. Dywedai adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y dystiolaeth a dderbyniodd ynglŷn â'r Bil hyn hefyd:

“Based on the extensive evidence we heard during the inquiry into adoption services, the Committee is strongly of the view that the duty to provide post-adoption support should be included in the Bill. The Committee recognises the need to adequately cost any additional duties in this regard. We ask the Health and Social Care Committee to note our views in this regard and the evidence in respect of post-adoption support in the conclusions of the Children and Young People Committee Inquiry into Adoption Services report published in November 2012.”<sup>294</sup>

---

<sup>292</sup> Ymateb Llywodraeth Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Fabwysiadu, 9 Ionawr 2013

<sup>293</sup> HSC(4)-15-13(ptn7a) 8 Mai 2013

<sup>294</sup> HSC(4)-15-13(ptn7a) 8 Mai 2013

### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

344. Mewn ymateb i'r galwadau am gynnwys dyletswydd i ddarparu cymorth ôl-fabwysiadu yn y Bil, hysbysodd y Dirprwy Weinidog ni:

"The duty to provide post-adoption support will now be the responsibility of the national adoption service. There is a power to direct the service to commission from the third sector any services that it thinks it needs, and I would see a big role for the third sector in providing after-adoption services. It is clearly set out in the plan that I have circulated to committee that the duty to provide post-adoption services is placed on the national adoption service."<sup>295</sup>

### *Ein Barn Ni*

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cymorth ôl-fabwysiadu ac yn croesawu'r gwaith y mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi'i wneud ar y maes hwn fel rhan o'i ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu.<sup>296</sup>

**Rydym yn pryderu bod bylchau yn y cymorth ôl-fabwysiadu a byddem yn croesawu dyletswydd i ddarparu'r cymorth hwn drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn gwneud datganiad polisi clir, cyn diwedd cyfnod 2, yn nodi sut y caiff gwasanaethau cymorth ôl-fabwysiadu eu cyflenwi.**

---

<sup>295</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 241, 6 Mehefin 2013

<sup>296</sup> Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Ymchwiliad i Fabwysiadu, Tachwedd 2012

## **8. Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol**

---

### **Codau ymarfer a fframwaith canlyniadau cenedlaethol**

#### *Cefndir*

345. Mae adran 121 yn Rhan 8 o'r Bil yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i ddyroddi codau ymarfer i awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ar arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i godau o'r fath gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad.

346. Mae Rhan 9, Pennod 1 o'r Bil yn cynnwys dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi a chyflwyno i'r Cynulliad 'ddatganiadau canlyniadau cenedlaethol' (adran 137) yn nodi canlyniadau darparu gofal a chymorth. Caiff codau ymarfer (adran 138) eu dyroddi i helpu i wireddu'r canlyniadau penodedig a gallant osod gofynion ar awdurdodau lleol, yn cynnwys safonau, mesurau a thargedau. Yn wahanol i godau a ddyroddir o dan adran 121, rhaid i awdurdodau lleol gadw at godau a ddyroddir o dan adran 138.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

347. Roedd y dystion yn gyffredinol yn cefnogi'r cyngion am fframwaith canlyniadau cenedlaethol ond cyfeiriodd llawer at sut y byddai'r cynigion yn gweithio'n ymarferol.

348. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Confederaliwn GIG Cymru:

"The proposed National Outcomes Framework is a key provision in the Bill, and has the potential not only to provide robust assessment of the effectiveness of the provisions within the Bill, but also has the potential to be a powerful driver in its own right. Of particular importance is the opportunity for the development and implementation of Performance Indicators shared by all the partners who have a contribution to make to population wellbeing, along with social services providers themselves. Shared accountability for the achievement of shared Performance Indicators will be a powerful catalyst to partnership working."<sup>297</sup>

349. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig soniodd y Bwrdd Cynghorau lechyd Cymuned am yr angen i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu canlyniadau cenedlaethol, gan ddweud:

---

<sup>297</sup> SSW 84, Tystiolaeth Ysgrifenedig

“The Bill is right to stress the importance of measuring and monitoring outcomes, and we look forward to seeing the outcomes framework. We trust these will be developed in partnership with stakeholders, including clients, carers and professionals. We would be pleased to participate in this work.”<sup>298</sup>

350. O ran Codau Ymarfer, dywedodd Mind Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

“The Bill refers to a Code of Practice and Regulations. Evidence from both the Mental Health Act Code of Practice for Wales 2007 and the Mental Health Measure Code of Practice 2010 demonstrate the need for an effective, robust and accessible Code of Practice, co-produced with individuals and a range of organisations, which is available from the point of implementation of law.

“Mind Cymru asks the Committee to consider seeking an amendment to include the need for the Code of Practice to be co-produced and published concurrently with the Bill.”<sup>299</sup>

351. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Sefydliad Partner wedi’i gydlynu gan Anabledd Cymru:

“Whilst supportive of the outcomes approach in principle, we are concerned that the Bill and Explanatory Memorandum do not provide a strong enough vision for how this will be achieved. We suggest that the approach outlined in the Bill and Explanatory Memorandum is in practice likely to be more managerial than transformational, with an emphasis on organisational performance measures and targets rather than on achieving personal outcomes. This leaves us concerned that the end result will be “business as usual”, with an increase in bureaucracy rather than a reduction, and power and control still firmly in the hands of local authorities.”

352. Mae'r Sefydliad Partner wedi’i gydlynu gan Anabledd Cymru yn argymhell mabwysiadu dull *Scottish Talking Points Personal Outcomes Approach* i ddatblygu dull dan arweiniad y dinesydd o wireddu canlyniadau personol ar draws y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.

[...]

---

<sup>298</sup> SSW 86, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>299</sup> SSW 57, Tystiolaeth Ysgrifenedig

"We propose that WG should consider incorporating the Talking Points Personal Outcomes Approach, rather than the Results Based Accountability Approach, at the heart of the National Outcomes Framework."<sup>300</sup>

353. Dywedodd Plant yng Nghymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

"b) The importance of the National Outcomes Framework is fundamental to the success of improving children's lives. This needs close scrutiny and there can't be more than one outcomes framework for all agencies to work towards without causing confusion."<sup>301</sup>

354. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

"The Bill is weighted towards enabling the provision of regulation and at this time it is not clear if this regulation will provide stronger national direction with clear local accountability for delivery. [...] While I understand the need for innovative services that can respond flexibly to local needs I do have concerns that this may lead to further inconsistencies in relation to the ways in which the care and support needs of children are met, dependent on where they live."<sup>302</sup>

355. Wrth gyfeirio at y ddyletswydd arfaethedig ar Weinidogion Cymru i annog gwelliannau mewn gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol ac i gyhoeddi ac adolygu datganiadau ynghylch canlyniadau cenedlaethol, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru ymhellach:

"I would hope that such an approach would help to reduce incidents where standards at the local authority level slip to a point where there are concerns about the ability of services to promote the welfare of and safeguard children and young people. The usefulness of a National Outcomes and Standards Framework as a means of securing implementation and holding services to account should be informed by the lessons learnt through the process for delivery of the NSF for Children, Young People and Maternity Services (2005). The fact that duties to scrutinise delivery on the standards was left to those responsible for delivery has arguably had an impact in relation to weak implementation of NSF Standards."<sup>303</sup>

---

<sup>300</sup> SSW 57, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>301</sup> SSW 77, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>302</sup> SSW 58, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>303</sup> SSW 58, Tystiolaeth Ysgrifenedig

356. Ychwanegodd:

"There is a need to be more specific within the Bill about the processes that will be introduced in relation to monitoring implementation and progress against the outcomes frameworks, without this it is difficult to assess if the proposed changes will support a process of robust accountability in the best interests of the child."<sup>304</sup>

357. Mynegodd CLILC bryder yn ei thystiolaeth ysgrifenedig atodol fod y pwerau ynglŷn â chodau yn breinio mwy o bŵer yng Ngweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau nag a welwyd o'r blaen, ac ychwanegodd:

"2. Section 125 highlights this stating that 'The Welsh Ministers may direct the Local Authority to take any action which the Welsh Ministers consider appropriate for the purpose of securing the exercise of functions by the authority in accordance with the requirement in the relevant code.' This provision is in addition to those powers of intervention by central Government prescribed in provisions 126-134.

"3. As such we are not persuaded by the current drafting of the Bill in relation to the broad powers conferred on Welsh Ministers to direct authorities and to issue codes. Additionally we are concerned about the prescribed powers in section 138 (3) (4) to identify measures within codes which relate to standards, measures, targets, and specification of categories. We would advocate for clarity from the Welsh Government, around the specific areas for which they intend to issue codes, and for a dialogue around how any performance measures, standards or targets enshrined within codes would align to existing performance measures. Only in this way can we avoid a disproportionate level of regulations.<sup>305</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

Dyweddodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

"The Bill provides the framework to enable joint working; regulations and the codes of practice will develop the details as to how that must

---

<sup>304</sup> SSW 58, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>305</sup> HSC(4)-18-13(ptn2), 6 Mehefin 2013

happen, and they will be subject to the affirmative procedure and subject to consultation.”<sup>306</sup>

#### *Ein Barn Ni*

**Nodwn fod adran 122 o'r Bil yn darparu i Weinidogion Cymru ddyroddi a chyhoeddi cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Bil. Nodwn hefyd fod adran 123 yn galluogi awdurdod lleol i wyro oddi wrth ofynion mewn codau ond wrth wneud hynny rhaid iddo ddilyn y weithdrefn a nodir yn yr adran hon o'r Bil, hysbysu Gweinidogion Cymru o'i resymau a nodi'i bolisi amgen neu'i gwrs gweithredu arfaethedig.**

Rydym yn pryderu y gallai'r darpariaethau hyn alluogi awdurdod lleol i wyro oddi wrth unrhyw godau ymarfer yn ymwneud â'r mein prawf cymhwystera cenedlaethol. Credwn y gallai hyn danseilio'r sail resymegol dros gael mein prawf o'r fath, sydd wedi'u bwriadu i sicrhau darpariaeth gwasanaethau gyfartal ar draws Cymru. Rydym yn argymhell, wrth i awdurdodau lleol wyro oddi wrth godau, fod rhaid iddynt gyhoeddi datganiad polisi ar y mein prawf cymhwystera y maen nhw'n bwriadu'u defnyddio a chael cytundeb Gweinidogion Cymru i wyro oddi wrth y cod.

**Nodwn y ddyletswydd yn adran 122 (1) o'r Bil, yn ymwneud â Gwneud, cymeradwyo a dirymu codau, fod 'rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy ynghylch drafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig)'. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn nodi sut y caiff rhanddeiliaid eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu codau drafft cyn i'r ymgynghori hwn ddigwydd.**

---

<sup>306</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 6 Mehefin 2013

## **9. Cydweithredu a Gweithio mewn Partneriaeth**

---

### *Cefndir*

358. Mae Rhan 9, Pennod 2, yn cyflwyno darpariaethau newydd i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth wrth ddarparu gwasanaethau.

### **Cydweithredu a Gweithio mewn Partneriaeth**

359. Yn achos oedolion, mae'n ofynnol yn ôl adran 143 i awdurdodau lleol hyrwyddo cydweithredu gyda phartneriaid penodedig (yn cynnwys awdurdodau lleol eraill, gwasanaethau heddlu a phrawf a darparwyr iechyd), fel y nodir yn adran 143 (3) ac mae adran 143 (6) yn nodi'r mathau o bethau y caiff partneriaid eu gwneud o dan drefniadau o'r fath.

360. Mae adrannau 147 – 150 yn darparu ar gyfer rhagnodi trefniadau partneriaeth rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd drwy reoliadau.

### *Tystiolaeth gan Dystion*

361. Clywsom grym lawer o dystiolaeth ar fater cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, yn arbennig mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y rhan fwyaf o dystion yn gyffredinol wedi croesawu'r darpariaethau ynglŷn â chydweithredu a phartneriaethau yn y Bil, mae rhai wedi mynegi pryderon nad yw'n creu dyletswyddau digon cryf, yn enwedig yn achos partneriaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

362. Teimlai dystion o lywodraeth leol y dylai'r dyletswyddau i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth gael eu cryfhau. Gan gyfeirio at iechyd a gofal cymdeithasol, dywedodd CLILC:

“As the Bill stands, and I alluded to this earlier, there is a danger in just saying, ‘We will have a duty to promote collaboration’, as it does not place that duty on us and, in fact, it seems to be even less clear than the current requirements that we have under the National Health Service Act 2006, which requires us to co-operate.”<sup>307</sup>

363. Credai CLILC hefyd fod angen i'r gofynion i weithio mewn partneriaeth â'r sector annibynnol fod yn gliriach yn y Bil.<sup>308</sup> Roedd rhai dystion o'r sectorau gwirfoddol ac er-elw yn rhannu'r farn hon.

---

<sup>307</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 227, 18 Ebrill 2013

<sup>308</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 241, 18 Ebrill 2013

364. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Age Cymru:

“The Explanatory Memorandum lists another purpose of the Bill as to, “Strengthen collaboration, provide a framework for integration of key services.

“We do not feel this will be achieved with the current drafting. We and other members of the advisory group are concerned that the role of partners (such as Local Health Boards) remains unclear. We are unsure how the Bill extends the role of partners beyond that which is already in place.”<sup>309</sup>

365. Dywedodd Fforwm Gofal Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig y dylid gorfodi partneriaid gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd i weithio gyda'i gilydd i gomisiynu a darparu gwasanaethau cymunedol.<sup>310</sup>

366. Ymdriniodd Cyngor Gofal Cymru hefyd â phwerau cydweithio, gan ddweud:

“Unless social services have powers to enforce health to become involved or health has a duty to get involved when requested by social services, this will not be robust enough to make any difference.”<sup>311</sup>

367. Gwnaed nifer o bwyntiau pellach ynglŷn ag integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ni theimlent fod y darpariaethau yn y Bil yn mynd yn ddigon pell. Dywedodd CLILC:

“We strongly believe that the NHS must be full and equal partners, mandated by legislation, in the development of truly integrated models of care if the vision set out in the programme of Government is to be achieved

[...]

“Certainly we believe that the inclusion in the Bill of greater powers to require integration with health is fundamental. There is a real and genuine opportunity to demarcate a Welsh approach to integration, where it is of added value to do so. However as currently drafted, the

---

<sup>309</sup> SSW 66, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>310</sup> SSW 65, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>311</sup> SSW 30, Tystiolaeth Ysgrifenedig

Bill does not present a clear vision around the integration agenda, nor provide a stronger mandate than already exists to take integration forward.”<sup>312</sup>

368. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

“...Government needs to be sure that the NHS is obliged to participate fully and not only to co-operate when required to do so by local government. Otherwise, the Bill’s provision runs the risk of disengagement by the NHS leading to disjointed assessment processes, confusion over who is accountable for the provision of services for agencies and for service users, an increase in complaints due to unworkable care and support plans, an incomplete local offer to citizens and limited use of joint commissioning and pooled budgets where these are appropriate. Social care has to be regarded as having equal status with health, not a subordinate one, if partnership working is to be a joint responsibility and to have positive outcomes.”<sup>313</sup>

369. Ymdriniai tystiolaeth ysgrifenedig gan Gynhalwyr Cymru hefyd â sut y byddai integreiddio’n gweithio’n ymarferol, a chododd y materion canlynol:

“We [...] welcome that the Bill will enable Welsh Government to enhance and impose new duties on health and social services, however health and social services already have a duty to work together under existing law and we seek clarification about how the new legislation will provide the legal basis to ensure that this rhetoric becomes a reality.

“The conflict between health and social care is historic. In our opinion the Bill seems to miss this valuable opportunity to close the gap between the political rhetoric to drive forward through legislation this joint working and close this organisational divide. We would like to see the law mandated to encourage more shared working, shared budgets and encourage more joint commissioning of services.”<sup>314</sup>

370. Roedd tystion a oedd yn cynrychioli grwpiau defnyddwyr hefyd yn bryderus ynglŷn â’r angen i gryfhau cydweithredu a gweithio mewn

---

<sup>312</sup> SSW 51, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>313</sup> SSW 50, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>314</sup> SSW 23, Tystiolaeth Ysgrifenedig

partneriaeth, a chyfeiriwyd at Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010<sup>315</sup> a rheoliadau cysylltiol fel enghraifft lwyddiannus o ofynion cydweithio. Pwysleisiodd tystion eraill bwysigrwydd cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill, yn arbennig addysg yn achos plant a phobl ifanc.

371. Fodd bynnag, roedd tystion o'r gwasanaeth iechyd yn llai argyhoeddedig o'r angen am fwy o ragnodi ynglŷn â chydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Dywedodd Conffederasiwn y GIG:

“...the development of integrated services does not necessarily depend on formal partnerships and pooled budgets. We are very clear on that. We are talking about shared vision, agreed priorities, trust, and open and accountable partnership working [...]. Very clear outcomes are also part of the vision.”<sup>316</sup>

372. Ychwanegodd:

“We need to avoid a nationally prescribed approach to partnership and integration to ensure that there is still enough local flexibility to meet local needs.

[...]

“It goes back to the governance arrangements and those sorts of things.”<sup>317</sup>

373. Eglurai llythyr ar y cyd gan CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru eu safbwyt nhw ynglŷn ag integreiddio a gweithio mewn partneriaeth, gan ddweud:

“As articulated in previous evidence to the Committee, our view is that the current provision on the face of the Bill (s143) dilutes existing legislation in relation to integration and partnership working<sup>318</sup> and appears to be an unambitious response, given the scale of the challenge. Our joint view is that the legislation as currently drafted would do relatively little to facilitate genuine collaborative working on the ground and, whilst intending to be enabling, it could undermine existing statutory duties.

---

<sup>315</sup> [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#)

<sup>316</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 16 Mai 2013

<sup>317</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 16 Mai 2013

<sup>318</sup> [Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) 2006 \(Rhan 3, Adran 33\)](#)

“We believe the Bill needs to provide a clear vision for integration, enabling local authorities, the NHS and other partners to work constructively together whilst recognising their distinctive contributions. It should require local authorities and NHS to work in partnership, through local statements of intent, appropriate joint governance mechanisms, and proportionate shared performance management arrangements.

“As such, we would advocate that the existing provision within the Bill is strengthened by adding provisions that draw on those already enshrined within the Carers Strategies (Wales) Measure 2010<sup>319</sup> and the Mental Health (Wales) Measure 2010,<sup>320</sup> in relation to joint strategies or schemes.”<sup>321</sup>

374. Mewn tystiolath ysgrifenedig, pwysleisiodd y Fonesig June Clark, (Athro Emeritws Nysrio Cymunedol, Prifysgol Abertawe (wedi ymddeol)) yr hyn y mae hi'n ei weld fel cryfderau model yr Alban o ofal integredig a dywedodd y dylai Cymru fabwysiadu'r drefn hon:

“...local authorities and health boards are required to establish Partnership organisations with a pooled budget, a single CEO accountable to both authorities, and the right to employ the full range of staff required to deliver integrated care.”<sup>322</sup>

375. Dywedodd hefyd y dylai cydweithredu rhwng y GIG ac awdurdodau lleol fod yn orfodol.<sup>323</sup>

376. Gofynasom i'r Fonesig Clark egluro ymhellach ei barn am fodel yr Alban a materion yn ymwneud ag atebolrwydd a threfniadau llywodraethu yng nghyswllt cyllidebau cyfun a sut y dylent gael eu gwario gan Brif Swyddog Gweithredol sy'n adrodd i ddau sefydliad gwahanol, sydd â dau strwythur gwahanol o ran atebolrwydd a llywodraethu.

377. Wrth ymateb, egluroodd y Fonesig Clark fel hyn:

“My personal position on the issue of accountability is that I am willing to say right up front that I believe that health boards should be elected. Having said that, you asked about the Scottish model. The relevant bit in the Scottish Bill is very explicit: the two authorities are

---

<sup>319</sup> [Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr \(Cymru\) 2010](#)

<sup>320</sup> [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#)

<sup>321</sup> HSC(4)-18-13(ptn21), 6 Mehefin 2013

<sup>322</sup> HSC(4)-18-13(p3), 6 Mehefin 2013

<sup>323</sup> HSC(4)-18-13(p3), 6 Mehefin 2013

required to set up what they call a partnership board. However, the partnership board is not a committee for talking; it is an organisation for delivering services, with a single chief executive officer, who is accountable to both authorities.”<sup>324</sup>

378. Ar y mater hwn, ychwanegodd yr Athro Ceri Phillips (Athro Economeg Iechyd ym Mhrifysgol Abertawe):

“One authority and accountability within one agency or authority would be the ideal situation. There are examples of that around the world, such as in Scandinavia, where there are county councils that have health and social care. I think that the Republic of Ireland has health boards. However, we are not contemplating that model. One would like to think that, in drawing up the job specification for the CEO, there would be a clear perspective that he or she would be accountable to a joint body, as opposed to two separate bodies. The organisations need to reflect that, so that it is not just the CEO who has to be accountable, but there is a body that, in a sense, emerges from the two distinct agencies to oversee that.”<sup>325</sup>

379. Wrth ymateb i gwestiynau pa un a yw'r Bil yn pennu'r strwythur iawn i sicrhau'r integreiddio a ddymunir a chyflenwi ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, dywedodd y Fonesig Clark wrthym:

“The short and frank answer to your question is that I do not believe that the structure set out will deliver on the policy intention. The reason for that is that for the last 25 years, and several times in my working experience, legislation, documents and strategies have required health authorities and local authorities to co-operate and talk about co-operation. However, this has not happened. I believe that, in this Bill, we now have an opportunity to do something about that. I think that there are lessons in the Scottish provision, which is, chronologically, a little ahead of ours, that could be learnt to enable us to achieve what we want.”<sup>326</sup>

380. Wrth egluro'r farn hon ymhellach, dywedodd y Fonesig Clark wrthym:

“The simple, but not easy, answer would be: everywhere in the Bill where the word ‘may’ is used, the word ‘may’ should be replaced by something stronger like ‘require’. That is what the Scottish Bill does.

---

<sup>324</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 270, 6 Mehefin 2013

<sup>325</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 273, 6 Mehefin 2013

<sup>326</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 256, 6 Mehefin 2013

It requires local health boards, health authorities and local authorities to do things. The second thing is that the word ‘co-operate’ is very soft and ambiguous. I am anxious that we should have something that affects the delivery of service. I remember very well, back in 1990 when the Act came in, I was chief nurse to Harrow health authority, part of its multidisciplinary management team, and we specifically set up, in response to that legislation, a committee—another one—to co-operate. We talked and talked and talked, the services stayed exactly the same and we did nothing. I do not believe that our experience there was atypical in any way. We have had permissive legislation for 25 years. I said in the first part of one of my papers that the select committee’s report in 2011 said that we need to move beyond arguing for integration to making it happen. I do not see enough in this Bill, although I welcome it and there is a heck of a lot in it that is really good. However, that bit is just not strong enough. I would be really sad if we missed what I see as a once-in-a-lifetime opportunity.”<sup>327</sup>

381. Ar fater gwahanol, roedd cynrychiolwyr o Gyngor Gofal Cymru’n pryeru y gallai maint a chymhlethdod yr agenda cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth fwrw elfennau eraill yn y Bil i’r cysgod.<sup>328</sup> Awgrymwyd gan gynrychiolwyr o’r GIG y byddai Bil ar wahân yn fwy priodol efallai.<sup>329</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

382. Pan ofynasom a oedd yn hapus y bydd y Bil yn gwired du’r lefelau angenrheidiol o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Yes, I am. It is section 146, I think, that will ensure that we do have the powers in regulation to ensure that there is integration.”<sup>330</sup>

383. Mynegodd y Dirprwy Weinidog hefyd ei chred bod pwerau i lunio rheoliadau yn well na rhoi dyletswyddau pendant ar wyneb y Bil.

384. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig atadol, rhoddodd y Dirprwy Weinidog ateb i’r cwestiwn a ddylid ei gwneud yn ofynnol i iechyd a’r gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda’i gilydd:

---

<sup>327</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 260, 6 Mehefin 2013

<sup>328</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 256, 16 Mai 2013

<sup>329</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 16 Mai 2013

<sup>330</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 18 Ebrill 2013

“Mewn perthynas â'r mater hwn, rhagdybiaf fod y cwestiwn yn codi yn nhermau gweithio mewn partneriaeth, gan fod y ddarpariaeth yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol arfer y swyddogaethau perthnasol mewn perthynas â gweithio integredig a chydweithredu. O ran gweithio mewn partneriaeth, nid yw'r defnydd o'r gair ‘gallai’ yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â phenderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau o'r fath. Rwy'n llawn fwriadu gwneud hynny a byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.”<sup>331</sup>

385. Mewn ymateb i awgrymiadau y dylai'r Bil gael ei gryfhau i sicrhau integreiddio a gweithio mewn partneriaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn cynnwys pwerau i wneud gweithio integredig yn ofynnol. Eglurodd y Dirprwy Weinidog fod y pwerau hyn wedi'u cynnwys yn adran 147 ac y byddent yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol. Dywedodd:

“It is in section 147, ‘Partnership arrangements’. Subsection (1) reads:

Regulations may require specified partnership arrangements to be made by—

- (a) two or more local authorities, or
- (b) one or more local authorities and one or more Local Health Boards”.

“So, that “may” refers to Welsh Ministers, and not to local authorities and the NHS. Welsh Ministers may require joint working between health and social services.”<sup>332</sup>

386. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog hefyd at adran 146 o'r Bil sy'n dweud bod rhaid i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gyda golwg ar integreiddio darpariaeth gofal a chymorth gyda darpariaeth iechyd.

#### *Ein Barn Ni*

Rydym yn croesawu'r farn ar y cyd oddi wrth Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Conffederasiwn y GIG a CLILC fel y'i nodwyd yn eu llythyr ar y cyd dyddiedig 3 Mehefin 2013. Rydym yn rhannu'u pryderon y gallai'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, wanhou yn

<sup>331</sup> HSC(4)-18-13(ptn13), 6 Mehefin 2013

<sup>332</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 88 – 90, 6 Mehefin 2013

hytrach na chryfhau cydweithredu a gwaith mewn partneriaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

**Rydym wedi'n hargyhoeddi gan y dystiolaeth a gafwyd o blaid iechyd a gofal cymdeithasol cwbl integredig a chredwn y byddai Bil ar wahân ar ofal integredig, tebyg i'r drefn ddeddfwriaethol sy'n cael ei hystyried ar hyn o bryd yn yr Alban, yn cynnig gwell cyfle i ymdrin â'r rhwystrau rhag gweithio mewn modd integredig. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried dod â Bil ar wahân gerbron ar y mater hwn.**

**Pe na bai'r Dirprwy Weinidog o blaid derbyn ein hargymhelliaid yn galw am Fil ar wahân, rydym yn argymhell y dylid cryfhau adrannau 147, 148 a 149 drwy newid pob cyfeiriad yn yr adrannau hyn o 'caiff' i 'rhaid i'.**

### **Rhwystrau rhag cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth**

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

387. Dywedai dystiolaeth ysgrifenedig gan y Fonesig Clark y dylai'r llinell rannu bendant rhwng gofal gan y GIG a gofal gan awdurdod lleol sydd wedi'i nodi yn y Bil yn Rhan 4, adran 31, gael ei dileu neu ei hailsgrifennu'n llwyr.<sup>333</sup> Cred y dylai fod gan awdurdodau lleol y gallu i gyflogi gweithwyr proffesiynol sydd â chymwyseddau iechyd a gofal cymdeithasol, ac y dylid dileu'r cyfyngiadau sydd wedi'u nodi yn y Bil. Dywedai ei thystiolaeth ysgrifenedig:

"Clause 31 sections 4 and 5 specifically forbid "providing or arranging for the provision of nursing care by a registered nurse"

[...]

"I recognise that subsequent clauses do allow exceptions to these restrictions – more scope for variable interpretation, necessity for procedures and protocols for dealing with disputes etc. It is far simpler to remove the restrictions than to try to spell them out in detail along with the exceptions."<sup>334</sup>

388. Wrth ymateb i gwestiynau ynglŷn â sut y gellid gwella'r Bil o safbwyt asesu, dywedodd y Fonesig Clarke:

---

<sup>333</sup> HSC(4)-18-13(p3), 6 Mehefin 2013

<sup>334</sup> HSC(4)-18-13(p3), 6 Mehefin 2013

“I think that the answer to your question lies in the concept of pooled budgets. It is not in separate budgets, with two organisations protecting their own and saying, I do not care who pays for this, as long as it is not me. If you talk to district nurses and assessors at the ground level, that culture is there. One can understand it, even if you do not agree with it. So, a pooled budget would be the first thing. Then, in terms of the assessment, if you have a pooled budget, you need only one assessment to discover what the care needs are and what is needed by way of a care plan to meet those needs. It is only when that is out of the way that you are in a position to move on.”<sup>335</sup>

389. Ymdriniodd yr Athro Philips ymhellach â hyn gan ychwanegu:

“Under the current system, organisations and professionals are incentivised to switch and shift cost, as opposed to incurring the cost. The positive thing about pooled budgets is that that would not be the case. The issue with assessment is more difficult. Assessment is undertaken by professionals who have their own particular frameworks and their own agendas. It has been shown in oncology, for example, that where you get multidisciplinary assessment, you get better patient outcomes, because the oncologists are working alongside the nurses, the surgeons and others who are involved in the care of that patient. The assessment of the patient is more of a whole-person assessment. What we tend to get in health and social care is that the nurse does an assessment and will think that the particular patient requires the services that the nurse can provide, whereas the social worker will think that the service user will need the services that social services can provide.”<sup>336</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

390. Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynglŷn ag adran 31(4) a (5), sy'n gwahardd awdurdodau lleol yn benodol rhag diwallu anghenion am ofal a chymorth ‘drwy ddarparu neu drwy drefnu i ddarparu gofal nysio gan nyrs gofrestredig’, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n awgrymu y gall problemau godi yn sgil caniatáu i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion am ofal a chymorth yn y ffordd hon.<sup>337</sup>

---

<sup>335</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 265, 6 Mehefin 2013

<sup>336</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 266, 6 Mehefin 2013

<sup>337</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 125, 6 Mehefin 2013

391. Yn llythyr y Dirprwy Weinidog dyddiedig 11 Mehefin 2013 rhoddodd eglurhad pellach ynglŷn â'r materion a godwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith. Dywedodd:

"It is important to understand that creating a distinction in law between the kinds of services which Local Health Boards, or other health bodies, provide and the kinds of service which local authorities provide in the exercise of their Social Services functions, is entirely different to the issue of how those two bodies should work together at an operational level to ensure that services for individuals are well planned and coordinated. It is clearly important that there is a clear delineation in law between the services which the citizen can expect to receive from the health service and those which they expect to receive from social services. Failure to do this would create confusion. The Law Commission in its 51st recommendation, said that the existing prohibition in relation to nursing be maintained alongside the prohibitions in relation to other services which are required to be provided under "the NHS (Wales) Act 2006. Section 31 provides for that clarity. The issue of how services are coordinated on the ground, and in the care plans for individuals in need, is very important but is a separate matter. The Bill places clear duties on health partners to co-operate with local authorities in discharging their functions to assess and meet the care and support needs of an individual as well as assessing and planning for their population's needs (Sections 145 and Section 5 of the Bill refer)."<sup>338</sup>

#### *Ein Barn Ni*

**Nodwn a chytunwn â barn tystion sy'n galw am gael gwared â'r rhwystrau rhag gweithio integredig sydd wedi'u nodi yn adrannau 31 (4) a (5) o'r Bil, sy'n gwahardd awdurdod lleol rhag diwallu angen person am ofal a chymorth, o dan adrannau 21 i 29, drwy ddarparu neu drefnu i ddarparu gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig. Credwn y dylai awdurodau lleol fod â'r gallu i gyflogi gweithwyr proffesiynol â chymwyseddau iechyd a gofal cymdeithasol, ac rydym yn argymhell bod y cyfyngiadau sydd wedi'u nodi yn adrannau 31 (4) a (5) yn cael eu dileu.**

**Nodwn y darpariaethau yn adrannau 147 – 150 sy'n darparu ar gyfer rhagnodi trefniadau partneriaeth rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd drwy reoliadau. Rydym yn argymhell bod angen i reoliadau o'r fath amlinellu manylion y**

---

<sup>338</sup> HSC(4)-22-13(ptn1), 1 Gorffennaf 2013

**trefniadau llywodraethu proffesiynol er mwyn atal anghydfodau rhwng partneriaid ynglŷn â sut y dylai trefniadau o'r fath weithredu.**

### Cydweithio a chyllidebau cyfun

#### *Cefndir*

392. Mae adrannau 143 a 147 yn darparu ar gyfer sefydlu “cronfeydd cyfun” drwy reoliadau yn achos adran 147. Mae adran 151 yn darparu ar gyfer cronfeydd cyfun lle gwneir trefniadau ar y cyd ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu.

#### *Tystiolaeth gan Dystion*

393. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth ysgrifenedig fod angen mwy o rannu adnoddau rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn i'r Bil Iwyddo.

394. Roedd gan BASW Cymru farn gref y dylai cyllidebau gael eu cyfuno ac y dylai cyfuno cyllidebau fod yn ddyletswydd gan fod gormod o fiwrocratiaeth. Dywedodd mewn tystiolaeth lafar:

“We feel that budgets need to be pooled. The question was about health pooling its budgets, I think. BASW Cymru believes that there is too much bureaucracy between the different hoops and hurdles that people have to go through. There are lots of examples across Wales of people having to go to one board and panel and fill out numerous forms to get one part of their care package sorted from one agency and then going through a similar process with another organisation. If we are about being person-centred and person-focused, it is about making sure that the services and the systems fit around the individuals to meet their needs, rather than the individual fitting around the systems. So, we would totally support that. We would need to make sure that that is done properly. There are ways of doing that to some degree at the moment, but it does not happen across Wales. It is sporadic in different places; there is evidence of good practice in some areas, but it needs to be broadened out and become a duty.”<sup>339</sup>

395. Roedd Age Cymru'n rhannu'r pryderon hyn ac awgrymodd y dylai fod dyletswyddau cliriach yn y Bil ar i wasanaethau iechyd gyfuno cyllidebau.<sup>340</sup>

---

<sup>339</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 2 Mai 2013

<sup>340</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 2 Mai 2013

396. Mewn dystiolaeth lafar, mewn perthynas â chyfuno cyllidebau awgrymodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y dylai rôl gwasanaethau iechyd cymuned yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac iechyd gael nodi ar wyneb y Bil.

397. Ar y mater hwn dywedodd Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru wrthym:

“There are examples in Wales where pooled budgets are working quite well; there are examples in the Conwy area, particularly in mental health, where there are joint posts that straddle health and social care. If you look at the mental health Measure and the secondary legislation around that, which talks about regional boards and the duties of health boards and local authorities to work together, you will see that there is a lot of learning that could be brought in from that existing legislation. I know that we are saying this again and that we keep referring to the Measure, but that is because it has some good examples of lots of different ways of doing things.

[...]

“It is not just about putting it in a piece of legislation; it is about making it a reality. There is an opportunity to have a reference, either in the Bill or in the regulations that sit around it, that takes on board what has happened in the Measure around how local authorities and local health boards work together and include the pooling of budgets. It should be noted that, in the context of the mental health Measure, it is included in secondary legislation because local health boards and local authorities said that they wanted to work together, so there was an appetite there for coming together. On whether it should be on the face of the Bill or in secondary legislation, I am not sure whether putting it in the Bill means that it is stronger, but there could also be the argument that it seems to be working okay sitting in secondary legislation in the context of the mental health Measure, so why not have parity across the two sets of legislation?”<sup>341</sup>

398. Mynegodd Confederaliwn y GIG ei wrthwynebiad i gynnwys cyllidebau cyfun gorfodol ar wyneb y Bil.<sup>342</sup>

---

<sup>341</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 58, 2 Mai 2013

<sup>342</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 16 Mai 2013

### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

399. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn hapus y bydd y Bil yn cyflawni o ran cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio a rhoddodd yr ymateb canlynol i gwestiwn gan Elin Jones AC ynglŷn â chyllidebau cyfun:

“I ddechrau yn y dechrau, credaf y gallai'r egwyddor hon fod yn genedlaethol. Hoffwn weld cysondeb yn y dull o integreiddio hwn drwy Gymru gyfan. Fodd bynnag, gall hynny hefyd fod yn fater o ddatblygu polisiau yn lleol, o fewn y fframwaith cenedlaethol. Gwyddom y bydd fframwaith cenedlaethol ar ganlyniadau, a dyna fydd yn egwyddor flaengar o ran y ddeddfwriaeth hon. Felly, gall y ddau fodoli a gallai fod yn ofynnol i gael fframwaith cenedlaethol a hyblygrwydd yn lleol hefyd i ddatblygu hynny. Credaf fod cyfuno'r gyllideb yn bwysig iawn. Mae hynny yn digwydd, wrth gwrs.”<sup>343</sup>

400. Mewn ymateb i gwestiwn pa un y byddid yn ystyried cynnwys cyllidebau cyfun ar wyneb y Bil, yn hytrach nag mewn rheoliadau, ymatebodd y Dirprwy Weinidog drwy ddweud:

“Mae cyfuno cyllidebau yn digwydd ar y foment, wrth gwrs, ac mae esiamplau gwych o hynny'n digwydd. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid i ni bod yn ofalus faint rydym yn rhoi ar wyneb y Bil oherwydd, fel y bu imi ddweud, mae'n rhaid ein bod yn gallu newid rheoliadau os oes angen gwneud hynny yn y dyfodol.”<sup>344</sup>

401. Codasom fater cyfuno cyllidebau rhwng y GIG a'r awdurdodau lleol gyda'r Dirprwy Weinidog. Gofynasom iddi a oedd cyfuno cyllidebau'n broblem am fod gwasanaethau'r GIG am ddim yn y man darparu, ac nad yw gwasanaethau Llywodraeth Leol bob amser yn ddi-dâl i unigolion. Mewn ymateb, dywedodd:

“Nid wyf yn ymwybodol bod problem. Nid yw'r Bil yn newid y ffaith bod y gwasanaeth iechyd am ddim ac nad yw gwasanaethau cymdeithasol yr un peth. Nid wyf yn gweld problem. Nid yw'r Bil yn gyfyngedig i wasanaethau cymdeithasol—mae'n ymestyn i'r gwasanaeth iechyd hefyd, ac mae hynny yn bendant yn y Bil. Er ein

<sup>343</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 18 Ebrill 2013

<sup>344</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 18 Ebrill 2013

bod yn ei alw yn Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'n ymestyn mewn cyfraith i'r gwasanaeth iechyd hefyd.”<sup>345</sup>

402. Wrth ymdrin â chyllidebau cyfun mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, dywedodd:

“...an important component in helping us to achieve my commitment to integrated and collaborative working across Social Services and the NHS”.

A

“Paragraph 178 of the Explanatory Memorandum states that we will be developing an implementation plan in parallel with the passage of the Bill and it will be this document that will set out further detail regarding this and other issues.”<sup>346</sup>

*Ein Barn Ni*

**Nodwn farn tystion fod angen mwy o rannu adnoddau rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol er mwyn i'r Bil Iwyddo. Credwn y byddai defnyddio mwy ar gyllidebau cyfun yn helpu gwaith drwy bartneriaeth ac yn hyrwyddo'r cydweithredu di-dor y mae partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yn galw amdano.**

**Mae ein hargymhelliaid 50 yn adlewyrchu ein barn y dylid cryfhau'r darpariaethau yn adran 148 o'r Bil, sy'n darparu y caiff awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol dalu tuag at sefydlu a chynnal trefniadau partneriaeth drwy wneud taliadau'n uniongyrchol neu drwy dalu i 'gronfa gyfun' a thrwy ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill.**

---

<sup>345</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 18 Ebrill 2013

<sup>346</sup> FIN(4)-07-13(p1), 24 Ebrill 2013

## **10. Cwynion a sylwadau**

---

### *Cefndir*

403. Mae Rhan 10 o'r Bil yn darparu ar gyfer y gweithdrefnau'n ymwneud â chwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys gwasanaethau plant.

404. Mewn perthynas â chwynion am Wasanaethau Cymdeithasol, mae'r Bil yn ailddatgan dyletswydd awdurdodau lleol i ddarparu cynhorthwy i bobl sy'n gwneud sylwadau neu gwynion yn ymwneud â phlant/pobl ifanc benodol.<sup>347</sup> Mae a wnelo'r rhain yn benodol â phlant sy'n derbyn gofal neu blant y gallai fod arnynt angen gofal a chymorth fel a amlinellir yn adran 155 o'r Bil.

405. Mae'r Bil hefyd yn darparu bod awdurdod lleol o dan ddyletswydd i wneud trefniadau i ddarparu cynhorthwy i blant sy'n gwneud sylwadau a hefyd i rai plant a oedd yn arfer derbyn gofal.

406. Mae Rhan 10, pennod 2 hefyd yn cynnwys pwerau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i gwynion am ofal cymdeithasol preifat a gofal lliniarol. Mae adran 161 yn darparu ar gyfer gwasanaethau eirioli annibynnol yng nghyswllt cwynion am ofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat.

### *Tystiolaeth gan Dystion*

407. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod y weithdrefn i ymdrin â chwynion yn ymwneud â gofal cymdeithasol yn anghyson â gweddill y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Awgrymodd y dylai'r weithdrefn cwynion gofal cymdeithasol adlewyrchu'r drefn yn y gwasanaeth iechyd yn enwedig gan fod a wnelo llawer o gwynion â gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. Ychwanegodd y dylai'r weithdrefn statudol bresennol gael ei moderneiddio i'w gwneud yn gyson â phrosesau cwyno eraill a dywedodd:

"Over the past couple of years, arrangements for complaint handling in respect of health and other public services devolved to Wales have been modernised and streamlined...these complaint handling processes now contain only two stages (informal resolution by frontline staff and one formal investigation). Those then remaining dissatisfied after the formal investigation stage can put their

---

<sup>347</sup> Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Adrannau 155-157

complaint to me as the Public Services Ombudsman for Wales for independent consideration.

“I understand that it [the Welsh Government] is intended to introduce a streamlined two stage approach for social care by regulation rather than through the Social Services and Well-being (Wales) Bill.”<sup>348</sup>

408. Dywedodd Diverse Cymru hefyd fod cymhlethdod gwahanol systemau cwyno yn gallu effeithio’n fawr ar ba un a yw pobl yn gwneud cwynion angenrheidiol.<sup>349</sup>

409. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y dylai’r broses er ymdrin â chwynion sy’n cwmpasu nifer o asiantaethau hefyd gael ei symleiddio, gan ddweud:

“In other jurisdictions in the United Kingdom and Ireland, health and social care complaints processes are the same; there is not a separate process for both. Increasingly...people with on-going health complaints and those with social care needs tend to be the same group of people and, quite often, they will move from one situation to the other. They are often getting care from a multiplicity of providers. It seems to me that there is no reason why you should not have either a single complaints process that covers all of it, or a set of complaints processes that are so compatible with each other that, from the perspective of the person making the complaint, it feels like a single, joined-up response.”<sup>350</sup>

410. Yn ystod tystiolaeth lafar, galwodd Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd am bŵer i’w alluogi i wneud adroddiadau ar ymchwiliadau yn gwbl gyfrinachol ar adegau pan fydd ef o’r farn fod hynny’n angenrheidiol. Dywedodd:

“At the moment, I have the power to issue an instruction to a body in my jurisdiction not to publicise; that is, to treat my report as confidential. However, that power does not bind any other parties in the case. So, potentially—and we have seen this happen—a complainant can decide to go to the press, even though, in doing so, information about vulnerable individuals can be revealed.

[...]

---

<sup>348</sup> SSW 12, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>349</sup> SSW 32, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>350</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 412, 18 Ebrill 2013

"However, on some occasions, if we are investigating an adult protection or child protection issue with vulnerable adults involved, there will be very few occasions where it is required, but nonetheless, we should be in a position to say, 'You must treat this report as confidential.'"<sup>351</sup>

411. Ar fater gwahanol, cyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y berthynas rhwng eirioli annibynnol a'r broses gwynion a dywedodd:

"...we are very strong supporters of an expansion of advocacy. A lot of the people we are talking about here are potentially very vulnerable—people with learning disabilities and mental health problems, as well as older people with dementia, so there are a lot of people who are not best placed to argue their own case. It should not just be those whose families are well placed to advocate for them who benefit—it needs to be available to everyone. Often, with advocacy it becomes easier to deal with complaints. An advocate will do a lot of the detailed work in presenting a complaint and so the work for my office is more manageable than it is with somebody who is having difficulty presenting their own complaint."<sup>352</sup>

412. Ychwanegodd:

"On balance, we have been strong advocates of advocates, and we have felt that there has been patchy access to advocacy in Wales for many groups, and we would very much like to see more."<sup>353</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

413. Nid yw'r Dirprwy Weinidog wedi gwneud sylwadau ar y mater hwn.

#### *Ein Barn Ni*

**Nodwn alwad Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru am bŵer i'w alluogi ef i wneud adroddiadau ar ymchwiliadau yn gwbl gyfrinachol ar adegau pan fydd ef o'r farn fod hynny'n angenrheidiol. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno bod angen pŵer o'r fath a chredwn y dylai adroddiadau'r Ombwdsmon fod yn eiddo i'r cyhoedd.**

**Cytunwn â'r Ombwdsmon y dylai'r broses er ymdrin â chwynion sy'n cwmpasu nifer o asiantaethau gael ei symleiddio. Rydym yn argymhell**

<sup>351</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 442, 18 Ebrill 2013

<sup>352</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 425, 18 Ebrill 2013

<sup>353</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 426, 18 Ebrill 2013

**bod y Dirprwy Weinidog yn ystyried y mater hwn a gofynnwn am eglurhad pellach ar ei chynigion o ran ymdrin â chwynion.**

**Nodwn farn yr Ombwdsmon ynglŷn â rôl eirioli annibynnol yn y broses gwnion a chytunwn â phwysigrwydd eirioli annibynnol yn darparu cynhorhwy i'r rhai y mae arnynt ei angen er mwyn cyflwyno'u cwynion yn effeithiol. Rydym yn trafod ac yn gwneud argymhellion ynglŷn ag eirioli annibynnol ym mhennod 5 o'r adroddiad hwn.**

## 11. Goblygiadau Ariannol

---

### Cost lawn y Bil

414. Dywed paragraff 132 o'r Memorandwm Esboniadol nad oes costau a buddion cywir yn hysbys eto mewn perthynas â'r Bil. Â ymlaen i ddweud y bydd y rheoliadau, pan gyflwnir nhw, yn darparu asesiad effaith cadarnhach o'r costau a'r buddion. Dywed hefyd fod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â pha mor gywir yw rhai costau a buddion sy'n cael eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

### Tystiolaeth gan Dystion

415. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth gan nifer o sefydliadau yn herio'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y Bil, ynghyd â'r lefel o fanylder yn y Memorandwm Esboniadol fel y'i drafftwyd.

416. Mewn tystiolaeth lafar dywedodd CLILC ei bod yn herio'r rhagdybiaethau ariannol yn y Bil mewn modd sylfaenol.<sup>354</sup> Roedd hefyd am gael cofnodi bod ganddi bryderon difrifol ynglŷn ag effaith y Bil o safbwyt adnoddau a'r risg o ymrwymo i'r dyletswyddau yn y Bil heb yn gyntaf wybod yr effaith ar adnoddau.<sup>355</sup>

417. Yn ei llythyr at y Pwyllgor ar 8 Mai, atgyfnerthodd CLILC ei phryderon gan ddweud:

"We have stated consistently that the Bill, by the nature of its scope, and the extent of new duties (as opposed to discretionary powers) which will be conferred on Local Government will involve new burdens and will not be cost neutral."<sup>356</sup>

[...]

"We remain concerned that the limited scope of the RIA will prove to be exceptionally misleading in that it underestimates the financial impact of proposed change."<sup>357</sup>

418. Yn ei llythyr dywedodd CLILC hefyd ei bod hi a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gwneud gwaith ar gostio goblygiadau ariannol gwahanol rannau o'r Bil ac y byddai'r

---

<sup>354</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 18 Ebrill 2013

<sup>355</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 245, 18 Ebrill 2013

<sup>356</sup> HSC(4)-18-13 (ptn 5), 6 Mehefin 2013

<sup>357</sup> HSC(4)-18-13 (ptn 5), 6 Mehefin 2013

adroddiadau a ddeilliai o hynny'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor unwaith y byddant wedi cael eu cwblhau.<sup>358</sup> Amlygodd CLILC hefyd rai costau nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o £1.43 miliwn i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ychwanegol fel a nodir yn y Bil a £770,000 os bydd y Bil yn arwain at 1,000 o asesiadau ychwanegol o ystyried ei fod yn ehangu'r hawl i asesiad.<sup>359</sup>

419. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi na fydd unrhyw gostau'n disgyn ar y GIG o ganlyniad i'r Bil. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig gan BILLau yn cwestiynu a fydd y Bil yn niwtral o ran cost, yn cynnwys ymateb gan BILI Cwm Taf a ddywedai:

“...it is unlikely that the Bill will be cost neutral. Resources may need to be invested differently within and between agencies to avoid additional pressures being felt disproportionately”.<sup>360</sup>

420. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cododd Conffederasiwn GIG Cymru bryderon ynglŷn â'r diffyg ystyriaeth a roddwyd i anghenion y gwasanaethau iechyd o ran adnoddau a chostau i weithredu'r Bil, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol. Tynnodd sylw'n benodol hefyd at y diffyg arian i ddarparu hyfforddiant i'r gwasanaethau iechyd a phartneriaid eraill er mwyn rhoi'r Bil ar waith.<sup>361</sup>

#### Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

421. Ar 25 Ebrill 2013, yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ynglŷn â'i waith yn craffu ar y Bil, dywedodd y Dirprwy Weinidog na allwn brynu'n ffordd allan o hyn a bod yna £3 miliwn ar gyfer rhoi'r Bil ar waith yn ychwanegol at y gyllideb hyfforddiant i staff y gwasanaethau cymdeithasol.<sup>362</sup>

422. Yn ei bapur inni, cyfeiriodd y Pwyllgor Plant a Phobl at oblygiadau ariannol y Bil gan ddweud:

“We ask the Health and Social Care Committee to note our concerns as to whether the Bill can be cost-neutral. We welcome their further scrutiny of this issue and specifically as it affects services to children, young people and their families.”<sup>363</sup>

<sup>358</sup> HSC(4)-18-13 (ptn 5), 6 Mehefin 2013

<sup>359</sup> HSC(4)-18-13 (ptn 5), 6 Mehefin 2013

<sup>360</sup> SSW 7, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>361</sup> SSW 84, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>362</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, paragraff 229, 25 Ebrill 2013 (pm)

<sup>363</sup> HSC(4)-15-13(ptn 7a), 8 Mai 2013

423. Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at y Dirprwy Weinidog ar 7 Mai yn gofyn pa wybodaeth ariannol fyddai'n cael ei darparu ar bob Cyfnod o'r Bil; y byddai wedi bod yn arfer gorau ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â chost y Bil cyn ei gyflwyno a bod y Pwyllgor yn bwriadu edrych eto ar y Bil unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael.

424. Yn ei llythyr at y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ar 20 Mai 2013,<sup>364</sup> mae'r Dirprwy Weinidog yn tynnu sylw at baragraffau 111, 112, 141, 143 a 144 o'r Memorandwm Esboniadol lle'r ymdrinnir ag arian ar gyfer rhai trefniadau trosiannol a hyfforddiant.

425. Mewn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor hwn ar 6 Mehefin 2013, dywedodd y Dirprwy Weinidog unwaith yn rhagor y byddai arian yn cael ei ddarparu ar gyfer trosglwyddo i'r drefn newydd a gweithredu'r Bil ac y cāi rhagor o wybodaeth ar y mater hwn ei darparu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn yr hydref.<sup>365</sup>

#### *Ein Barn Ni*

**Nid ydym yn fodlon â'r wybodaeth sydd wedi cael ei darparu ynglŷn â chost lawn y Bil ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth i'n hargyhoeddi y bydd y Bil yn niwtral o ran cost yn y tymor hir. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod maint a chymhlethdod y Bil yn ei wneud yn hynod o anodd ei gostio. Rydym hefyd yn cydnabod pryderon tystion ynglŷn â'r sialensiau sy'n wynebu cyllid sector cyhoeddus ar hyn o bryd ac y bydd hynny'n siapio'r cyd-destun y rhoddir y Bil hwn ar waith ynddo.**

Rydym hefyd yn ymwybodol, hyd nes y bydd rheoliadau sy'n deillio o'r Bil wedi cael eu cwblhau ar eu gwedd derfynol, nad yw'n bosibl cyfrifo faint y bydd y Bil yn ei gostio. Er enghraifft, heb fframwaith cymhwystera cenedlaethol terfynol, ni wyddom pwy fydd yn gymwys i gael gwasanaethau ac ni allwn wybod, felly, faint y bydd yn ei gostio i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Nodwn ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i ddarparu rhagor o arian ar gyfer trosglwyddo i'r drefn newydd a gweithredu'r Bil a'i haeriad y byddai rhagor o wybodaeth ar y mater hwn yn cael ei ddarparu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn yr hydref. Edrychwn ymlaen at ystyried hynny fel Pwyllgor.

<sup>364</sup> HSC(4)-18-13(ptn 13), 6 Mehefin 2013

<sup>365</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 156, 6 Mehefin 2013

## Ariannu newid trawsnewidiol

Cefndir

426. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at nifer o feysydd lle bydd newid trawsnewidiol yn digwydd ac yn cael ei ariannu fel a amlygodd y Dirprwy Weinidog yn ei llythyr at y Pwyllgor ar 20 Mai 2013. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Paragraffau 111 a 139-143 – hyfforddiant i staff gofal cymdeithasol a gaiff ei ariannu drwy ailgyfeirio grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol o £8.4 miliwn ynghyd ag £1.8 miliwn ychwanegol gan awdurdodau lleol.
- Paragraff 112 – arweinyddiaeth a gwella'r sector gofal cymdeithasol – caiff hyn ei ariannu drwy £2 filiwn oddi wrth Lywodraeth Cymru ond nid yw wedi'i gynnwys yn y crynodeb costau a buddion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- Paragraff 144 – goblygiadau gweithredol y Bil nad ydynt wedi cael eu mesur ond bwriad Llywodraeth Cymru yw ailgyfeirio arian grant presennol i dalu'r costau.
- Dywed paragraffau 112 a 155 o'r Memorandwm Esboniadol y caiff arian Buddsoddi i Arbed ei ddefnyddio i fynd i'r afael â chostau trosiannol sy'n deillio o fwy o gydweithio rhwng Allau a Byrddau Iechyd Lleol (BILLau).

### *Tystiolaeth gan Dystion*

427. Mae'r Pwyllgor wedi cael dystiolaeth sy'n cwestiynu a oes modd creu newid trawsnewidiol sylweddol heb fuddsoddiad ychwanegol ymlaen llaw ar ffurf cyfalaf a chynnal gwasanaethau cyfochrog. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig tynnodd CLIC sylw at y ffaith nad yw arbedion tymor hir sy'n deillio o newid ar gael i ariannu costau trawsnewid a wynebir ymlaen llaw.<sup>366</sup> Cefnogai Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y farn hon gan gwestiynu ymhle y ceid yr adnoddau i dalu am newid trawsnewidiol.<sup>367</sup>

428. Awgrymai dystiolaeth gan dystion eraill nad yw'r Memorandwm Esbonadol yn cwmpasu'r holl feysydd lle bydd costau'n deillio o newid trawsnewidiol. Cododd Conffederasiwn GIG Cymru'r pwynt nad yw ariannu'r

<sup>366</sup> SSW 51, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>367</sup> SSW 50, Tystiolaeth Ysgrifenedig

gwaith o gynnal gwasanaethau cyfochrog, sy'n ofynnol er mwyn gwireddu newid, wedi cael ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, ynghyd ag unrhyw buddsoddi cyfalaf ychwanegol ymlaen llaw.<sup>368 369</sup>

429. Ar fater buddsoddi i arbed, hysbysodd cynrychiolydd o BILI Hywel Dda ni fod arbedion yn gorfol cael eu gwneud yn y sefyllfa ariannol gyfredol er mwyn cynnal y status quo ac y byddai arbedion ychwanegol i dalu buddsoddiadau buddsoddi-i-arbed yn ôl yn heriol felly.<sup>370</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

430. Yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 18 Ebrill 2013, derbyniodd y Dirprwy Weinidog y byddai yna gostau cychwynnol ond mai mater i CLILC a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yw darparu dadansoddiad o'r rhain. Fodd bynnag, dywedodd y byddai posibilrwydd o gyflwyno'r gweithredu fesul cam fel bod y buddion yn gwrthbwys o'r costau ac y cai rhagor o wybodaeth ei darparu cyn y byddai gofyn i'r Pwyllgor bleidleisio ar y Bil.<sup>371</sup>

431. Mewn ymateb i'r Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'i gwestiwn am ariannu'r cydweithio trosiannol, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai, yn ogystal â defnyddio'r Gronfa Buddsoddi-i-Arbed a'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol, hefyd am dawelu meddyliau'r Aelodau fel hyn:

"..[I] would also like to assure Committee members however, that implementation planning will take full account of how to fund any transitional costs."<sup>372</sup>

A

"Repayments will be met through the release of efficiencies generated by the new delivery approach".<sup>373</sup>

432. Yn ei llythyr at y Pwyllgor hwn dyddiedig 20 Mai,<sup>374</sup> darparodd y Dirprwy Weinidog amserlen ar gyfer datblygu'r is-ddeddfwriaeth a oedd yn dangos bod y gwaith o gynllunio'r gweithredu i fod i redeg o ganol 2013 i ganol 2014. Dangosai hynny na fyddai cynllun gweithredu, yn nodi costau trosiannol gweithredu'r Bil, ar gael am beth amser efallai. Yn ei thystiolaeth

<sup>368</sup> SSW 84, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>369</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 16 Mai 2013

<sup>370</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 176, 16 Mai 2013

<sup>371</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 18 Ebrill 2013

<sup>372</sup> FIN(4)-07-13 (p1), 24 Ebrill 2013

<sup>373</sup> FIN(4)-07-13 (p1), 24 Ebrill 2013

<sup>374</sup> HSC (4)-18-13 (ptn13), 6 Mehefin 2013

Iafar ar 18 Ebrill 2013 cytunodd y Dirprwy Weinidog fodd bynnag i ddod yn ôl at y Pwyllgor gyda'r goblygiadau o ran adnoddau wrth i'r rheoliadau gael eu datblygu.<sup>375</sup>

### *Ein Barn Ni*

**Wrth ystyried ariannu newid trawsnewidiol, ni chredwn fod gennym ddigon o wybodaeth fel sail i lunio barn. Nodwn farn y Dirprwy Weinidog ynglŷn â'r posibilrwydd o weithredu fesul cam fel bod y buddion yn gwrthbwys o'r costau a'i haddewid i ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn cyn i'r Pwyllgor hwn orfod pleidleisio ar y Bil. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu'r wybodaeth hon cyn diwedd cyfnod 2 ac yn darparu eglurder ynglŷn â sut y bydd gweithredu fesul cam yn gweithio'n ymarferol.**

### **Hyfforddiant**

#### Cefndir

433. Dywed paragraffau 139-140 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr wynebir cost hyfforddi untro o £1.8 miliwn a chost cyfle o £10.5 miliwn gan y bydd staff yn gorfol gadael eu desgiau tra byddant yn cael hyfforddiant.

434. Dywed paragraffau 141 – 144 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol y caiff arian grant presennol (£8.4 miliwn) ei ailgyfeirio o 2014-15 i dalu'r costau hyn. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywed Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod yr arian hyfforddi ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd<sup>376</sup> ac mae Dinas a Sir Abertawe'n rhannu'r pryderon nad yw'r Bil yn ymdrin â chynlluniau i ariannu hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r sector drwyddo draw.<sup>377</sup>

#### Tystiolaeth gan Dystion

435. Cododd Fforwm Gofal Cymru bryderon yn ei ymateb ysgrifenedig ynglŷn ag ailgyfeirio grantiau hyfforddi gan y gallai hynny effeithio ar y lefel gyfredol o gymorth.<sup>378</sup>

436. Tanlinelloedd Confederaliwn GIG Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig inni nad oes unrhyw arian yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer anghenion hyfforddi'r gwasanaeth iechyd a phartneriaid eraill. Dywedodd:

<sup>375</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 18 Ebrill 2013

<sup>376</sup> SSW 50, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>377</sup> SSW 27, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>378</sup> SSW 65, Tystiolaeth Ysgrifenedig

“The Explanatory Memorandum gives considerable consideration to the financial implications and training requirements for social services. However, no consideration seems to have been given to the training and resources needs of the health service and other partners, and we would urge urgent consideration to be given to these areas.”<sup>379</sup>

437. Yn ei thystiolaeth lafar, rhannodd Cyfarwyddwr Confederaliwn GIG Cymru ei phryderon difrifol nad oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu ar gyfer unrhyw arian i hyfforddi'r gwasanaeth iechyd a gofynnodd i'r Pwyllgor roi ystyriaeth frys i hyn.<sup>380</sup>

438. Rhannodd Cyfarwyddwr Safonau a Rheoleiddio, Cyngor Gofal Cymru, yn ei dystiolaeth lafar, ei bryderon y gallai tynnu swm sylweddol o grant datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, fel a nodwyd gan y Dirprwy Weinidog ym mharagraffau 111 a 141 o'r Memorandwm Esboniadol, gael effaith bosibl ar hyfforddi gweithwyr gofal cartref ac eraill.<sup>381</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

439. Hysbysodd y Dirprwy Weinidog ni fod arian ychwanegol wedi cael ei neilltuo ar gyfer hyfforddi'r gweithlu. Dywedodd:

“I have issued a statement on training and you have seen the statement on the £8 million that we are already providing, which is topped up to about £11 million by local authorities. Local authorities will need to realign their resources in order to implement the Bill. The training needs will change, but the funding will be there. We are committed to that. I have issued a statement on that very recently.”<sup>382</sup>

#### *Ein Barn Ni*

Rydym yn croesawu addewid y Dirprwy Weinidog i ddyrannu arian ychwanegol ar gyfer hyfforddi'r gweithlu ond rydym yn pryderu am y diffyg manylion a ddarparwyd am yr arian hwn. Rydym yn pryderu mai dim ond i awdurdodau lleol y caiff arian o'r fath ei ddarparu ac nad oes digon o sylw'n cael ei roi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i bartneriaid eraill, yn arbennig y GIG. Byddem yn poeni hefyd pe bai arallgyfeirio arian o grant datblygu'r gweithlu gwaith cymdeithasol yn cael effaith andwyol ar hyfforddiant i staff gofal cartref a staff gofal cymdeithasol

<sup>379</sup> SSW 84, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>380</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 63 ,16 Mai 2013

<sup>381</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 16 Mai 2013

<sup>382</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 6 Mehefin 2013

**arall. Rydym yn argymhellach.**

**Credwn y bydd angen strategaeth ac amserlen glir ar hyfforddi'r gweithlu a gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ddangos ei strategaeth o ran hyfforddi'r gweithlu, yn cynnwys gwybodaeth am effaith yr hyfforddiant hwn ar wasanaethau, a'r amserlen gyflawni.**

**Rydym yn bryderus hefyd nad yw hyfforddiant statudol yn cael ei ddarparu'n gyson ar hyn o bryd. Credwn y bydd hyfforddiant proffesiynol digonol yn bwysig er mwyn rhoi'r Bil ar waith yn effeithiol ac y dylid monitro'r ddarpariaeth hyfforddiant. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ystyried y mater hwn.**

**Y goblygiadau o ran adnoddau yn deillio o asesu a diwallu anghenion gofalwyr**

*Cefndir*

440. Mae adran 15 o'r Bil yn rhoi dyletswydd ar ALI i asesu anghenion gofalwr am gymorth ac mae adrannau 26-29 yn manylu ar y trefniadau i ddiwallu anghenion gofalwyr am gymorth.

*Tystiolaeth gan Dystion*

441. Cafodd y Pwyllgor dystioaleth lafar ar 2 Mai 2013 gan Age Cymru, Plant yng Nghymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, BASW Cymru a CLILC y gallai'r diffiniad estynedig hwn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau, yn ychwanegol at oblygiadau asesu mwy o ofalwyr o ran adnoddau.<sup>383</sup>

442. Dywedodd Age Cymru wrthym:

"...we welcome the broadening of the definition. Our key concern is resources and ensuring that carers get what they need through having the expanded definition, and that is a resource issue."<sup>384</sup>

443. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wrthym:

"From our perspective, the principle is unarguable; the problem comes with the resource implication, in terms of extending the

---

<sup>383</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 125-129, 2 Mai 2013

<sup>384</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 125, 2 Mai 2013

definition. There is also a risk that we would be assessing increasing numbers of carers but that, when it came to the point of potential service provision, we would be in difficulty, because there are resource implications at two points.<sup>385</sup>

*Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

444. Nid yw'r Dirprwy Weinidog wedi gwneud sylwadau ar y mater hwn.

*Ein Barn Ni*

**Rydym wedi ystyried pryderon rhai tystion fod ehangu'r diffiniad o ofalwr yn adran 15 o'r Bil ynghyd â'r ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofalwyr yn debygol o arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau, nad yw'n cael ei adlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.**

**Rydym yn cefnogi ehangu'r diffiniad o ofalwr ac yn derbyn, os yw'r Bil i wella gwasanaethau i ofalwyr, y bydd hyn yn achosi costau, o safbwyt asesiadau a gwasanaethau ychwanegol. Credwn fod angen manylion pellach am y costau hyn ac nid yw hynny wedi cael ei adlewyrchu yn y wybodaeth a ddarparwyd hyd yma. Rydym yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu rhagor o wybodaeth ar y mater hwn cyn diwedd Cyfnod 2.**

---

<sup>385</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 126, 2 Mai 2013

## **12. Is-ddeddfwriaeth**

---

### *Cefndir*

445. Mae'r Bil yn darparu fframwaith i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru - caiff llawer o'r darpariaethau manwl eu darparu mewn is-ddeddfwriaeth. Mae manylion y pwerau yn y Bil i lunio is-ddeddfwriaeth wedi'u nodi ar dudalennau 27 - 64 o'r Memorandwm Esboniadol.

446. Mae'r Bil felly yn cynnwys nifer fawr o bwerau i lunio is-ddeddfwriaeth.

### *Tystiolaeth gan Dystion*

447. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd inni yn awgrymu, mewn termau cyffredinol, nad oes cydbwysedd priodol wedi cael ei sefydlu rhwng pwerau ar wyneb y Bil a materion sydd wedi'u gadael i is-ddeddfwriaeth.

448. Wrth ymdrin â'r mater hwn mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cynghrair Cynhalwyr Cymru:

"...there seems to be considerable amount of detail which has either been left to regulations at a later date or to the powers for Welsh Ministers to make subordinate legislation. The Wales Carers Alliance would be concerned that too much detail has been left to regulation and subordinate legislation and we would hope that much of this information will become clearer through the passage of the Bill."<sup>386</sup>

449. Mynegwyd barn debyg gan CLILC a gododd bryderon hefyd ynglŷn â logisteg datblygu rheoliadau mor fanwl a'u rhoi ar waith. Dywedodd wrthym:

"We have an additional concern about the balance between what is on the face of the Bill, in terms of provisions, and what will subsequently go into regulations. We recognise that that gives us some opportunities in terms of co-producing some of the details so that we can get clarity and a shared understanding of what the Bill's requirements are and what its impacts and implications are. However, we have concerns that that, just in logistical terms, will be a very time-intensive and resource-intensive process. We are not convinced that having around 30 pages in the explanatory memorandum of secondary legislation is the right balance. We would certainly like to

---

<sup>386</sup> SSW 46, Tystiolaeth Ysgrifenedig

focus our activity on pinning down the things that absolutely need to be provisions on the face of the Bill.”<sup>387</sup>

450. Ceisiodd rhai tystion sicrwydd y byddai rhagor o fanylion am y rheoliadau yn cael eu darparu i Aelodau'r Cynulliad cyn diwedd Cyfnod 1. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Age Cymru:

“We recognise the need for some issues to be left to regulation. However, we have concerns that the balance is inappropriate. We are particularly concerned that much of the detail of regulations is yet to be drafted and would like assurances that this is published before Assembly Members are required to vote on the Bill’s general principles at the end of Stage 1.”<sup>388</sup>

451. Cododd Age Cymru hefyd bryderon fod gormod o is-ddeddfwriaeth yn cael ei gadael i weithdrefn negyddol yn hytrach na chadarnhaol. Dywedodd:

“We are particularly concerned with the level of subordinate legislation that is left to negative rather than affirmative procedure. For example regulations on “carrying out financial assessments” (Section 48 in the table in the Explanatory Memorandum) should be subject to “affirmative” procedure to ensure the regulations are given proper scrutiny, due to the significant impact these regulations will have on individuals. We would like to see this table looked at again, with the needs of those who use social care and support services taken into account.”<sup>389</sup>

452. Roedd CLILC<sup>390</sup>, Barnardo’s Cymru<sup>391</sup> ac NSPCC Cymru<sup>392</sup> yn rhannu’r farn hon.

453. Cododd Confederaliwn y GIG hefyd bryderon ynglŷn â'r gyfran o is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn negyddol a goblygiadau hynny o ran crafu ar y Bil. Dywedodd mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

“Whilst recognising that flexibility and ‘future-proofing’ of the legislation is required, clearly a significant amount of detail will be defined by Regulations. This makes it difficult to analyse the practical

---

<sup>387</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 18 Ebrill 2013

<sup>388</sup> SSW 66, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>389</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 18 Ebrill 2013

<sup>390</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 214-217, 18 Ebrill 2013

<sup>391</sup> SSW 60, Tystiolaeth Ysgrifenedig

<sup>392</sup> SSW 74, Tystiolaeth Ysgrifenedig

implications of the Bill and give a clear view on its efficacy and the extent to which it will deliver the intended vision and impact.

[...]

“We also have concerns that a significant proportion of the Regulations will be subject to the negative resolution in the National Assembly which raises concern about the amount of scrutiny and debate which will be afforded to these important pieces of secondary legislation. We believe further consideration should be given to whether the affirmative resolution would be a more appropriate mechanism to ensure there is an opportunity to enable challenge and scrutiny in any further developments to ensure the best development of the legal framework into practice.”<sup>393</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

454. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarparwyd inni ar 20 Mai 2013, ailddatganodd y Dirprwy Weinidog ei chred y dylai'r Bil greu fframwaith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy y mae angen iddo fod yn ddigon hyblyg i ymdopi â datblygiadau'r dyfodol:

“In these circumstances, therefore, I feel the balance between primary and secondary legislation is not only proportionate, but necessary”.

455. Ychwanegodd:

“This flexibility cannot be achieved if the fine details are set out on the face of the Bill as this would result in a potentially significant number of changes to the primary legislation in years to come, once the Bill has completed its journey through the Assembly process and has been enacted.

“Instead, allowing the more operational details of the system to be defined through subordinate legislation provides the opportunity to ‘future-proof’ the Bill, to enable it to remain relevant and appropriate as circumstances and requirements change and as policies and evidence develop and grow over time. It also allows timely reactions to any amendments that may be needed as a result of the UK

---

<sup>393</sup> SSW 84, Tystiolaeth Ysgrifenedig

Government's legislation and policy changes, which are due to take place during the coming years."<sup>394</sup>

456. O ran yr amserlen i gyhoeddi is-ddeddfwriaeth, dywedai llythyr y Dirprwy Weinidog dyddiedig 20 Mai 2013, a ddaeth i law gyda'r dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, hyn:

"Whilst the Health and Social Services Committee will, I hope, play a role in considering these Regulations as they are developed, I want to be clear that the draft Regulations (and the Code or Codes) themselves will not be available until 2014 although I do intend to sign off the policy intent for the priority subordinate legislation by the end of this calendar year and to share that information with you then.<sup>395</sup>

*Ein Barn Ni*

**Drwy gydol ein hystyriaeth o'r Bil rydym wedi mynegi pryder ynglŷn â'r diffyg manylion a ddarparwyd ynglŷn â rheoliadau drafft i gyd-fynd â'r Bil. Cytunwn fod y cydbwysedd rhwng darpariaethau ar wyneb y Bil a'r rhai mewn is-ddeddfwriaeth yn gywir mewn rhannau o'r Bil. Fodd bynnag, er ein bod yn derbyn nad yw'n bosibl cynnwys manylion pob darpariaeth ar wyneb y Bil, mae rhannau o'r Bil lle nad ydym yn credu i'r cydbwysedd iawn gael ei daro ac rydym wedi ymdrin â'r rhannau hynny yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.**

---

<sup>394</sup> HSC(4)-18-13(ptn13) 6 Mehefin 2013

<sup>395</sup> HSC(4)-18-13(ptn13) 6 Mehefin 2013

## **13. Diddymiadau**

---

### *Cefndir*

457. Darparwyd rhestr o ddiddymiadau gyda thystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol y Dirprwy Weinidog, sy'n cadarnhau bwriad i ddiddymu yng Nghymru Ran 3 ac Atodlen 2 o Ddeddf Plant 1989 ac adrannau 1,2 a 28A o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970, er bod y ddogfen yn awgrymu na chafwyd cytundeb eto ym mhob achos.

458. Yn achos Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 mae'r Dirprwy Weinidog wedi darparu Tabl Trawsleoli yn dangos ymhle y gwneir darpariaeth yn y Bil ar gyfer pob adran neu baragraff sy'n cael ei ddiddymu.

459. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu diddymu dau Fesur Cymru yn eu cyfanrwydd: Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 a Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, ynghyd â Rhan 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

### *Tystiolaeth gan Dystion*

460. Mae dystion wedi mynegi pryder nad yw wedi bod yn glir pa un a fydd y rhannau o ddeddfwriaeth bresennol y bydd y Bil yn eu disodli yn cael eu diddymu ai peidio, gan greu risg o ddarpariaeth ddeddfwriaethol luosog a dryswch posibl. Lle mae deddfwriaeth bresennol i gael ei diddymu mae risg y gallai rhai darpariaethau pwysig gael eu colli os nad yw'r Bil yn eu hatgynhyrchu'n gynhwysfawr. Yn y cyd-destun hwn y ddeddfwriaeth y cyfeiriwyd ati amlaf yw Deddf Plant 1989 (Rhan 3) a Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970.<sup>396</sup>

461. Er enghraift, mae dystion wedi codi pryderon ynglŷn â cholli diffiniadau yn deillio o ddeddfwriaeth sy'n cael ei diddymu gan y Bil. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Cynhalwyr Cymru:

"For instance, the current definition of a disabled child under section 17 of the Children Act 1989 will be going. I know that a number of families of disabled children will be quite concerned that that could weaken their ability to access services, because, by definition under current legislation, disabled children, if you pass that definition, are classed as children in need and therefore have access to services by that route. So, we are quite concerned about definitions there. There are similar issues with regard to the read-across from other pieces of

---

<sup>396</sup> [Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970](#)

legislation; for example, under the existing Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970 with regard to access to the provision of aids and adaptations. There are quite a few pieces of current legislation, and it is about quite how those definitions read across into the eventual Act. I think that we need to look at some of these Acts carefully, to make sure that things do not fall off the edge.”<sup>397</sup>

462. Mae tystiolaeth a ddarparwyd inni hefyd wedi amlygu pryder ynglŷn â cholli’r categori ‘plentyn mewn angen’ yn adran 17, Rhan 3, o Ddeddf Plant 1989 a’r mynediad at wasanaethau y mae’r statws hwnnw’n ei roi i, er enghraifft, blant anabl. Dywedodd NSPCC Cymru:

“We also share a concern around the fact that, as we understand it, section 17 of the Children Act 1989 is repealed, and that gives us a definition of children in need. We are concerned about how a person-in-need definition will translate into something that is useable for children.”<sup>398</sup>

463. Mae tystion wedi mynegi pryder ynglŷn â sut mae’r Bil yn darparu ar gyfer cymhorthion ac addasiadau sydd ar hyn o bryd yn dod o dan Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970. Awgrymai Bwrdd Iechyd Hywel Dda, mewn tystiolaeth ysgrifenedig atodol, y dylai fod cyfeiriad penodol at y rhain yn y Bil.<sup>399</sup>

#### *Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog*

464. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, ymatebodd y Dirprwy Weinidog i bryderon ynglŷn â cholli’r categori ‘plentyn mewn angen’ yn adran 17, Rhan 3, o Ddeddf Plant 1989, drwy ddatgan bod yr hawliau sy’n cael eu creu yn y Bil yn mynd y tu hwnt i adran 17 drwy greu dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o blant y mae’n ymddangos bod arnynt angen gofal a chymorth, a dyletswydd i ddiwallu anghenion sy’n ateb y meini prawf cymhwys. Dywedodd:

“Mae’n werth nodi hefyd nad oes gan blentyn anabl unrhyw hawl awtomatig i wasanaeth o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989.”<sup>400</sup>

465. Mewn tystiolaeth lafar ar 6 Mehefin 2013 darparodd Swyddog a oedd yn bresennol gyda’r Dirprwy Weinidog fanylion am ble mae’r Bil yn ailadrodd darpariaethau y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd o dan Fesur Strategaethau

<sup>397</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 2 Mai 2013

<sup>398</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 2 Mai 2013

<sup>399</sup> HSC(4)-18-13(ptn 17), 6 Mehefin 2013

<sup>400</sup> HSC(4)-18-13(ptn 13), 6 Mehefin 2013

ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, yn wyneb bwriad Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r mesur. Dywedodd:

"In part, through the information, advice and assistance provision in section 8 of the Bill and in part, also, through the amendment to section 40 of the National Health Service (Wales) Act 2006, which is provided for in section 5(3) of the Bill; section 40 of the National Health Service (Wales) Act being the section that imposes a duty on local authorities and local health boards to jointly prepare strategies for the well-being of the population in their area."<sup>401</sup>

466. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd wrthym y bydd gan ofalwyr unigol hawl i asesiad o dan y Bil, sy'n mynd y tu hwnt i ddarpariaethau cyfredol Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.<sup>402</sup> O ran Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym hefyd:

"...that Measure will come across in its entirety to the Bill."<sup>403</sup>

467. Wrth ymdrin â phryderon nad yw cymhorthion ac addasiadau wedi cael eu cynnwys yn benodol yn y Bil, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"I believe that aids and adaptations will still be available. The Bill will not change that. People will continue to have access to equipment, adaptations and other services that will be accessible in the community and through support provided to people who have eligible needs. We have not listed every service on the face of the Bill, for a number of reasons, and I have explained that. However, I do believe that the right to aids and adaptations will be preserved."<sup>404</sup>

468. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog hefyd at sut yr oedd hi'n credu y byddai'r Bil yn cryfhau, yn hytrach na gwanhau, hawliau plant pan fydd yn disodli darpariaethau yn Rhan 3 o'r Ddeddf Plant. Dywedodd wrthym:

"I am glad of this opportunity to highlight section 17 of the Children Act and to say quite clearly that section 17 of that Act currently provides no automatic right to a service for a disabled child. Instead, a disabled child's entitlement to services depends upon the assessment disclosing sufficient evidence to promote the provision of

---

<sup>401</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 6 Mehefin 2013

<sup>402</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 67, 6 Mehefin 2013

<sup>403</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 133, 6 Mehefin 2013

<sup>404</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 6 Mehefin 2013

that service. Section 17(1) of the Children Act 1989 imposes a duty on a local authority to safeguard and promote the welfare of a child in need, the definition of which includes a disabled child, by providing a range and level of services appropriate to the child's needs. However, there is no automatic right to that service under section 17. The local authority must determine that a child has needs that can be met by the provision of a service under section 17. There is no guarantee, therefore, that a disabled child will necessarily have a need for services and, if he or she has a need, that the local authority will provide a service to meet that need.<sup>"405</sup>

469. Ychwanegodd:

"I am absolutely clear, therefore, that the Bill preserves the entitlement for children that currently exists in law, and the rights that we have created, in fact, go beyond what is provided by section 17 of the Act by creating on the face of the Bill a duty on local authorities to carry out an assessment of children where they appear to need care and support and then a duty to meet those needs that meet the eligibility criteria. Disabled children and young people will also benefit from the new assessment arrangements in the Bill, as all people will have a right to an assessment, and we want the assessment to be proportionate to need to ensure that more energy is focused on delivering solutions and not on bureaucratic assessment processes."<sup>406</sup>

*Ein Barn Ni*

**Croesawn y ffaith i'r Dirprwy Weinidog ddarparu Tabl Diddymiadau inni yn dangos ymhle y cai deddfwriaeth bresennol ei diddymu gan y Bil hwn ynghyd â Thabl Trawsleoli ym amlinellu ymhle y byddai'r diddymiadau hynny'n cael eu cwmpasu o fewn y Bil. Mae'r wybodaeth hon yn fuddiol ond credwn y dylai gwybodaeth o'r fath fod wedi cael ei darparu inni ar ddechrau proses cyfnod 1 fel bod modd craffu'n fanylach ar y Bil.**

**Nodwn y wybodaeth yn y Tabl Diddymiadau a'r Tabl Trawsleoli ac rydym yn cydnabod y bydd y Bil yn diddymu deddfwriaeth bresennol ac yn ei disodli â darpariaethau yn y Bil neu reoliadau i gyd-fynd ag ef. Rydym yn disgwyl i hon fod yn broses ddi-dor, gyda darpariaethau amnewid wedi'u sefydlu cyn i'r ddeddfwriaeth bresennol gael ei diddymu.**

---

<sup>405</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 6 Mehefin 2013

<sup>406</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 210, 6 Mehefin 2013

O ran diddymiadau penodol, rydym yn pryderu am sut y bydd y Bil yn darparu ar gyfer cymhorthion ac addasiadau o gofio bod y Dirprwy Weinidog wedi cadarnhau y bydd adrannau 1, 2 a 28A o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 yn cael eu diddymu yng Nghymru. Nodwn fod deddfwriaeth gyfredol yn cyfeirio'n benodol at 'gymhorthion ac addasiadau' ac rydym yn pryderu ynglŷn â sut y caiff hyn ei gwmpasu yn y Bil hwn. Rydym yn argymhell bod cyfeiriad penodol at 'gymhorthion ac addasiadau' yn cael ei ychwanegu at y rhestr a nodir yn adran 20 (2).

Rydym yn argymhell hefyd y dylid diwygio adran 20 (2) o'r Bil i'w gwneud yn glir mai rhestr a 'ddylai gynnwys ond nad yw'n hollgynhwysol' yw'r rhestr o enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu neu'i drefnu i ddiwallu anghenion o dan adrannau 21 i 29.

Nodwn dystiolaeth y Dirprwy Weinidog y bydd y Bil yn ailadrodd y darpariaethau ym Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, yn wyneb bwriad Llywodraeth Cymru i ddiddymu'r mesur. Rydym yn croesawu hyn ond yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn darparu sicrwydd pellach na fydd diddymu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 yn tanseilio hawliau a hawlogaethau presennol Gofalwyr.

## Atodiad A

---

### Egwyddorion Statudol

Cafodd y ddadl o blaid cynnwys Egwyddorion Statudol ei thrafod gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei Bapur Gwaith ar yr achos o blaid diwygio gofal cymdeithasol i oedolion. Nid yw'r syniad o restr o Egwyddorion Statudol wedi cael ei gynnwys yn y Bil, er y cyflwynwyd y ddadl fod 'llesiant' yn egwyddor statudol sy'n treiddio drwy'r Bil. Yr wrthddadl yw nad yw 'llesiant' yn egwyddor - yn hytrach, cysyniad neu thema sy'n rhedeg drwy'r Bil yw. Byddai Egwyddorion Statudol yn help i ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau wneud synnwyr o'r syniad o lesiant a byddai'n help iddynt wneud penderfyniadau o dan y Bil.

Y ffactor cymhlethu o gael Egwyddorion Statudol ar wyneb y Bil yw'r ymdriniaeth â phobl. Nid yw'n dilyn o reidrwydd y bydd Egwyddorion Statudol sy'n briodol i blant yn briodol i oedolion, ac i'r gwrthwyneb. I blant, yr egwyddor allweddol yw'r egwyddor llesiant a rhaid cadw hynny. Felly, rhaid i unrhyw egwyddorion o dan y Bil beidio â gwrth-ddweud na thanseilio adran 1 o Ddeddf Plant 1989. Fodd bynnag, mae'n bosibl datblygu egwyddorion generig sy'n berthnasol i blant ac oedolion fel ei gilydd, er y byddai angen rhoi gogwydd ar egwyddorion unigol efallai er mwyn iddynt adlewyrchu lefel gwahanol o ddatblygiad.

Ceir rhestr isod o Egwyddorion Statudol sy'n cael eu hawgrymu, a allai lunio adran 1 newydd o'r Bil:

#### *Egwyddorion Statudol*

Adran 1(1) Wrth wneud penderfyniadau o dan y Ddeddf hon, bydd yr egwyddorion yn is-adran (2) yn gymwys.

(2) Yr egwyddorion yw:

(a) llesiant unrhyw blentyn y mae arno angen gofal neu gymorth fydd y brif ystyriaeth, fel y nodir yn yr egwyddor llesiant yn ad.1 o Ddeddf Plant 1989;

(b) yn achos oedolyn, rhaid i unrhyw beth a wneir o dan y Ddeddf hon geisio cynyddu'i annibyniaeth a'i ymreolaeth i'r eithaf;

- (c) dylai penderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf hon hyrwyddo urddas, diogelwch a llesiant person y mae arno angen gofal a chymorth, ac urddas, diogelwch a llesiant gofalwr y mae arno angen cymorth;
- (d) rhaid i unigolyn gael ei gynnwys cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol mewn unrhyw benderfyniad a wneir ynglŷn â'i asesiadau gofal, yn y gwaith o gynllunio, datblygu ac adolygu'i ofal a'i gymorth, neu ynglŷn â'r cymorth sy'n cael ei ddarparu iddo yn ei rôl fel gofalwr, fel sy'n briodol o ystyried ei lefel o ddealltwriaeth a'i barodrwydd i gymryd rhan, ac yn ychwanegol, yn achos plentyn, fel sy'n gydnaws â'r egwyddor llesiant;
- (e) lle mae anabledd, oed neu ryw achos arall yn amharu ar allu person i gyfathrebu, dylid darparu cymorth priodol i'w alluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac, yn achos plentyn, fel sy'n gydnaws â'r egwyddor llesiant;
- (f) rhaid parchu dymuniadau unrhyw berson a'u dilyn lle bynnag y mae hynny'n ymarferol, yn saff ac yn briodol ac, yn achos plentyn, yn gydnaws â'i lefel o ddealltwriaeth ac â'r egwyddor llesiant;
- (g) mae gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau sy'n ymddangos i eraill yn ddireswm, yn annoeth neu'n ecsentrig oni bai, yn achos plentyn, nad oes ganddo'r lefel angenrheidiol o ddealltwriaeth i wneud penderfyniadau o'r fath, neu fod penderfyniadau o'r fath yn anghydnaws â'r egwyddor llesiant;
- (h) rhaid rhagdybio mai'r unigolyn sy'n fwyaf cymwys i farnu ynglŷn â'i lesiant ei hun, ac eithrio mewn achosion lle nad oes ganddo'r cymhwyster cyfreithiol angenrheidiol i wneud yr asesiad hwnnw neu, yn ychwanegol yn achos plentyn, nad oes ganddo'r lefel angenrheidiol o ddealltwriaeth i wneud yr asesiad hwnnw;
- (i) dylid mabwysiadu'r ymyriad sy'n cyfyngu leiaf ar yr unigolyn pan fydd rhaid ymyrryd â hawliau dynol unigolyn, yn enwedig ei hawl i fywyd teuluol, bywyd preifat a chartref, er nad dyna'r unig hawliau a gaiff eu hystyried.

(3) Ar wahân i'r egwyddor llesiant yn is-adran 2(a), sef y brif ystyriaeth ym mhob achos yn ymwneud â phlant, nid yw'r egwyddorion uchod wedi'u rhestru mewn trefn blaenoriaeth ac nid yw'r un pwysau'n cael eu rhoi iddynt ychwaith o reidrwydd.

## Atodiad B

---

### Y diffiniad o “lesiant”.

Mae ‘llesiant’ yn ymddangos mewn 72 o Ddeddfau gwahanol drwy law Senedd y Deyrnas Unedig ac 20 o Ddeddfau a luniwyd gan Senedd yr Alban. Mae’n ymddangos mewn nifer o gyd-destunau gwahanol – iechyd a llesiant, plant, anifeiliaid, cludo carcharorion, cyfraith cystadleuaeth a llawer o rai eraill. Yr hyn sydd ar goll yw diffiniad clir o ‘lesiant’ yn unrhyw un o’r cyd-destunau hyn.

Mae’r diffiniad cyfredol yn adran 2 o’r Bil yn darllen:

‘(2) Ystyr “llesiant”, o ran person, yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o’r canlynol—

- (a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- (b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- (c) addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden;
- (d) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- (e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
- (f) sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- (g) llesiant cymdeithasol ac economaidd.

(3) O ran plentyn, mae “llesiant” hefyd yn cynnwys—

datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol; “lles” fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol “welfare” at ddibenion Deddf Plant 1989.

(4) O ran oedolyn, mae “llesiant” hefyd yn cynnwys—rheolaeth ar fywyd pob dydd; cymryd rhan mewn gwaith.'

Rhaid i unrhyw ddiffiniad yn y Bil gadw’r egwyddor llesiant yn benodol.

Yn ei adroddiad ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion, cyfeiriodd Comisiwn y Gyfraith at y diffiniad o lesiant yn Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan ei gymeradwyo i raddau. Mae’n darllen:

‘well-being’, in relation to individuals, means well-being so far as relating to any of the following—

- (a) health and emotional well-being;

- (b) protection from harm and neglect;
- (c) education, training and recreation;
- (d) the contribution made by them to society;
- (e) social and economic well-being;
- (f) securing their rights;'

## Opsiynau

A. Un ffordd bosibl o ymdrin â llesiant yw bod y Bil, yn hytrach na'i ddiffinio, yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau 'ystyried' nifer o ffactorau i gydnabod llesiant unigolyn. Gellid dadlau mai dyma fwriad y Bil wrth iddo ddefnyddio'r term 'o ran'. Mae llesiant pob unigolyn yn wahanol a'r gorau y gall y Bil ei wneud yw darparu fframwaith. Er enghraifft, gallai'r adran ddarllen,

'(1) Wrth benderfynu ar lesiant unrhyw unigolyn, rhaid ystyried

- (a) gwerthoedd diwylliannol a phersonol yr unigolyn;
- (b) iechyd a llesiant;
- (c) yr hawl i gyfrannu i gymdeithas a chymryd rhan mewn cymdeithas i'r graddau y mae'n dymuno gwneud hynny;
- (d) diogelwch ac amddiffyniad;
- (e) perthnasoedd cymdeithasol, teuluol a phersonol;
- (f) safon byw;
- (g) yr angen i'w hawliau gael eu diogelu.

(2) O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol; "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989.

B. Opsiwn arall fyddai i'r ffactorau a restrir yn (1) a-g yn opsiwn A uchod gael eu cyflwyno fel rhestr o ffactorau i'w cynnwys mewn Cod Ymarfer. Byddai hyn yn dilyn model Deddf Iechyd Meddwl ddiwygiedig 1983, sy'n nodi amryw o ffactorau y mae rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried wrth Iunio Cod. Efallai fod Cod yn ffordd fwy addas o grisialu'r cysyniad hwn sy'n anodd ei ddiffinio.

C. Efallai hefyd y gellid ystyried peidio â diffinio 'llesiant' o gwbl, a dibynnu yn hytrach ar synnwyr cyffredin a dehongli goddrychol. O holi unigolyn ynglŷn â'i lesiant, gallai ateb ar sail ei amgylchiadau a'i ddisgwyliadau

personol. Byddai neu dylai fod yn ofynnol gweithredu ar rai o'r rheini o dan y Bil – nid pob un, o ystyried cylch gwaith penodol y Bil. Fodd bynnag, er mai peidio â diffinio yw'r dull sy'n cael ei ffafrio mewn llawer o ddeddfwriaeth, efallai y teimlir, oherwydd pwysigrwydd canolog y cysyniad yn y Bil, fod rhaid cael diffiniad.

D. Gellid hefyd mabwysiadu dull Canada a'i ddefnyddio ar wyneb y Bil, neu fel elfennau sbarduno ar gyfer y Cod Ymarfer.

## **Atodiad C - Tystion**

---

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau dystiolaeth yn: <http://www.senedd.cynulliad.cymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=5664>

*18 Ebrill 2013*

Gwenda Thomas AM	Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Martyn Palfreman	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Emily Warren	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Gwen Carrington	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Môn
Phil Evans	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bro Morgannwg
Constance Adams	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Mario Kreft	Fforwm Gofal Cymru
Malcolm Perrett	Fforwm Gofal Cymru
Mary Wimbury	Fforwm Gofal Cymru
Elizabeth Thomas	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Peter Tyndall	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

*2 Mai 2013*

Keith Bowen	Cyfarwyddwr, Cynhalwyr Cymru a Chadeirydd Cynghrair Gofalwyr Cymru
Ruth Coombs	Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru
Ewan Hilton	Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru
Rhian Davies	Prif Weithredwr, Anabledd Cymru
Paul Swann	Swyddog Polisi, Anabledd Cymru
Victoria Lloyd	Age Cymru
Catriona Williams	Plant yng Nghymru
Robin Moulster	Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain - Cymru

Parry Davies	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ceredigion
Sally Ellis	<i>Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Ddinbych</i>
Martyn Palfreman	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Emily Warren	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Simon Birch	Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Cyngor Sir Fynwy
Sue Cooper	Pennaeth Gofal Cymdeithasol - Oedolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Jenny Williams	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Jeff Farrar	Dirprwy Brif Gwnstabl, Heddlu Gwent
Richard Booty	Llywodraethwr Carchar Caerdydd
Ian Barrow	Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru
Anna Buchanan	Cyfarwyddwr Amddiffyn, Craffu a Hawliau Dynol, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Michelle Denwood	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dr Sam Clutton	Swyddog Polisi, Comisiynydd Plant Cymru
Keith Towler	Comisiynydd Plant Cymru

*8 Mai 2013*

Jan Leightley	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant, Gweithredu dros Blant
Kate Mulley	Pennaeth Polisi ac Ymchwil, Gweithredu dros Blant
Yvonne Rodgers	Cyfarwyddwr, Barnado's Cymru
Tim Ruscoe	Swyddog Datblygu, Barnado's Cymru
Vivienne Laing	Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus yr NSPCC yng Nghymru

Des Mannion	Pennaeth Gwasanaeth Cenedlaethol yr NSPCC yng Nghymru
Abbie	Person ifanc
Caia	Person ifanc
Charlotte	Person ifanc
Kirsten	Person ifanc
Liam	Person ifanc
Meredith	Person ifanc
Neeve	Person ifanc
Zoe	Person ifanc

*16 Mai 2013*

Helen Birtwhistle	Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru
Sandra Morgan	Pennaeth Therapi Galwedigaethol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Carol Shillabeer	Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys
Carol Lamyman-Davies	Cyfarwyddwr, Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
Gerry Evans	Cyfarwyddwr Safonau a Rheoleiddio, Cyngor Gofal Cymru
Rhian Huws Williams	Prif Weithredwr, Cyngor Gofal Cymru
Urtha Felda	Panel Dinasyddion Gwasanaethau Cymdeithasol
Jennie Lewis	Panel Dinasyddion Gwasanaethau Cymdeithasol
Eirian Rees	Panel Dinasyddion Gwasanaethau Cymdeithasol
Graham Williams	Panel Dinasyddion Gwasanaethau Cymdeithasol
Anna-Leigh	Person ifanc
Ieuan	Person ifanc
Kyle	Person ifanc
Luke Sweet	Person ifanc
Rachel	Person ifanc

Richard	Person ifanc
Rob	Person ifanc
Tomas	Person ifanc

## 6 Mehefin 2013

Gwenda Thomas AC	Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Fonesig June Clark	Athro Emeritws Nyrsio Cymunedol, Prifysgol Abertawe (wedi ymddeol)
Yr Athro Ceri Phillips	Athro Economeg Iechyd a Dirprwy Bennaeth Ysgol (Ymchwil), Prifysgol Abertawe

## **Atodiad D – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig**

---

Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Id=5961>

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Y Cyngor Aciwbigo Prydeinig	SSW 1
WRVS Cymru	SSW 2
Zero Tolerance	SSW 3
Adoption UK	SSW 4
Respect	SSW 5
Heddlu Gwent	SSW 6
Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf	SSW 7
Global Initiative	SSW 8
UNICEF y DU	SSW 9
Cynghrair Ailalluogi Cymru	SSW 10
Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc	SSW 11
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	SSW 12
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr	SSW 13
NYAS Cymru	SSW 14
Sefydliad Partner wedi'i Gydlynu gan Anabledd Cymru	SSW 15
NCMA Cymru	SSW 16
My Care My Home	SSW 17
Cyngor Sir Ynys Môn	SSW 18
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi (CSP)	SSW 19
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain - Cymru	SSW 20
Ambiwlans Sant Ioan	SSW 21
'Sdim Curo Plant! Cymru	SSW 22
Cynhalwyr Cymru	SSW 23
Y Gymdeithas Strôc	SSW 24
Y Grŵp Cynghori	SSW 25

Sense Cymru, RNIB Cymru, Action on Hearing Loss Cymru, Vision in Wales and Guide Dogs Cymru	SSW 26
Dinas a Sir Abertawe	SSW 27
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol	SSW 28
Coalition on Charging Cymru	SSW 29
Cyngor Gofal Cymru	SSW 30
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	SSW 31
Diverse Cymru	SSW 32
NSPCC Cymru	SSW 33
Dewis Centre for Independent Living	SSW 34
Canolfan Cydweithredol Cymru	SSW 35
5 Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn Ne-ddwyrain Cymru	SSW 36
Refuge	SSW 37
Panel Dinasydion Gwasanaethau Cymdeithasol	SSW 38
Snap Cymru	SSW 39
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	SSW 40
BAAF Cymru	SSW 41
Dr Meurig Williams	SSW 42
Grŵp Mynediad Arfon	SSW 43
Coleg Nyrsio Brehinol Cymru	SSW 44
Ymateb ar y cyd gan Dr Doughty, Dr Holland, Dr Ottaway	SSW 45
Cynghrair Cynhalwyr Cymru	SSW 46
Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru	SSW 47
Cymorth Canser Macmillan	SSW 48
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	SSW 49
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	SSW 50
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	SSW 51
Cymorth i Ddioddefwyr	SSW 52
Cyngor Bro Morgannwg	SSW 53
Linc Care	SSW 54

NDCS Cymru	SSW 55
Cyngor Sir y Fflint	SSW 56
Mind Cymru	SSW 57
Comisiynydd Plant Cymru	SSW 58
Anabledd Dysgu Cymru	SSW 59
Barnardo's Cymru	SSW 60
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru (NAS Cymru)	SSW 61
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru	SSW 62
Scope Cymru	SSW 63
Gweithredu dros Blant	SSW 64
Fforwm Gofal Cymru	SSW 65
Age Cymru	SSW 66
CARE	SSW 67
Cymorth Cymru	SSW 68
Cyngor Caerdydd	SSW 69
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	SSW 70
Prosiect Cyngor ar Anabledd	SSW 71
Rhwydwaith Di-drais Eglwysi (CNNV)	SSW 72
Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys	SSW 73
NSPCC Cymru	SSW 74
Ymateb ar y Cyd gan Gydweithredwyr Blaengar Cymru ac Age Connect Wales	SSW 75
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	SSW 76
Plant yng Nghymru	SSW 77
Y Gymdeithas Alzheimer	SSW 78
Y Parchedigaf Dr Barry Morgan, Archesgob Cymru	SSW 79
Tros Gynnal Plant	SSW 80
Grŵp Achub Canolfan Ddydd Coedlan y Parc	SSW 81
Pamela Hughes	SSW 82
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	SSW 83
Conffederasiwn GIG Cymru	SSW 84

Brynawel Rehab	SSW 85
Y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned	SSW 86
Cymdeithas y Gyfraith	SSW 87
Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru	SSW 88
Comisiynydd y Gymraeg	SSW 89